TORFAEN COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

# Adroddiad Hunanasesu a Llesiant Blynyddol 2024/25

**Hydref 2025**



## EIN GWELEDIGAETH AR GYFER TORFAEN

**Gwella cynaliadwyedd, cysylltedd a llesiant ein sir drwy gryfhau ein cymunedau, drwy greu economi leol ffyniannus a thrwy warchod a gwella ein hamgylchedd**

## EIN GWERTHOEDD FEL SEFYDLIAD

**Cefnogol, Teg, Effeithiol, Arloesol**



# Ein Hadroddiad Hunanasesu a Llesiant Blynyddol ar gyfer 2024-25

## Rhagair


1. Cefndir tud.5

2. Dethol ein Hamcanion tud.5

3. Cenhadaeth, Gweledigaeth a Gwerthoedd tud.13

4. Ein Hunanasesiad ar gyfer 2024/25 tud.13

    a. Adrodd yn erbyn ein Hamcanion Llesiant ar gyfer 2024-25 tud.14

    b. Torfaen: Dod yn Gyngor Rhagorol tud.65

5. Asesiad Perfformiad Panel tud.80

6. Cyd-gysylltu ein Gofynion Deddfwriaethol tud.81

7. Cost ein Gwasanaethau tud.86

8. Ymgynghori ynghylch ein Perfformiad tud.87

9. Cyflawni ein Cynnydd a'i Fonitro tud.90

10. Y Flwyddyn Nesaf a Thu Hwnt tud.92

# Rhagair

Croeso i'n Hadroddiad Hunanasesu a Llesiant Blynyddol ar gyfer 2024–2025.

Yr adroddiad hwn yw ein diweddariad blynyddol am y cynnydd yr ydyn ni wedi'i wneud wrth gyflawni a datblygu ein gwasanaethau allweddol, gan gynnwys manylion y gwaith yr ydym wedi'i wneud i fwrw ymlaen â'n 9 amcan sy'n flaenoriaeth yn ein Cynllun Sirol.

Fel pob awdurdod, rydyn ni'n dal i wynebu llawer o heriau. Ond, mae yna le hefyd i deimlo cyffro ac ymdeimlad go iawn o optimistiaeth am yr hyn sydd i ddod nesaf. Dydy'r heriau rydyn ni'n eu hwynebu fel cynghorau heddiw, fel effaith digwyddiadau byd-eang, llai o gyllidebau, costau byw, cynnydd yn y galw, ac anghydraddoldeb cynyddol ar draws ein cymunedau, ddim yn broblemau y gallwn ni eu datrys gydag offerynnau ddoe. Mae'r rhain yn heriau dwfn, rhyng-gysylltiedig sy'n gofyn am ffyrdd newydd o weithio, safbwyntiau ffres, arbrofi beiddgar a chreadigrwydd ar y cyd.

Yr adeg hon y llynedd, fe ddechreuon ni archwilio cynlluniau arloesol i weithio'n agosach gyda Chyngor Blaenau Gwent, trwy rannu Prif Weithredwr am gyfnod 'darganfod' cychwynnol o 9 mis. Cynlluniwyd y cam archwilio hwn i asesu cyfleoedd ar gyfer effeithlonrwydd uwch, i nodi adnoddau sy'n gallu gweithio ar raddfa fwy ar draws y ddau awdurdod, ac i ddatgloi'r potensial ar gyfer mwy o arloesi a chreadigrwydd yn y ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau.

Arweiniodd llwyddiant y cyfnod darganfod cychwynnol at sefydlu trefniadau mwy ffurfiol, hirdymor gyda Chyngor Blaenau Gwent, o dan fodel ffederal ar gyfer darparu gwasanaethau. Mae'r dull arloesol hwn, y cyntaf o'i fath yng Nghymru, yn ymateb beiddgar ac arloesol i'r heriau cynaliadwyedd y mae'r sector cyhoeddus yn eu hwynebu. Mae'n adlewyrchu ein cyd-ymrwymiad i gydweithio, sicrhau cydnerthedd a chyflawni canlyniadau gwell ar gyfer ein cymunedau.

Rydyn ni wedi gwneud ymrwymiad clir i leihau anghydraddoldeb a gwella llesiant yn Nhorfaen. Mae'r uchelgais hwn yn gyrru popeth a wnawn, ac mae wedi'i sefydlu wrth galon ein strategaeth ariannol. Mae ein cynllun ariannol tymor canolig yn blaenoriaethu ymyrraeth gynnar ac atal, adeiladu cydnerthedd ymhlith unigolion a chymunedau, a rhoi sylw i'r penderfynyddion iechyd ehangach. Trwy fabwysiadu egwyddorion Marmot, rydyn ni'n mynd ati mewn ffordd ragweithiol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, i roi sylw i anghydraddoldebau iechyd ac i hyrwyddo cynaliadwyedd. Mae gweithio mewn partneriaeth â Blaenau Gwent yn cryfhau ein gallu i gyflawni newid ystyrlon. Mae'r dull cydweithredol, ataliol hwn yn arloesol, ond mae hefyd yn adlewyrchu ein hethos o feddwl yn wahanol am sut rydyn ni'n cwrdd â'r heriau cymhleth y mae ein cymunedau yn eu hwynebu.

Wrth gamu i mewn i 2025/26, byddwn yn ymdrechu i rymuso ein trigolion ymhellach, gan roi pŵer iddyn nhw i wneud penderfyniadau ystyrlon ar gyfer ein cymunedau, a llais go iawn wrth benderfynu ble mae adnoddau yn cael eu gwario yn eu hardal leol, gan annog pobl leol i gydweithio fel partneriaid cyfartal wrth ddylunio gwasanaethau, eu darparu a'u gwerthuso.

Byddwn yn ffurfioli ein dull gweithredu, trwy 'fargen' newydd gyda thrigolion Torfaen, sy'n nodi'r hyn y gall pobl yn Nhorfaen ei ddisgwyl gan y Cyngor a sut y gall trigolion ein helpu i gyflawni ein cyd-genhadaeth. Rydyn ni'n anelu at ddyfodol heb anghydraddoldeb, lle mae pawb yn ffynnu mewn cymuned deg, gynhwysol a chydnerth. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i ni anelu at greu newid parhaol trwy fagu ymddiriedaeth, meithrin cyfrifoldeb a rennir, a gyrru arloesi trwy gydweithredu cryf rhwng y Cyngor, trigolion a phartneriaid.

Rydyn ni'n gwerthfawrogi pawb yn ein sefydliad, ac wrth i ni symud ymlaen mae'n galonogol gwybod y gallwn ddibynnu ar ymroddiad ein holl staff i weithio ochr yn ochr â phartneriaid, grwpiau cymunedol, gwirfoddolwyr ac aelodau etholedig i barhau i ysgrifennu ein stori lwyddiant.



**Y Cynghorydd Anthony Hunt,**
**Arweinydd y Cyngor**

**Stephen Vickers,**
**Cyd-Brif Weithredwr**



# 1. Cefndir

**Ein Hadroddiad Blynyddol**

Mae ein 'Hadroddiad Hunanasesu a Llesiant Blynyddol' yn cyflwyno ein casgliad ni ynghylch sut rydyn ni wedi perfformio yn ystod y flwyddyn flaenorol. Mae hefyd yn gyfle i ni fyfyrio i weld ble mae angen i'n ffocws ni fod yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Er bod llawer o'r adroddiad hwn yn edrych yn ôl ar yr hyn sydd wedi cael ei gyflawni yn ystod 2024-25, mae hefyd yn darlunio'r sefyllfa ar gyfer y newid sylweddol y mae ei angen arnom ar draws y sefydliad, hyd nes 2027 a thu hwnt.

Fel pob corff cyhoeddus yng Nghymru, mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â dyletswyddau statudol penodol. Mae ein 'Hadroddiad Hunanasesu a Llesiant Blynyddol' yn cyfuno ein gofynion adrodd statudol a'n dyletswyddau statudol i gyhoeddi, o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021.

Mae'r ddwy Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ni:

- Gyhoeddi adroddiad blynyddol am ein cynnydd yn erbyn ein hamcanion Llesiant (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015); a
- Chyhoeddi Adroddiad Hunanasesu blynyddol, sy'n nodi i ba raddau yr ydym yn bodloni ein gofynion o ran perfformiad.

**Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021**

Dyma ein trydydd adroddiad o dan ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021, ac wrth galon y drefn berfformio newydd hon mae'r gofyniad i bob cyngor adolygu eu trefniadau perfformiad yn barhaus. Mae'n ofyniad i gynghorau wneud hyn trwy hunanasesu eu canfyddiadau yn gadarn ac yn barhaus, ac adrodd am hyn trwy'r adroddiad blynyddol hwn.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn gosod saith nod llesiant sy'n flaenoriaeth y mae'n ofynnol yn gyfreithiol i bob corff cyhoeddus weithio tuag atynt. Mae'n manylu ar y ffordd y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus weithio a chydweithio â'i gilydd i wella llesiant Cymru.

Wrth weithio tuag at y nodau hyn, mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos sut yr ydyn ni wedi cysylltu ein meysydd amcan llesiant sy'n flaenoriaeth allweddol â'r Ddeddf hon a'n hymrwymiad tuag ati.

# 2. Dethol ein Hamcanion

Rydyn ni wedi ymrwymo i wneud Torfaen yn fwrdeistref sy'n fwy cyfartal a chynaliadwy trwy gyflawni ein Cynllun Sirol. Trwy gefnogi ein trigolion a'r cymunedau y maent yn byw ynddynt i ddod yn fwy annibynnol, rydyn ni'n gwybod y gallwn leihau'r galw am ein gwasanaethau statudol ni, a hefyd y rhai a ddarperir gan ein partneriaid, fel y GIG. Yn syml, ni sy'n amddiffyn gwasanaethau cyhoeddus ar y rheng flaen.

Bydd gweithio yn y ffordd hon yn sicrhau ein bod yn cael y gorau o'n hadnoddau cyfyngedig; trwy ganolbwyntio ar y genhadaeth hon, byddwn yn sicrhau gwerth am arian, yn gwella bywydau pobl ac ar yr

un pryd yn lleihau costau. Dydy swyddogaethau cynllunio Gwasanaethau a chynllunio Ariannol y Cyngor ddim yn cystadlu â'i gilydd i gyflawni amcanion gwahanol. Yn hytrach maent yn elfennau o'r gwaith sy'n ategu at ei gilydd i gefnogi'r Cyngor i gyflawni ei amcanion.

Mae'r berthynas gadarnhaol gref hon yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r un problemau er mwyn sicrhau cymunedau iachach, hapusach a mwy annibynnol a fydd yn creu Torfaen gynaliadwy a ffyniannus. Mae cymunedau cydnerth yn greiddiol i allu'r Cyngor i fod yn fwy cynaliadwy, a bydd hynny'n golygu ein bod yn gallu gwario'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i ni yn fwy effeithlon, gan fod angen gwario llai o arian ar y gwasanaethau hynny gan y Cyngor sy'n costio'r mwyaf o arian.

Rydyn ni'n parhau i symud ein dyheadau ymlaen ym mhopeth a wnawn, fodd bynnag, yn ystod y 12 mis diwethaf mae nifer o ddarnau sylfaenol allweddol o waith wedi cael eu datblygu a'u cyflawni wrth i ni weithio tuag at gyflawni Cynllun Sirol a dod yn Gyngor mwy cynaliadwy a chydnerth. Mae'r rhain yn cael eu cyflwyno isod i helpu i ddarlunio'r sefyllfa, ond byddwn yn cyfeirio atynt yn rheolaidd trwy gydol yr adroddiad hwn.

## Ffordd Ffederal o Weithio

Ymrwymodd Cynghorau Torfaen a Blaenau Gwent i gytundeb i weithio mewn ffordd gydweithredol, arloesol yn ystod 2024/25, gyda'r swydd Cyd-Brif Weithredwr gyntaf yng Nghymru. Cytunwyd ar gam 'darganfod' cychwynnol ym mis Mehefin 2024, i ddechrau archwilio'r potensial ar gyfer arbedion effeithlonrwydd a chynyddu arloesi a chreadigrwydd ar draws y ddau awdurdod.

Mae'r ddau gyngor yn mynd ati mewn ffordd flaengar i fynd i'r afael â heriau presennol a gofynion ar gyfer y dyfodol. Maen nhw'n cydnabod bod llywodraeth leol ar ei ffurf bresennol yn wynebu dyfodol ansicr ac anghynaladwy, ac felly mae'r aelodau a'r swyddogion yn y ddau gyngor yn cymryd safiad rhagweithiol wrth ddod o hyd i atebion newydd sy'n mynd y tu hwnt i'r dull arferol o gyflwyno cyfres o doriadau bach. Mae hyn wedi arwain at ystyriaeth agored i alinio'r cynghorau i greu sylfaen gref, strategol ar gyfer y newid sydd ei angen.

Ym mis Ionawr 2025, cytunodd y ddau Gyngor i symud y trefniadau dros dro ar gyfer gweithio'n agosach ymlaen at sylfaen fwy parhaol.

## Uwchgynllun Marmot a'r Dull Cymunedau

Rydyn ni wedi dechrau ail-lunio ein model gweithredu mewn ffordd systematig yn dilyn ymrwymiad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddod yn rhanbarth Marmot. Mae'r 'Dull Cymunedau' hwn wedi'i gynllunio i sicrhau ein bod ni'n gwneud mwy na dim ond dweud y pethau iawn ond gwneud mwy o'r un peth, ac yn gwireddu newid go iawn yn gellir ei weld. Yn Nhorfaen rydyn wedi bod yn bendant na fyddai hyn yn digwydd ac na allai ddigwydd.

Mae ein gwaith yn 2024 wedi canolbwyntio ar 'sut'. Rydyn ni'n cydnabod na fyddem yn gallu cyflawni'r newid sydd ei angen arnom heb 'fodel gweithredu' clir, a dyma lle mae ein Dull Cymunedau yn berthnasol. Mae piler cyntaf ein Dull Cymunedau wedi gofyn sut y gallwn ni fel cyngor wneud gwahaniaeth go iawn mewn system 'lesiant' gymhleth?

Eleni, gyda chyllid o £5M gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal, rydyn ni wedi sefydlu Cydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd (CYBI): y cyntaf yng Nghymru. Bydd y cydweithrediad hwn rhwng y Cyngor, Prifysgol De Cymru, YDG Cymru, a Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yn cynnal ymchwil, ac yn casglu a chysylltu data ar lefel leol i lywio unrhyw benderfyniadau sy'n effeithio ar y system lesiant. Byddwn yn sefydlu'r CYBI mewn prosesau gwneud penderfyniadau ar draws y Cyngor, gan gynnwys ailgynllunio gwasanaethau a chynllunio cyllidebau, i sicrhau bod penderfyniadau'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn ac angen. Gall y CYBI gryfhau gallu'r Cyngor i flaenoriaethu ymyriadau gan ddefnyddio data ac ymchwil, er enghraifft, mapio ble gall buddsoddiadau yn y blynyddoedd cynnar neu mewn tai leihau'r galw maes o law, ble byddai llwybr cerdded a beicio newydd yn cael yr effaith fwyaf, sut y gallai ysgol ymgysylltu â rhieni i leihau anweithgarwch economaidd, sut y gallai cymuned gefnogi oedolion hŷn i aros yn eu cartrefi eu hunain, ayb.

## Ymyrraeth Gynnar ac Atal

Ail biler y Dull Cymunedau yw ailgynllunio ein model atal, a'r strwythurau staffio cysylltiedig. Mae ein model wedi'i gynllunio i roi’r gefnogaeth iawn i'r bobl iawn ar yr adeg iawn, yn hytrach na chymryd yn ganiataol bod 'angen' am ddarparu gwasanaeth yn gyntaf. Gall y gefnogaeth ddod o lawer o leoedd gan gynnwys (i'r rhan fwyaf o bobl y rhan fwyaf o'r amser) eu cymuned eu hunain. Nhw yw'r llinell gyntaf ar gyfer atal ac maent yn hanfodol i'n helpu i reoli ein llesiant, yn enwedig ar adegau o argyfwng personol. Mae ein model newydd yn gweithio gyda'r CYBI ac yn rhoi cymhelliant i gymunedau i ganolbwyntio ar anghenion llesiant lleol, ac yn meithrin gallu, yn darparu ymchwil a data a chymorth ariannol er mwyn gwneud hynny. Bydd ein CYBI yn gweithio gyda'n cymunedau i gynnal ymchwil weithredu a gwerthuso beth sy'n gweithio wrth atal.

Mae'r model hefyd yn symud y Cyngor i ffwrdd oddi wrth ddull atal sy'n cael ei arwain gan wasanaethau, tuag at ddull sy'n cael ei arwain gan systemau. Trwy ein model newydd, bydd unrhyw geisiadau am wasanaeth atal wedi'i dargedu yn cael eu hasesu'n gychwynnol, eu comisiynu a'u cyflwyno gan hwb atal yn hytrach na chan wasanaethau tai, diogelwch cymunedol, plant neu oedolion unigol.

## Ein Cynllun Sirol ar gyfer 2022-2027





Mabwysiadodd y Cyngor ein Cynllun Sirol ym mis Rhagfyr 2022 a bydd ar waith trwy gydol gweinyddiaeth bresennol y Cyngor – hyd nes 2027. Er bod ein dull cymunedau, Marmot, ymyrraeth gynnar ac atal a'r model ffederal wedi'u gweithredu ers hynny, dydyn nhw ddim yn newid ein Cynllun Sirol, ond yn hytrach maen nhw'n cryfhau ein gallu i'w gyflawni.

Mae'r Cynllun a'n hamcanion wedi'u datblygu o amgylch pedair thema ganolog a fydd yn llywio'r ffordd yr ydym yn llunio polisïau ac yn dylunio gwasanaethau, dros y blynyddoedd nesaf. Mae grwpio mentrau gyda'i gilydd mewn themâu wedi helpu i sicrhau nad yw penderfyniadau a gwaith cynllunio yn cael eu gwneud mewn seilos, a'u bod yn canolbwyntio'n fwy ar y 'darlun ehangach' a'r weledigaeth ar gyfer y Sir.

Dydy ein themâu ddim yn hunangynhwysol; maen nhw’n fwy trawsbynciol a byddant yn ffurfio'r sail ar gyfer cyflawni'r cynlluniau presennol a phrofi'r holl gynigion yn y dyfodol. Themâu ein gwaith yw:

### Llesiant…

Uchafu annibyniaeth, ymyrraeth gynnar ac atal, gweithio mewn partneriaeth a mynd i'r afael ag elfennau allweddol sy'n gyrru anghydraddoldeb




### Cynaliadwyedd…

Gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ar gyfer Torfaen a'r byd

### Cysylltedd…

Cymunedau croesawgar, cydnerth a grymus, uno sgiliau a busnesau i alluogi Torfaen sy'n hygyrch yn ffisegol ac yn ddigidol

### Diwylliant a Threftadaeth…

Parchu ein hanes, croesawu amrywiaeth, balchder yn ein bro, dathlu pwy ydyn ni a'r hyn rydyn ni'n sefyll drosto

Dyma ein 9 maes blaenoriaeth allweddol, y byddwn yn gweithio i'w cyflawni, ac a fydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio ein hamcanion llesiant, trwy gydol oes y cynllun:

## EIN HAMCANION LLESIANT AR GYFER 2022-27

**Amcan Llesiant 1 -** Byddwn yn codi cyrhaeddiad addysgol, gan helpu pobl ifanc ac oedolion i ennill y cymwysterau a'r sgiliau sydd eu hangen i fyw bywydau cadarnhaol

**Amcan Llesiant 2 -** Byddwn yn annog ac yn hyrwyddo plant, pobl ifanc a theuluoedd fel y gallant ffynnu

**Amcan Llesiant 3 -** Byddwn yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb drwy ganolbwyntio ar weithgareddau adnabod ac atal cynnar sy'n cefnogi pobl i fyw bywydau annibynnol, sy'n dwyn boddhad

**Amcan Llesiant 4 -** Byddwn yn gwneud Torfaen yn fwy cynaliadwy trwy gysylltu pobl a chymunedau, yn gymdeithasol, yn ddigidol ac yn ffisegol.

**Amcan Llesiant 5 -** Byddwn yn ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, yn ailgylchu mwy ac yn gwneud gwelliannau i'r amgylchedd lleol

**Amcan Llesiant 6 -** Byddwn yn gwneud Torfaen yn lle gwych i gynnal busnes drwy weithio gyda chyflogwyr lleol, gan annog busnesau newydd a gweithgareddau entrepreneuraidd.

**Amcan Llesiant 7 -** Byddwn yn hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw yn Nhorfaen er mwyn gwella lles meddyliol a chorfforol.


**Amcan Llesiant 8 - -** Byddwn yn cefnogi ein diwylliant a'n treftadaeth leol ac yn gwneud Torfaen yn lle ffyniannus, diogel a deniadol i fyw ac ymweld ag ef

**Amcan Llesiant 9 -** Byddwn yn darparu gwasanaethau effeithlon sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid a hynny i adlewyrchu'r ffordd y mae pobl yn byw eu bywydau ac yn dymuno cael mynediad at wasanaethau.

Datblygwyd y 9 amcan llesiant uchod drwy ystyried sail dystiolaeth helaeth, o ymrwymiadau presennol a sbardunau allweddol blaenorol gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Maen nhw'n disgrifio'r hyn y 'byddwn ni' yn bwriadu ei gyflawni yn ystod y blynyddoedd nesaf - nid yn unig i Dorfaen, ond wrth gyflawni'r cyfrifoldeb ar y cyd i wella llesiant yng Nghymru. Yn sail iddynt hefyd mae:

- Ymrwymiadau a sbardunau allweddol blaenorol gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Gyda'n gilydd, rydyn ni o'r farn mai ein hamcanion llesiant yw'r meysydd cywir i ganolbwyntio arnynt, er mwyn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Torfaen. A hynny drwy geisio sicrhau 'bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'.
- Strategaethau a chynlluniau allweddol sy'n rhoi mwy o fanylion am yr hyn yr ydym am ei gyflawni a sut, a adolygir yn flynyddol gan Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor.
- Cynnwys ein cymunedau ac eraill ar lefel sylfaenol. Yn enwedig wrth ddatblygu ein strategaethau a'n cynlluniau, er mwyn sicrhau mai ein blaenoriaethau a'n gweithredoedd yw'r rhai cywir ar gyfer Torfaen.
- Mesurau cynnwys eilaidd sy'n ganolog i'n gallu i gyflawni ein blaenoriaethau yn y dyfodol drwy ofyn i'r cymunedau sut y gallant ein cefnogi a gweithio gyda ni i gyflawni ein hamcanion wrth symud ymlaen.
- Asesiad Llesiant Gwent a gynhaliwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent sydd newydd ei ffurfio, gan gynnwys yr asesiadau llesiant ar gyfer Cwmbrân, Pont-y-pŵl a Blaenafon a'u cymunedau cyfagos. Dywedodd hwn wrthym am agweddau ehangach ar lesiant ar draws y sir heddiw, ond hefyd, sut mae fwyaf tebygol o ddatblygu yn y dyfodol. Mae hyn yn seiliedig ar heriau fel gwahaniaethau cymdeithasol ac economaidd, poblogaeth sy'n heneiddio, anghydraddoldebau iechyd, bylchau cyrhaeddiad mewn addysg a newid hinsawdd.

Mae hyn wedi'i symleiddio yn y darlun isod:




Mae fersiwn llawn o'n **Cynllun Sirol** ar gael i'w darllen neu ei lawrlwytho.

Ochr yn ochr â'n Cynllun Sirol mae ein **Datganiad Llesiant statudol ar gyfer 2022/27**, sy'n egluro'n fanylach sut yr ydym wedi cyflawni ein hamcanion a sut y byddant yn cyfrannu at 7 nod llesiant cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae ein Datganiad Llesiant hefyd yn sbardun allweddol i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Torfaen. Gwneir hyn drwy geisio sicrhau 'bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu, heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'.

## Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent Public Services Board

Cafodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ei chyflwyno yng Nghymru i sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn rhan annatod o'r sector cyhoeddus.

Mae'r Ddeddf yn golygu bod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i feddwl am bobl nawr ac yn y dyfodol pan fyddant yn gwneud eu penderfyniadau. I wneud hyn, mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi:


__Yr hyn__ y mae gwasanaethau cyhoeddus yn anelu ato:

Y Saith Nod Llesiant Cenedlaethol




__Sut__ ddylai gwasanaethau cyhoeddus weithio:

Pum ffordd o weithio



.Mae gan y Cyngor ddyletswydd unigol a dyletswydd ar y cyd o dan y Ddeddf.

**Ein rôlar y cyd**:

Mae hyn yn golygu gweithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus, drwy Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, i osod amcanion llesiant ar y cyd, y byddwn yn eu cyflawni gyda'n gilydd.

Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn bartneriaethau statudol sy'n dod â gwasanaethau cyhoeddus ynghyd mewn ardal i wella llesiant, nawr ac yn y tymor hir. Mae'n ofynnol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus asesu llesiant yn yr ardal y maent yn ei chwmpasu a pharatoi cynlluniau llesiant ar gylch pum mlynedd. Gellir gweld aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent **yma.**

Mabwysiadodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent ei **Gynllun Llesiant Cyntaf** ym mis Gorffennaf 2023, gan nodi sut y bydd gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio i ymateb i rai o'r heriau llesiant allweddol yng Ngwent.

Mae'r cynllun ar waith o 2023 hyd nes 2025 ac mae'n cyflwyno dau amcan llesiant cydgysylltiedig a phum cam sylfaenol i'w cyflawni dros gyfnod cyflawni o bum mlynedd.

Amcanion llesiant BGC Gwent:

1. *Rydym ni am greu Gwent tecach, mwy cyfiawn a chynhwysol i bawb.*
2. *Rydyn ni am weld Gwent sy'n barod ar gyfer yr hinsawdd, lle mae ein hamgylchedd yn cael ei werthfawrogi a'i ddiogelu, gan fod o fudd i'n llesiant nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.*

Pum cam sylfaenol:

- *Gweithredu i leihau'r argyfwng costau byw yn y tymor hwy.*
- *Darparu a galluogi cyflenwi cartrefi o ansawdd da, fforddiadwy, priodol.*
- *Cymryd camau i leihau ein hallyriadau carbon, helpu Gwent i addasu i newid hinsawdd, a diogelu ac adfer ein hamgylchedd naturiol.*
- *Galluogi a chefnogi pobl, cymdogaethau a chymunedau i fod yn wydn, wedi'u cysylltu, yn ffyniannus ac yn ddiogel.*
- *Gweithredu i fynd i'r afael ag annhegwch, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd drwy fframwaith **Egwyddorion Marmot**.*

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent wedi penderfynu ar bedwar maes ffocws sy'n flaenoriaeth, sef:

- Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn
- Pawb yn byw yn rhywle lle maen nhw'n teimlo'n ddiogel
- Pawb yn cael yr un cyfleoedd economaidd
- Pawb yn byw mewn cymuned sy'n barod ar gyfer yr hinsawdd lle mae eu hamgylchedd yn cael ei werthfawrogi a'i warchod

Er mwyn cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i fynd i'r afael â'r lefelau uchel o anghydraddoldeb ar draws Gwent, gweithiodd gyda'r Sefydliad Tegwch Iechyd, gan ddefnyddio egwyddorion arweiniol a nodwyd yn adolygiad yr Athro Marmot, ***Fair Society, Healthy Lives***, ar gyfer sicrhau mwy o degwch iechyd. Arweiniodd hyn at ystod o ddogfennau argymhellion yn **Adroddiad Adeiladu Gwent Decach.**

## Yr 8 Egwyddor Marmot:

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1. Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn | 2. Galluogi pob plentyn, person ifanc ac oedolyn i gynyddu eu galluoedd i'r eithaf a bod â rheolaeth dros eu bywydau. | 3. Creu cyflogaeth deg a gwaith da i bawb. | 4. Sicrhau safon byw iach i bawb. |
| 5. Creu a datblygu lleoedd a chymunedau iach a chynaliadwy. | 6. Cryfhau rôl ac effaith atal afiechyd. | 7. Mynd i'r afael â hiliaeth, gwahaniaethu a'r deilliannau yn sgil hynny. | 8. Ceisio cynaliadwyedd amgylcheddol a thegwch iechyd gyda'n gilydd. |

Yn 2022, daeth Gwent yn rhanbarth Marmot swyddogol a gosododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ffocws ein sefydliad yn strategol ac yn fanwl ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol a phenderfynyddion cymdeithasol iechyd; symudiad beiddgar sydd wedi denu tipyn o sylw.

Ym mis Rhagfyr 2024, aethom ati i gynnal Colocwiwm Cyngor Canada-DU (CUCC) yn Neuadd y Gweithwyr Blaenafon. Teitl y Colocwiwm eleni oedd: 'Cymdeithas Decach, Bywydau Iachach: Goresgyn Canlyniadau Iechyd Anghyfartal yn y DU a Chanada'.

Mae yna **dudalen flog** gan aelod o gorff llywodraethu CUCC, Greg Quinn OBE, sy'n myfyrio ar y digwyddiad, ac mae'n esbonio:

**"Daeth y Colocwiwm ag uwch-wyddonwyr, unigolion crefyddol, gwleidyddion, diplomyddion, eiriolwyr ieuenctid, a chyrff anllywodraethol, ymhlith llawer o rai eraill, at ei gilydd. Fel gyda phob Colocwiwm, y nod yw caniatáu i gyfranogwyr siarad yn agored ac yn onest am y mater dan sylw.**

**Mae'r ffaith fod cymaint o bobl ddylanwadol o'r fath wedi cymryd rhan (o ddwy ochr i Fôr Iwerydd) a bod cymaint o ddiddordeb wedi'i ddangos gan awdurdodau yng Nghymru, yn dangos pa mor werthfawr mae pobl yn gweld y CUCC fel llwyfan i drafod materion o ddiddordeb a phryder i'r ddwy ochr. Y cyfan i helpu i oleuo polisi ac i wneud argymhellion er budd dinasyddion yng Nghanada a'r DU".**

Yn dilyn hynny, mae Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant Llywodraeth Cymru, Sarah Murphy, wedi amlygu **ymrwymiad Cymru i fod yn Genedl Marmot gyntaf y byd**, cyhoeddiad a wnaed adeg lansio adroddiad Cymdeithas Decach, Bywydau Iachach Cyngor Canada-DU yng Nghaerdydd ar 16 Mehefin 2025.

Mae ein ffocws yn dal i fod ar benderfynyddion ehangach iechyd yma yn Nhorfaen, er mwyn cynllunio'r gwaith rydyn ni'n ei wneud ar draws ein sefydliad ymhell i'r dyfodol, a dylanwadu arno.

Yn 2024/25, dyfarnwyd cyllid i ni trwy'r Gronfa Cydweithrediad Ymchwil i Benderfynyddion Iechyd i wella ein gallu i ymchwilio a'n gallu i gefnogi diwylliant o wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth. Ers hynny, rydym wedi penodi tîm sydd nawr yn eu swyddi, ac yn archwilio pynciau allweddol a amlygwyd gan ein Cynghorau Tref/Cymuned a'n trigolion.

Mae Egwyddorion Marmot yn dal i fod yn sail i waith datblygu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent ac mae'r Bwrdd yn rhannu ymrwymiad Torfaen i wella'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer ein gwaith. Un datblygiad allweddol eleni, dan arweiniad ein cydweithwyr yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, yw datblygu **Cyd-asesiad Strategol Gwent a Fframwaith Dangosyddion Gwent sy'n cyd-fynd â'r Asesiad**, sy'n rhoi trosolwg cynhwysfawr o iechyd a llesiant pobl Gwent, mewn ffordd hygyrch, i bawb ei weld.

Mae'r offerynnau yn darparu ffynhonnell wybodaeth a rennir ar gyfer partneriaid ar draws Gwent i oleuo'r gwaith cynllunio ar gyfer darparu gwasanaethau'n lleol. Gyda'i gilydd, maent yn darparu fframwaith ar gyfer adeiladu Gwent Iachach, Decach, Saffach a Chryfach, gan gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau, trwy ddarparu sylfaen dystiolaeth gref er mwyn adeiladu newidiadau cadarnhaol arni. Byddwn yn parhau i adeiladu ar y data y mae'n eu cynnwys hyd nes y gall fod yn un pwynt o wirionedd ar gyfer asesiadau

statudol amrywiol gan gynnwys Asesiadau Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, a Datganiad Ardal De-ddwyrain Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru.

## a. Ein Huwchgynllun Hirdymor….

Mae'r ymrwymiad penodol yng nghynllun rhanbarthol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent i ddod yn rhanbarth Marmot, yn cynrychioli cam nesaf ein Cynllunio Sirol. Mae'n bwysig nad ydym yn ystyried yr uchelgais hon fel ymdrech ranbarthol yn unig, ond yn hytrach fel rhywbeth y mae'n rhaid i ni ei fyw a'i anadlu fel Cyngor, yn y ffordd yr ydyn ni'n darparu gwasanaethau ar gyfer ein cymunedau lleol.

Yn yr un modd â rhanbarthau eraill yng Ngwent, mae'n ffaith anffodus fod cymunedau yn Nhorfaen yn wynebu rhai o'r gwahaniaethau iechyd gwaethaf yng Nghymru. Er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhwng y cenedlaethau ar draws y sir, rhaid i ni edrych ar y sefyllfa yn fwy hirdymor. Mae bod yn gyngor Marmot yn cynnig cyfle i ni ffocysu, ac i ddefnyddio adnoddau a dylanwad eang ein Cyngor i fynd i'r afael â ffynonellau anghydraddoldeb.

Felly, fe ddechreuon ni ddatblygu ein Huwchgynllun ein hunain. Fodd bynnag, dydy hyn ddim yn cynrychioli datblygiad Cynllun Sirol newydd neu Gynllun Sirol i gymryd lle'r Cynllun Sirol sydd yn ei le, ond yn hytrach mae'n adeiladu ar ein Cynllun Sirol presennol ac yn gweithio law yn llaw gydag ef. Mae'n cydnabod bod angen cynllunio dros gyfnod hirach o amser, gan wybod y bydd y gwaith hwn yn mynd â ni ymhell y tu hwnt i'r Cynllun Sirol presennol ar gyfer 2027. Mae ein Cynllun Sirol yn dal i fod ar waith ac yn berthnasol, ac mae'n cynrychioli 5 mlynedd gyntaf ein taith tuag at ein dyhead tymor hwy i leihau anghydraddoldeb yn Nhorfaen. Ar ben hynny, mae ein cynllun 15-mlynedd ni ein hunain hefyd yn arwydd ein bod o ddifrif am ein rôl a'n hymrwymiad i fabwysiadu'r egwyddorion o fod yn gyngor Marmot, dros genedlaethau'r dyfodol.

Rhaid i ni felly beidio ag anghofio bod ein Cynllun Sirol a phob cynllun cyflawni ar gyfer blynyddoedd unigol sy'n cefnogi'r Cynllun Sirol, yn gyfraniad at ymdrech lawer mwy hirdymor. Felly, wrth ystyried llinellau gweithgarwch yn ein cynllun cyflawni, er enghraifft datblygu ysgol newydd, lleoliad gofal plant neu gyfleuster hamdden, codi cyfranogiad a chyflawniad mewn cyrsiau addysg oedolion, cynyddu'r nifer sy'n cael budd-daliadau a grantiau, cynyddu'r defnydd o dechnoleg gynorthwyol, gosod gosodiadau ffotofoltäig newydd neu godi'r gyfradd ailgylchu - mae'n bwysig peidio â cholli golwg ar y ffaith nad yw'r cerrig milltir hyn yn rhan o gynllun blwyddyn unigol yn unig ond eu bod yn gerrig camu hanfodol sy'n ein tywys tuag at uchelgais tymor hwy. Ar ben hynny, mae'r dyheadau hyn yn mynd ymhell y tu hwnt i ddiwedd ein Cynllun Sirol presennol yn 2027 ac maent yn rhan o daith dymor hirach, wrth i ni anelu at ddiwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

Mewn cydweithrediad â'r CYBI, rydyn ni hefyd yn cefnogi datblygiad dangosyddion canlyniadau, sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau lleol, er enghraifft disgwyliad oes iach, ansicrwydd am dai, a chyfalaf cymdeithasol. Bydd y dangosyddion hyn yn cael eu cynnwys mewn dangosfwrdd perfformiad, yr ydym yn ei ddatblygu ar y cyd ag Iechyd y Cyhoedd yn ystod 2025/26. Bydd y dangosfwrdd hwn yn cyfrannu at Asesiad Strategol ar y Cyd.

## Datblygiadau yn y Dyfodol….

Bydd y mesurau a restrir yn ein Huwchgynllun yn dal i gael eu mireinio a'u gwella dros amser, fel y bydd setiau data ar gael neu'n cael eu datblygu'n fewnol. Wrth wneud hynny, byddwn yn sicrhau bod y cynllun yn cael ei gefnogi ar bob adeg gyda'r data gorau posibl i ddangos tystiolaeth o effeithiau ein gweithredoedd, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â'r argymhellion yn adroddiad 'Adeiladu Gwent Decach'.

Mae'n bwysig cofio mai rhan fach o'r gwaith y mae'n rhaid i ni ei wneud fel Cyngor i ddod yn Gyngor Marmot, yw mabwysiadu egwyddorion Marmot a datblygu'r canlyniadau a'r mesurau. Er mwyn i Dorfaen a'n partneriaid gael effaith ystyrlon ar benderfynyddion ehangach iechyd, rhaid i'r dull gweithredu dreiddio i bob rhan o'r sefydliad a mynd ymhell y tu hwnt i adrodd yn erbyn rhestr o fesurau canlyniadau. Cyn hir byddwn yn cynnal rhaglen hyfforddiant '*First into Research'* ar gyfer staff, aelodau etholedig a'r gymuned ehangach, a fydd yn annog y defnydd o ymchwil a thystiolaeth, wrth wneud penderfyniadau.

Trwy ein prosesau cynllunio, rydyn ni felly'n cwestiynu sut rydyn ni'n gwneud pethau, gan addasu yn ôl yr angen i sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o'r effaith ar ffynonellau anghydraddoldeb ac annhegwch yn

Nhorfaen. Rydyn ni'n cymryd ein rôl a'n hymrwymiad i fabwysiadu egwyddorion bod yn Gyngor Marmot o ddifrif, ond rhaid i'n gweithredoedd gyfateb i hyn. Felly, byddwn yn adolygu'r hyn rydyn ni'n ei wneud, a sut rydyn ni'n mesur ei effaith, yn gyson yn y blynyddoedd i ddod, wrth i ni ddatblygu mecanweithiau cyflawni cryfach i gyrraedd ein canlyniadau.

Heb i ni wneud hynny, fyddwn ni fyth yn gallu rhoi sylw i benderfynyddion cymdeithasol iechyd, a fydd yn golygu'n anochel, i drigolion Torfaen, eu bod yn llawer llai tebygol o gyrraedd eu llawn botensial ac yn llawer mwy tebygol yn y dyfodol o gael cymorth neu ymyriadau gan y Cyngor a gwasanaethau cyhoeddus ehangach.

## 3. Cenhadaeth, Gweledigaeth a Gwerthoedd

Mae ethos y Tîm Uwch-reolwyr sydd newydd ei ailstrwythuro yn rhoi pwyslais cryf ar gyd-gyfrifoldeb a chefnogi'n gilydd i gyflawni nodau a rennir, wrth i ni weithio tuag at ein hamcanion llesiant.

Gweledigaeth y Cyngor yw: "***gwella cynaliadwyedd, cysylltedd a llesiant ein sir drwy atgyfnerthu ein cymunedau, drwy greu economi leol ffyniannus a thrwy ddiogelu a gwella ein hamgylchedd"***

Gwerthoedd ein Cyngor yw bod yn ***Gefnogol, Teg, Effeithiol ac Arloesol.***

Mae ein gwerthoedd yn chwarae rhan hanfodol yn niwylliant ein sefydliad. O ran gwerthoedd, rydyn ni'n golygu'r credoau craidd a'r egwyddorion arweiniol, yr ydyn ni'n eu dilyn i gyflawni ein busnes a'r perthnasoedd sydd gennym ag eraill.

Bydd ein gwerthoedd yn cael eu cyfleu yn yr ymddygiad yr ydyn ni'n ei ddangos a hynny'n unig. Mae hyn yn cynnwys sut rydyn ni'n gwneud pethau; sut rydyn ni'n trin eraill; beth rydyn ni'n ei ddweud a sut rydyn i'n ei ddweud.

Bydd y newidiadau rydyn ni'n eu gwneud i'r sefydliad yn golygu bod ein gweledigaeth, ein gwerthoedd a chynaliadwyedd wrth wraidd popeth a wnawn, o ran yr hyn yr ydyn ni'n ei gyflawni a'r ffordd y byddwn yn gweithio tuag at ein hamcanion.

Ochr yn ochr â datblygu ein Cynllun Sirol, byddwn hefyd yn parhau i asesu ein hunain yn erbyn set o amcanion â ffocws mewnol - ein 8 nodwedd sy'n diffinio Cyngor rhagorol. Credwn fod y nodweddion hyn yn diffinio'r amodau a fydd yn ein galluogi i ffynnu fel Cyngor, ein galluogi i fod yn fwy effeithlon ac effeithiol a rhoi'r cyfle gorau i ni gyflawni amcanion ein Cynllun Sirol.

## 4. Ein Hunanasesiad ar gyfer 2024-25

Rydyn ni'n parhau i ddatblygu diwylliant lle mae pob rhan o'r sefydliad yn anelu at wella ym mhopeth a wnawn – waeth pa mor dda y maen nhw eisoes yn perfformio. Mae hunanasesu gonest ac agored yn hanfodol os ydyn ni am wireddu ein huchelgais.

Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ni gael prosesau ar waith i hunanasesu'n barhaus a ydyn ni'n;

- Cyflawni ein swyddogaethau'n effeithiol
- Defnyddio ein hadnoddau yn effeithlon ac yn effeithiol, a
- Sicrhau bod trefniadau llywodraethu ar waith, er mwyn sicrhau'r uchod.

Mae ein hadroddiad hunanasesu yn gydgrynhoad o'r holl waith hunanasesu yr ydym wedi'i wneud yn y flwyddyn flaenorol. Mae ein hadroddiad wedi bod trwy broses drwyadl i sicrhau ei fod yn cael ei lywio gan amrywiaeth eang o dystiolaeth ac mai'r casgliadau yn y pen draw yw'r rhai cywir. Cafodd y casgliadau allweddol a nodir yn ein hadroddiad hunanasesu eu hadolygu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, yn rhan o'r broses statudol ym mis Medi 2025.

Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn nodi'r cynnydd yr ydym wedi'i wneud yn erbyn 2 fframwaith ein sefydliad, ein 'Cynllun Sirol' a 'Torfaen, Cyngor Rhagorol', yr ydyn ni'n parhau i'w defnyddio fel ffordd o asesu ein cynnydd a pha mor dda yr ydyn ni'n perfformio.

## a. Ein Cynllun Sirol - Adrodd yn erbyn ein Hamcanion Llesiant ar gyfer 2024-25

Mae ein Cynllun Sirol ar gyfer 2022/27 yn ymrwymo'r Cyngor i naw uchelgais lefel-uchel yr ydyn ni am eu cyflwyno neu eu cyflawni yn ystod oes y Cynllun Sirol. Mae'r uchelgeisiau hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac wrth i gynlluniau a phrosiectau gael eu datblygu, ac maen nhw'n rhan o gynllun cyflawni blynyddol bob blwyddyn - gan roi ein huchelgais ar waith. Mae'r dull hwn yn arbennig o bwysig fel y gall y cynllun fod yn iteraidd ac yn ystwyth ac fel y gellir ymateb i fentrau, heriau a chyfleoedd newydd, trwy gydol oes y cynllun (er enghraifft gwaith Marmot rhanbarthol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n dod i'r amlwg). Mae copi o **Gynllun Cyflawni'r Cynllun Sirol ar gyfer 2024/25** ar gael i'w ddarllen neu ei lawrlwytho.

Bydd y "fasged" o weithgareddau a mesurau perfformiad, a nodir o fewn cynllun cyflawni pob blwyddyn, yn dechrau taith y Cyngor tuag at bob un o'n huchelgeisiau hyd nes 2027 – mewn ffordd sy'n gysylltiedig â'n hamcanion llesiant ac sydd wedi ffurfio sylfaen ein gwaith monitro ac adrodd chwarterol yn ystod 2024/25 a thu hwnt.

Mae ein trydydd Cynllun Cyflawni yn tynnu sylw at y gweithgareddau allweddol yr oeddem wedi eu cynllunio ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25, i gyflawni ein huchelgeisiau, fel y nodir yn ein Cynllun Sirol. Mae ein cynllun cyflawni yn canolbwyntio ar ymrwymiadau y tu hwnt i'r gwasanaethau bob-dydd, i ddangos sut y byddwn yn bwrw ymlaen â'n blaenoriaethau wrth gyflawni ein gweledigaeth. "Byddwn yn parchu ein gorffennol ac yn siapio ein dyfodol, ac yn gwella cynaliadwyedd, cysylltedd a llesiant ein sir, drwy gryfhau ein cymunedau, drwy greu economi leol ffyniannus a thrwy warchod a gwella ein hamgylchedd."

Cyflwynir trosolwg o'r cynnydd yn erbyn pob amcan isod:

| Cynllun Cyflawni'r Cynllun Sirol 2024-25 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **GLAS** *(cyflawnwyd y cam gweithredu)* | **GWYRDD** *(ar darged)* | **OREN** *(heb daro'r targed ond llwybr clir yn ôl i 'Wyrdd')* | **COCH** *(heb daro'r targed – pryderon sylweddol)* | **LLWYD** *(nid yw ar fin dechrau eto)* | **DU** *(cafodd y gweithredu ei ddileu)* |
| 1. Byddwn ynn codi cyrhaeddiad addysgol, gan helpu pobl ifanc ac oedolion i ennill y cymwysterau a'r sgiliau sydd eu hangen i fyw bywydau cadarnhaol | 8 | 9 | 3 | - | - | - |
| 2. Byddwn yn annog ac yn hyrwyddo plant, pobl ifanc a theuluoedd fel y gallant ffynnu | - | 8 | 2 | 2 | - | - |
| 3. Byddwn yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb drwy ganolbwyntio ar weithgareddau adnabod ac atal cynnar sy'n cefnogi pobl i fyw bywydau annibynnol, sy'n dwyn boddhad | 10 | 18 | 4 | 1 | - | 1 |
| 4. Byddwn yn gwneud Torfaen yn fwy cynaliadwy trwy gysylltu pobl a chymunedau, yn gymdeithasol, yn ddigidol ac yn ffisegol | 5 | 1 | - | 1 | - | 1 |
| 5. Byddwn yn ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, yn ailgylchu mwy ac yn gwneud gwelliannau i'r amgylchedd lleol | 11 | 6 | 4 | - | - | - |
| 6. Byddwn yn gwneud Torfaen yn lle gwych i gynnal busnes drwy weithio gyda chyflogwyr lleol, gan annog busnesau newydd a gweithgareddau entrepreneuraidd | 5 | 3 | 6 | - | - | - |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 7. Byddwn yn hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw yn Nhorfaen er mwyn gwella llesiant meddyliol a chorfforol | 7 | 2 | 1 | - | - | - |
| 8. Byddwn yn cefnogi ein diwylliant a'n treftadaeth leol ac yn gwneud Torfaen yn lle ffyniannus, diogel a deniadol i fyw ac ymweld ag ef | - | 6 | 6 | - | - | - |
| 9. Byddwn yn darparu gwasanaethau effeithlon sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid sy'n adlewyrchu'r ffordd y mae pobl yn byw eu bywydau ac yn dymuno cael mynediad at wasanaethau | 2 | 5 | 9 | 1 | - | - |
| **DIWEDDARIAD AR GYNNYDD YN GYFFREDINOL** | 48 | 58 | 35 | 5 | - | 2 |
| | 32.43% | 39.20% | 23.64% | 3.38% | - | 1.35% |

Ar y cyfan, rydym wedi gwneud cynnydd da yn erbyn ein Hamcanion Llesiant. Adroddwyd bod y mwyafrif helaeth naill ai ar darged neu wedi eu cwblhau (72%). Ond, fe wnaeth, 27% o'r camau wynebu anawsterau, er, rydym yn hyderus bod yna gynllun clir i'w cael nhw yn ôl ar y trywydd cywir. Ystyriwyd bod pryderon mwy sylweddol ynghylch 1%.

Mae'r dadansoddiad uchod yn dangos bod bron i dri chwarter yr holl brosiectau wedi'u cyflawni a bod chwarter arall wedi'i ohirio, ond gydag ymrwymiad llwyr i'w cyflawni. Felly, o ystyried bod yna 148 o brosiectau, mai'r ffaith mai 2 gafodd eu dileu a 5 sy'n achosi pryder, yn dangos maint a chyflymder y cyflawni. Gellir priodoli'r rhan fwyaf o hyn i holl waith caled y swyddogion, ac effaith y prosesau newydd o ran rheoli perfformiad a phrosiectau yr ydym wedi'u hymgorffori ar draws y Cyngor. Mae llawer o'r heriau sy'n gysylltiedig â'r prosiectau hyn yn ymwneud â'u cymhlethdod, gydag anawsterau pellach yn gysylltiedig â'r galw, cyllid, a diffyg tai fforddiadwy.

Derbyniodd y Cyngor adroddiad llawn yn nodi'n fanylach y cynnydd a wnaed yn ôl pob un o'n Hamcanion Llesiant ym mis Gorffennaf 2025 ac mae ar gael yma.

Mae'r adran ganlynol o'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at ein cynnydd dros y flwyddyn ddiwethaf, yn ôl detholiad o weithgareddau allweddol, o dan bob un o'n 9 Amcan Llesiant yn y Cynllun Sirol:

## AMCAN LLESIANT 1:

***Codi cyrhaeddiad addysgol, gan helpu pobl ifanc ac oedolion i ennill y cymwysterau a'r sgiliau sydd eu hangen i fyw bywydau cadarnhaol***

### Buddsoddi yn ein hysgolion….

Mae adeiladau ysgol modern, diogel sy'n ysbrydoli, yn cyfrannu at bresenoldeb, ymddygiad a llesiant gwell — ac mae pob un o'r rhain yn gysylltiedig â chyrhaeddiad academaidd uwch.

Trwy gydol 2024/25, yn rhan o'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif gynt), rydyn ni wedi ymrwymo tua £15 miliwn ar gyfer ysgolion newydd, estyniadau i ysgolion ac adnewyddu ysgolion.

Mae ein prosiectau mawr ar gyfer 2024/25 fel a ganlyn:

* Adeiladu ysgol allyriadau carbon sero net newydd Ysgol Gynradd Maendy.
* Adeiladu estyniad carbon sero net newydd â 50 lle ychwanegol yn Ysgol Crownbridge
* Dylunio ac adeiladu maes 3G yn Ysgol Gymraeg Gwynllyw

## Ysgol Gynradd Maendy




Dechreuodd y gwaith ar adeiladu ein hysgol gynradd newydd â 420 o leoedd gwerth £17.1 miliwn, ym Maendy, ym mis Mai 2024.

Hon fydd ein hysgol ddi-garbon sero net gyntaf a bydd capasiti'r ysgol yn codi o 231 i 420 gyda meithrinfa â 30 lle, i gynnig y capasiti ar gyfer y twf a ragwelir yn nifer y disgyblion.

Bydd y datblygiad yn cynnwys cyfleusterau ar gyfer y gymuned ehangach a chanolfan asesu anghenion ychwanegol, yn ogystal â chyfleusterau Gofal Plant a Dechrau'n Deg newydd.

Disgwylir i'r gwaith o adeiladu'r ysgol gael ei gwblhau erbyn mis Gorffennaf 2025, gyda'r cyfleusterau cymunedol yn agor ym mis Chwefror 2026. Bydd disgyblion yn parhau i ddysgu yn yr adeiladau sydd yn yr ysgol ar hyn o bryd, nes bod yr ysgol newydd wedi'i chwblhau. Bydd hen adeiladau'r ysgol wedyn yn cael eu dymchwel, a bydd tir yr ysgol yn cael ei dirlunio gan ddarparu dau le chwarae newydd, ardal ysgol y goedwig, cyfarpar chwarae a chae chwaraeon o laswellt.

(Mae'r cyfleusterau newydd, a adeiladwyd ar safle presennol yr ysgol wedi cael eu hariannu gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru a disgwylir i'r gwaith fod wedi'i gwblhau erbyn mis Gorffennaf 2025).

## Ysgol Crownbridge.

Ym mis Mawrth 2025, agorwyd ein hestyniad gwerth £12.35 miliwn, â 50 lle, i Ysgol Crownbridge, yn swyddogol.
Adeiladwyd yr estyniad ar safle'r ysgol yng Nghroesyceiliog a bydd yn helpu i gwrdd â'r cynnydd yn y galw am addysg arbennig, yn Nhorfaen.



Mae'r estyniad i'r ysgol, a elwir yn 'Mynydd', yn cynnwys chwe ystafell ddosbarth newydd, cegin i ddisgyblion, ystafell cyrsiau, swyddfeydd, neuadd ac ystafell adlam - sy'n drampolîn maint llawn ar lefel y llawr er mwyn i ddisgyblion gael therapïau. Mae yna ardal gêmau aml-ddefnydd newydd hefyd gydag ardaloedd chwarae a dysgu awyr agored.

Yn ganlyniad, mae'r ysgol wedi gallu derbyn disgyblion newydd a darparu cyfleusterau gwell, er mwyn addysgu a meithrin plant sydd ag anawsterau dysgu difrifol a dwys.

Yr estyniad i Crownbridge yw'r cynllun cyntaf i'w gwblhau yn ein buddsoddiad band B, a fydd yn gwella ein hamgylcheddau dysgu ymhellach ac yn eu hehangu ar gyfer ein pobl ifanc. Mae'r estyniad yn ein galluogi i ymateb i'r twf sydyn yn y galw am leoedd arbennig mewn ysgolion a bydd yr estyniad yn galluogi 50 arall o blant i gael eu haddysgu yn y cyfleusterau yn Crownbridge.

(Ariennir 75% o'r estyniad gan raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru).

### Ysgol Gymraeg Gwynllyw - Maes 3G



Yn 2024/25, aethom ati i gyflwyno cais i sicrhau cyllid i adeiladu maes 3G yn Ysgol Gymraeg Gwynllyw, trwy gynllun 'Cymraeg 2050' Llywodraeth Cymru. Nod y cynllun hwn yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i un miliwn erbyn 2050. Gwelai'r awdurdod lleol, yr ysgol a Llywodraeth Cymru y fenter hon fel cyfle i wella addysg chwaraeon, a hyrwyddo'r Gymraeg ar yr un pryd.

Cwblhawyd y gwaith ym mis Tachwedd 2024 ac adeiladwyd y maes 3G glaswellt artiffisial o safon FIFA a World Rugby yn Ysgol Gymraeg Gwynllyw.

Mae'r prosiect hwn sydd werth £1.4 miliwn yn cynnwys maes 3G a hefyd system ddraenio a gymeradwywyd gan SAB, ffordd fynediad, llwybrau, goleuadau i gerddwyr, strwythurau cynnal, gardd law a gwaith tirlunio. (Mae hwn yn faes hybrid a fydd yn gallu cael ei ddefnyddio fel maes pêl-droed artiffisial a maes rygbi artiffisial).

Yn ogystal â chyflwyno buddion sylweddol i fyfyrwyr yr ysgol, mae'r maes glaswellt artiffisial ar gael i'w logi gan glybiau chwaraeon lleol, ac yn cynnig lleoliad o ansawdd uchel ar gyfer hyfforddi a gêmau i'r gymuned ehangach. Mae hefyd yn cynnig maes addas ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau yn ystod y diwrnod ysgol, ac mae'n cyflwyno mentrau i dyfu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned leol, y tu allan i oriau ysgol.

## Gwella canlyniadau i'n plant a'n pobl ifanc….

Mae gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc yn hanfodol bwysig oherwydd ei fod yn dylanwadu ar eu dyfodol fel unigolion, ond hefyd llesiant a ffyniant cymdeithas yn ei chyfanrwydd.

### Arolygiad Estyn Cyfarwyddiaeth Plant a Theuluoedd

Yn ystod mis Mehefin 2024, ailymwelodd arolygwyr Estyn â'n Cyfarwyddiaeth Plant a Theuluoedd i gynnal ymweliad monitro, i ddilyn ymlaen ar eu harolygiad craidd, a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2022.


O'r pedwar argymhelliad a wnaed gan Estyn roedd yr ymweliad monitro ym mis Mehefin yn canolbwyntio ar argymhellion dau a thri, sef:

- Cryfhau'r broses o reoli perfformiad.
- Cryfhau prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant a'r cysylltiad rhyngddynt.

Ers eu hymweliad diwethaf, cydnabu Estyn fod gwelliannau wedi'u gwneud i'n prosesau arwain, rheoli perfformiad a gwerthuso, o fewn ein Gwasanaeth Addysg.

Yn gynnar yn yr Hydref 2024, ymwelodd arolygwyr â'r gwasanaeth eto, i asesu ein perfformiad yn erbyn y ddau argymhelliad arall a wnaethant yn flaenorol:

- Gwella canlyniadau i ddysgwyr, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd.
- Gwella arweinyddiaeth strategol dysgu ac ADY.


Estyn

Report following monitoring visit of local authority causing significant concern

Torfaen County Borough Council

Civic Centre
Pontypool
Torfaen
NP4 6YB

Date of visit: October 2024

by

Estyn, His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

This report is also available in Welsh.

Ym mis Tachwedd 2024 cyhoeddodd Estyn ei ganfyddiadau o'r ymweliadau monitro yr oedd wedi'u cynnal yn ystod y flwyddyn. Cadarnhawyd ein bod wedi gwneud digon o gynnydd ac yn gallu dod oddi ar ei restr o Awdurdodau Lleol sy'n achosi 'pryder sylweddol'. Cliciwch ar y ddolen i weld **adroddiad llawn Estyn.**

Yn benodol, roedd arolygwyr Estyn yn cydnabod:

- Canlyniadau gwell i ddysgwyr, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd
- Rheoli perfformiad cryfach
- Hunanwerthuso cryfach a gwelliannau i brosesau cynllunio
- Arweinyddiaeth strategol well ar gyfer dysgu ac Anghenion Dysgu Ychwanegol

Tynnodd arolygwyr sylw hefyd at ffocws cryf ar wella presenoldeb disgyblion; gwaith effeithiol i adnabod a chefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET); a gwelliannau yn y ffordd y mae pobl ifanc wedi helpu i oleuo cyfeiriad strategol y Cyngor.

Mae'r symud allan o'r categori yn dyst i'r gwaith caled a'r dycnwch, o fewn y Gyfarwyddiaeth Plant a Theuluoedd a hefyd ar draws y Cyngor, ac mae'r canlyniad yn dangos gwir effaith gweithio ar draws cyfarwyddiaethau a pherchnogaeth gorfforaethol i ddatrys problemau.

Ym mis Chwefror 2025, cyhoeddodd Estyn astudiaeth achos hefyd ar 'ymarfer effeithiol' o'r enw 'Arweinwyr yn sicrhau gwelliant mewn awdurdod lleol'. Mae'r astudiaeth achos hon yn manylu ar y ffordd yr aeth ein Hawdurdod Lleol ati i wneud cynnydd ar argymhellion yr arolygiad llawn diwethaf gan Estyn, gan gynnwys sut "Mae'r awdurdod lleol wedi gweithio'n rhagweithiol gyda'r holl randdeiliaid ac wedi sicrhau gwelliannau nodedig mewn sawl agwedd ar eu gwaith". Gellir gweld yr astudiaeth achos trwy glicio ar y ddolen ganlynol: **Estyn.llyw.cymru**

### Barn Estyn a Chategorïau Ysgolion

Mae Ysgol Uwchradd Cwmbrân wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas ag argymhellion Estyn ac felly mae wedi cael ei thynnu o gategori "mesurau arbennig" Estyn, ym mis Mawrth 2025. Er mis Mawrth 2025, does gennym ni ddim unrhyw ysgolion prif ffrwd mewn categori statudol Estyn. Er ein bod yn cydnabod hyn fel cynnydd cadarn, bydd y cynnydd a'r gefnogaeth yn parhau i gael eu monitro'n agos, trwy gyfarfodydd Grŵp Ehangach a chyfarfodydd Tîm o Amgylch yr Ysgol.

Ym mis Rhagfyr 2024, barnodd Estyn fod angen gwelliant sylweddol ar ein Huned Cyfeirio Disgyblion. Canfuwyd bod ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn rhy amrywiol ac, o ganlyniad, nad oedd disgyblion yn gwneud y cynnydd sydd o fewn eu gallu bob tro. Byddwn nawr yn parhau i gefnogi arweinwyr yr Uned Cyfeirio Disgyblion i adeiladu ar elfennau cadarnhaol cryfderau'r arweinwyr, yr amgylchedd dysgu sy'n meithrin disgyblion a chydberthnasau gweithio cryf rhwng staff ac disgyblion, i gyflawni nodau Cynllun Gweithredu Ôl-arolygiad yr Uned Cyfeirio Disgyblion.

Er nad yw'n gategori statudol, mae'r gefnogaeth ychwanegol yn parhau ar gyfer Ysgol Bryn Onnen, gan ei bod yn dal i fod yn destun adolygiad gan Estyn. Fodd bynnag, mae cynnydd addas yn cael ei wneud, yn erbyn argymhellion Estyn.

Bydd yr amcanion llesiant yn ein Cynllun Sirol, a'n dull tymor hwy fel 'Cyngor Marmot' yn parhau i sicrhau bod ffocws ein hymdrechion ar wella'n barhaus ac ymdrechu i ddarparu'r gwasanaethau gorau a'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc.

## Codi cyrhaeddiad o fewn ein hysgolion….

Mae canlyniadau arholiadau ar gyfer y flwyddyn academaidd 24/25 yn dangos bod ein hysgolion yn gyffredinol wedi perfformio'n uwch na'r disgwyliadau a fodelwyd gennym. Rydyn ni'n cydnabod, fodd bynnag, fod canlyniadau mewn lleiafrif o ysgolion yn dal i fod yn rhy isel, yn enwedig mewn mathemateg a rhifedd.

## Codi presenoldeb ein disgyblion gydag ysgolion....

Mae codi cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion yn hanfodol oherwydd mae presenoldeb rheolaidd yn un o'r rhagfynegwyr cryfaf ar gyfer llwyddiant addysgol. Mae gan fyfyrwyr sy'n mynychu'r ysgol yn gyson fwy o amser i ymgysylltu â'r cwricwlwm, cymryd rhan mewn gwersi, a chwblhau aseiniadau. Mae hyn yn arwain at ddealltwriaeth well, datblygu sgiliau, ac, yn y pen draw, cyrhaeddiad uwch.

Mae'r cyfraddau presenoldeb cyffredinol yn Nhorfaen yn parhau i wella, er nad ydynt eto wedi gwella i'r cyfraddau cyn y pandemig. Mae hyn i'w weld ym mhob ardal Awdurdod Lleol yng Nghymru.

Ddiwedd mis Chwefror 2025, cyfradd bresenoldeb gyffredinol Torfaen oedd 91.4%. Roedd hyn yn gosod ein hawdurdod lleol yn y 6ed safle allan o 22 awdurdod lleol Cymru.

**Dadansoddiad o Bresenoldeb Misol (canran)**

| | Medi-Mawrth 2019 | Medi-Mawrth 2025 | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| **Cynradd** | 93.8 | 93.1 | -0.7 |
| **Uwchradd** | 92 | 89.1 | -2.9 |

Mae cyfraddau presenoldeb ysgolion cynradd yn uwch na chyfraddau presenoldeb ysgolion uwchradd. Os bydd y gyfradd bresenoldeb benodol hon yn cael ei chynnal yn y dyfodol, byddem yn disgwyl gweld gwelliannau pellach o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Mae ein hymgyrch #DdimMewnColliMas wedi helpu'n sylweddol i gynyddu presenoldeb, yn enwedig wrth leihau ceisiadau am absenoldeb awdurdodedig neu anawdurdodedig, am resymau heblaw am salwch neu apwyntiadau meddygol.

O'u cymharu â'r llynedd, mae ein cyfraddau gwahardd o fewn ysgolion hefyd wedi gwella ond rydyn ni'n ymwybodol bod ein ffigyrau yn dal i fod yn rhy uchel.

- Gwaharddiadau cyfnod penodol (≤5 diwrnod): gostyngiad o 261 achos
- Diwrnodau a gollwyd oherwydd gwaharddiadau: gostyngiad o 931 diwrnod
- Gwaharddiadau parhaol: gostyngiad o 10 i 8

Mae ymchwil wedi dangos cysylltiad uniongyrchol rhwng presenoldeb da a chyrhaeddiad academaidd, ac felly mae cefnogi ein plant i fynychu'r ysgol yn rheolaidd, yn ganolog i'n hamcan craidd o wella cyrhaeddiad addysgol.




## Lleihau niferoedd ein pobl ifanc blwyddyn 11 sydd wedi'u categoreiddio fel rhai dydd 'ddim mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant' (NEET)….

Mae lleihau nifer y bobl ifanc sydd ddim mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) yn hanfodol ar


gyfer gwella eu cyfleoedd bywyd hirdymor, eu hiechyd meddwl a'u rhagolygon economaidd. Mae bod yn NEET yn cynyddu'r risg o dlodi, allgáu cymdeithasol, a llesiant gwael, a hefyd yn cyfyngu ar fynediad at sgiliau a chymwysterau sy'n angenrheidiol i lwyddo yn y dyfodol. Mae mynd i'r afael â'r mater hwn yn helpu i hyrwyddo cydraddoldeb, lleihau ymddygiad sy'n dangos risg, a chryfhau'r economi trwy sicrhau bod mwy o bobl ifanc yn ymgysylltu, yn cael eu cefnogi ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas.


Trwy gydol 2024/25, rydym wedi parhau â'n hymrwymiad i ddarparu ymyrraeth gynnar effeithiol ar gyfer ein pobl ifanc sydd mewn perygl o anweithgarwch, neu sydd ddim mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET).

Mae cyfleoedd profiad gwaith wedi cael eu cefnogi mewn ffyrdd gwahanol gan ein Tîm Ysbrydoli, sydd wedi sefydlu prosiectau/cyfleoedd fel gweini bwyd yn ein caffi newydd yn y Ganolfan Ddinesig ac ymgymryd â phrosiectau cynnal a chadw beiciau.

Yn ogystal, mae ein prosiect Ysbrydoli hefyd wedi darparu dewis o gymwysterau a chyrsiau, fel y'u diffinnir gan y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau, sy'n targedu pobl ifanc oedran ysgol uwchradd, sydd yn y categori risg.

O gymharu â blynyddoedd blaenorol, mae ein ffigurau NEET ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael blwyddyn 11 wedi gostwng ychydig ac mae bellach yn is na chyfartaledd Cymru. Er ein bod yn cydnabod bod nifer y bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol, heb fod mewn cyflogaeth, addysg a hyfforddiant yn dal i fod yn rhy uchel, rydyn ni wedi ymrwymo o hyd i wella canlyniadau a monitro/cefnogi ein holl bobl ifanc sy'n mynd i fod yn gadael yr ysgol bob blwyddyn.




**Cadarnhawyd bod y % o ddisgyblion blwyddyn 11 sydd ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant** yn 1.8% ar gyfer Torfaen ar gyfer 24/25, sy'n ein gosod yn 4ydd allan o 22 ALl. Mae hyn yn welliant ar berfformiad blaenorol: 2.1 (19/20), 2.3 (20/21), 2.6 (21/22), 2.6 (22/23) a 1.9 (23/24)

** Data o wefan Gyrfa Cymru [Hynt disgyblion | Gyrfa Cymru]*

## Cynyddu sgiliau hanfodol a chyflogadwyedd ymhlith ein hoedolion….

Mae cynyddu sgiliau hanfodol a chyflogadwyedd ymhlith oedolion yn hanfodol er mwyn adeiladu cymdeithas gydnerth, gynhwysol a chynhyrchiol. Mae'n galluogi unigolion i gael cyfleoedd gwell am swyddi, addasu i newidiadau i alwadau'r farchnad lafur, a chyfrannu'n fwy effeithiol at yr economi. Ar gyfer cymunedau, mae'n lleihau diweithdra, tlodi, a dibyniaeth ar wasanaethau cyhoeddus, ac yn hyrwyddo symudedd cymdeithasol a llesiant. Mae buddsoddi yn sgiliau oedolion hefyd yn cefnogi dysgu gydol oes, yn rhoi hwb i hyder, ac yn

helpu pobl i ddod yn ôl at addysg neu hyfforddiant, yn enwedig y rheiny sydd efallai wedi colli cyfleoedd yn gynharach yn eu bywydau. Yn y pen draw, mae'n cryfhau rhagolygon unigol a chyd-ffyniant.

Mae ein cyrsiau sgiliau hanfodol ym maes addysg oedolion yn canolbwyntio ar fagu sgiliau sylfaenol sy'n angenrheidiol ar gyfer gwaith a bywyd bob-dydd. Mae'r cyrsiau hyn fel arfer yn cynnwys Saesneg, rhifedd a llythrennedd digidol, ac yn helpu unigolion i wella eu sgiliau darllen, ysgrifennu, mathemateg a chyfrifiadurol. Maen nhw'n anelu at wella hyder, cyflogadwyedd, ac effeithiolrwydd cyffredinol mewn lleoliadau gwahanol.

Trwy gydol 2024/25, roedd gennym 747 o ddysgwyr wedi'u cofrestru ar ein cyrsiau Sgiliau Hanfodol Dysgu Oedolion yn y Gymuned. Mae'r ffigurau hyn tua'r un peth â'r llynedd, oherwydd y rhaglen Lluosi sy'n cyflwyno Sgiliau Hanfodol Rhifedd, ochr yn ochr â'n cyrsiau Dysgu Oedolion yn y Gymuned.

(Mae'r rhaglen Lluosi yng Nghymru yn fenter a ariennir gan lywodraeth y DU gyda'r nod o wella sgiliau rhifedd oedolion sy'n 19 oed neu'n hŷn. Mae'n cynnig cyrsiau a chefnogaeth am ddim i helpu oedolion i fagu hyder gyda rhifau mewn bywyd bob-dydd, rheoli cyllid, ac, o bosibl, rhoi hwb i gyfleoedd gyrfa. Mae'r rhaglen yn rhan o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU ac fe'i cyflwynir yn lleol gan sefydliadau gwahanol ledled Cymru).

Nifer y trigolion a oedd wedi cofrestru gyda'n Gwasanaethau Cyflogadwyedd oedd 1,587, sy'n llai na 23/24 - 1,934 ac yn llai na'n targed a osodwyd ar gyfer 24/25, sef 1,800. Mae hyn wedi bod yn bennaf oherwydd cau rhaglen y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Fodd bynnag, roedd nifer y cymwysterau a enillwyd o'n rhaglenni cyflogadwyedd yn 1,431, sy'n fwy na'n targed o 1,050 ac sy'n gynnydd ar ffigurau'r llynedd, sef 235. Cefnogwyd y mwyafrif o'r cyfranogwyr hyn i ennill amrywiaeth o gymwysterau yn amrywio o HGV, i gymwysterau TG.

Ddiwedd 24/25, rydyn ni wedi cefnogi 402 o bobl sy'n economaidd anweithgar a phobl a oedd yn ddi-waith am gyfnod hir i gael gwaith, ac mae hyn gynnydd ar ffigurau'r llynedd, sef 231. Mae'r rhan fwyaf wedi gorfod goresgyn rhwystrau niferus er mwyn llwyddo ac mae'r gefnogaeth a gynigir gan Torfaen yn Gweithio wedi helpu gyda'r rhwystrau hyn.

## Ein Prif Heriau…

### Addysg:

- **Mae gwella deilliannau i ddysgwyr mewn llythrennedd a rhifedd - a lleihau'r bwlch cyrhaeddiad i ddysgwyr sy’n fregus a dan anfantais —** yn hanfodol oherwydd bod y sgiliau craidd hyn yn sylfaen ar gyfer llwyddiant mewn addysg, gwaith a bywyd bob-dydd. Bydd hyn yn her oherwydd mae dysgwyr difreintiedig yn aml yn wynebu rhwystrau fel tlodi, llai o amlygiad iaith cynnar, a mynediad cyfyngedig at gymorth wedi'i deilwra, sy'n effeithio ar eu gallu i ymgysylltu a symud ymlaen mewn addysg. Trwy ganolbwyntio ar y rheiny sy'n wynebu heriau ychwanegol, byddwn yn helpu i sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle teg i lwyddo, gan gryfhau cymunedau a chefnogi llesiant a chydraddoldeb hirdymor.
- **Bydd sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn arbenigol ac yn cael ei thargedu’n effeithiol** yn her allweddol oherwydd bod y dysgwyr hyn yn aml angen cymorth wedi'i deilwra sy'n mynd y tu hwnt i addysgu arferol yn yr ystafell ddosbarth. Er mwyn diwallu eu hanghenion amrywiol, mae gofyn cael staff medrus, adnoddau priodol, a chydlynu cryf ar draws gwasanaethau. Heb y gefnogaeth hon, efallai y bydd dysgwyr ag ADY yn cael trafferth cael mynediad at addysg mewn ffordd gyfartal, a gallai hyn effeithio ar eu hyder, eu cynnydd a'u cyfleoedd yn y dyfodol. Bydd rhoi'r cymorth iawn yn sicrhau bod pob dysgwr yn gallu ffynnu, yn hyrwyddo cynhwysiant, ac yn helpu i gau bylchau mewn cyrhaeddiad a llesiant.
- **Bydd hyrwyddo llesiant dysgwyr a hwyluso ymgysylltu â'r gymuned** yn gofyn am ddull unedig ar draws ysgolion, teuluoedd a gwasanaethau lleol. Pan fydd dysgwyr yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu cefnogi, ac yn feddyliol iach, maent yn fwy tebygol o lwyddo yn academaidd ac yn gymdeithasol. Mae ymgysylltu â'r gymuned yn helpu i feithrin rhwydweithiau cymorth cryf o amgylch dysgwyr, gan wneud addysg yn fwy cynhwysol ac yn fwy ymatebol i anghenion lleol. Mae mynd i'r afael â'r her hon yn hanfodol er mwyn creu

amgylcheddau lle gall pob dysgwr ffynnu, yn enwedig y rheiny sy'n wynebu anfantais neu ynysu.

- **Datblygu llwybrau dilyniant i ddysgwyr i annog dysgu gydol oes –** bydd angen llwybrau clir, hyblyg sy'n cefnogi unigolion ar bob cam yn eu haddysg a'u gyrfa. Mae angen arweiniad a chefnogaeth wedi'u teilwra ar lawer o ddysgwyr—yn enwedig y rhai sy'n wynebu anfantais—i barhau i ymgysylltu ac i symud ymlaen yn hyderus. Mae'n bwysig oherwydd mae dysgu gydol oes yn helpu pobl i addasu at newid, gwella eu sgiliau, a chael cyfleoedd gwell trwy gydol eu hoes. Bydd llwybrau dilyniant cryf yn sicrhau nad yw dysgu yn stopio yn yr ysgol, ond yn hytrach ei fod yn parhau mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo twf personol, cyflogadwyedd a llesiant.
- **Hyrwyddo llesiant staff –** bydd yn golygu mynd i'r afael ag amrywiaeth eang o anghenion corfforol, emosiynol a phroffesiynol mewn amgylchedd heriol sy'n aml â thipyn o straen. Pan fydd staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, yn iach ac yn llawn cymhelliant, maen nhw'n fwy cynhyrchiol, yn ymgysylltu'n well, ac yn gallu darparu gwasanaethau o ansawdd uchel. Bydd blaenoriaethu llesiant yn ein helpu i ddenu gweithwyr proffesiynol medrus, a'u cadw, yn lleihau absenoldebau, ac yn creu diwylliant cadarnhaol yn y gweithle sydd o fudd i weithwyr a'r cymunedau y maen nhw'n eu gwasanaethu.
- **Datblygu'r amgylchedd ffisegol a digidol ar gyfer dysgu –** bydd angen buddsoddiad sylweddol, cynllunio hirdymor, a'r gallu i gadw i fyny â thechnoleg sy'n newid yn gyflym. Efallai bod gan lawer o ysgolion a mannau dysgu gyfleusterau hen ffasiwn neu fynediad cyfyngedig at offer digidol, ac mae hyn yn gallu creu rhwystrau sy'n atal addysgu a dysgu effeithiol. Mae'n bwysig oherwydd bydd amgylcheddau modern, hygyrch sydd â dewis da o gyfarpar — ffisegol ac ar-lein—yn helpu i greu profiadau dysgu difyr, cynhwysol a hyblyg. Mae hyn yn cefnogi canlyniadau gwell i bob dysgwr ac yn eu paratoi ar gyfer gofynion byd digidol.

## AMCAN LLESIANT 2:

***Byddwn yn annog ac yn hyrwyddo plant, pobl ifanc a theuluoedd fel y gallant ffynnu***

### Hyrwyddo gofal maeth….

Mae hyrwyddo'r ddarpariaeth ofal maeth leol yn bwysig oherwydd mae'n darparu amgylcheddau diogel, sefydlog sy'n meithrin, i blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed pan na allant fyw gyda'u teuluoedd biolegol. Mae gofal maeth yn cefnogi llesiant emosiynol, cyrhaeddiad addysgol, a datblygiad iach, gan helpu plant i feithrin cydnerthedd a chyrraedd eu potensial. Mae hefyd yn chwarae rhan hanfodol wrth ddiogelu, yn lleihau'r risg o esgeulustod neu niwed, ac yn cynnig cymorth wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion unigol. Trwy hyrwyddo gofal maeth, gall cymunedau sicrhau bod mwy o blant yn tyfu i fyny mewn cartrefi cariadus, a bod mwy o ofalwyr yn cael eu recriwtio a'u cefnogi i wneud gwahaniaeth parhaol i fywydau ifanc.

Trwy gydol 2024, rydyn ni wedi parhau i hyrwyddo gofal maeth a chydnabod llwyddiannau cymuned faethu ein hawdurdod lleol; a'r gwahaniaeth y mae'n parhau i'w wneud i fywydau ein plant mwyaf agored i niwed.

Nod ymgyrch Maethu Cymru, 'Aros yn Lleol', yw tynnu sylw at fanteision maethu gydag awdurdodau lleol o gymharu ag asiantaethau maethu annibynnol, gan gynnwys cymorth lleol a chysylltiadau agos â gweithwyr cymdeithasol plant.



Mae hyn yn dilyn cyflwyno Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 gan Lywodraeth Cymru, sy'n sefydlu Cymru fel y genedl gyntaf yn y DU i wahardd elw gan asiantaethau maethu masnachol—ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol—mewn cam pwysig i ddiwygio gofal plant.

Trwy faethu gydag awdurdod lleol, mae plant yn gallu cynnal perthynas â'u teulu a'u ffrindiau ac aros yn eu cymuned leol, ac mae hynny'n ei gwneud yn haws iddynt i ymgartrefu yn eu cartref newydd.

Mae plant y mae angen gofal maeth arnynt yn cael eu paru i ddechrau â gofalwyr maeth yr awdurdod lleol, cyn cael eu paru ag asiantaeth faethu trydydd sector neu fasnachol os na ellir dod o hyd i leoliad addas.

Y llynedd, gofalwyd am bron i 70 y cant o blant a leolwyd gydag asiantaethau maethu masnachol y tu allan i'w hardal leol, o gymharu â dim ond 15 y cant o blant mewn gofal maeth awdurdod lleol.

Yn Nhorfaen, mae 75 y cant o'n plant mewn gofal maeth prif ffrwd yn cael eu lleoli gyda'n gofalwyr awdurdod lleol, ond amcangyfrifir bod angen 35 o ofalwyr maeth ychwanegol i ateb y galw lleol yn y dyfodol. Er nad ydym wedi cyrraedd ein targed ar gyfer pobl ifanc sydd wedi'u lleoli mewn lleoliadau gofal maeth mewnol, mae niferoedd cyffredinol y plant y mae angen gofal arnynt 18 yn llai, ers y llynedd.

I gydnabod ein gofalwyr maeth, rydym yn cynnal digwyddiad bob blwyddyn. Ym mis Mai 2024, gwahoddwyd ein 160 o ofalwyr maeth awdurdod lleol o bob rhan o Dorfaen i ddigwyddiad arbennig i ddathlu'r cyfraniad neilltuol y maen nhw wedi'i wneud i fywydau ein plant sy'n agored i niwed.

Cynhaliwyd yr ymgyrch 'Gall Pawb Gynnig Rhywbeth' hefyd trwy gydol mis Hydref a mis Tachwedd ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol. Mae'n fenter gan Maethu Cymru sy'n ceisio dangos bod maethu yn gallu bod yn brofiad gwerth chweil.

Ym mis Ebrill 2025, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) arolygiad o'n Gwasanaeth Maethu. Roedd eu canfyddiadau yn hynod gadarnhaol ac yn dangos bod ein plant:

- yn cael gofal cyson a sefydlog gan ofalwyr maeth sydd wedi ymrwymo i'w cefnogi i gyflawni canlyniadau llesiant da
- yn datblygu cydberthnasau cadarnhaol gyda'u gofalwyr maeth ac yn cael eu cefnogi i aros yn eu teulu neu rwydweithiau estynedig, lle bynnag y bo modd
- yn cymryd rhan mewn addysg a gweithgareddau ac yn cael eu cefnogi i fyw bywydau hapus, iach ac actif a chynnal perthnasau â phobl sy'n bwysig yn eu bywydau.

Mae AGC hefyd yn cydnabod y bydd ein hadolygiad, sy'n cyd-fynd ag ailstrwythuro ehangach ein Gwasanaethau Plant, yn rhoi cyfle i ddatblygu a gwella safonau perfformiad a darpariaeth gwasanaethau, yn y dyfodol. Gellir gweld copi llawn o'r adroddiad yma: **Arolygiaeth Gofal Cymru**

## Cefnogi ein pobl ifanc….

Mae cefnogi ein pobl ifanc yn hanfodol er mwyn adeiladu cymdeithas ffyniannus, gynhwysol a blaengar. Mae'n eu helpu i ddatblygu'r sgiliau, yr hyder a'r cydnerthedd sydd eu hangen arnynt i ffeindio'u ffordd trwy heriau bywyd, llwyddo mewn addysg a chyflogaeth, a chyfrannu'n gadarnhaol at eu cymunedau. Trwy fuddsoddi yn eu llesiant, eu haddysg a chyfleoedd, rydym yn lleihau'r risgiau o ymddieithrio, anghydraddoldeb ac iechyd meddwl gwael, tra'n meithrin uchelgais, creadigrwydd a chyfrifoldeb cymdeithasol.

Ym mis Medi 2024, fe fu dau o Weinidogion Llywodraeth Cymru yn ymweld â 'Fy Nhîm Cefnogol' i atgyfnerthu pwysigrwydd cymorth iechyd meddwl arbenigol i bobl ifanc mewn gofal.

Siaradodd Sarah Murphy, y Gweinidog dros Iechyd Meddwl a Llesiant, a Dawn Bowden, y Gweinidog dros Ofal Cymdeithasol a Phlant, â theuluoedd a staff i ddysgu am y dewis o wasanaethau iechyd meddwl a ddarperir gan y tîm.

Mae rhaglen Fy Nhîm Cefnogol Rhanbarthol Gwent yn wasanaeth iechyd meddwl arbennig i bobl ifanc hyd at 18 oed. Mae'r rhaglen, sydd wedi elwa ar dros £1.4m o'r blaen yn rhan o'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol, yn cefnogi plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ac sydd ag anghenion iechyd meddwl a chymdeithasol cymhleth, gan ddefnyddio amrywiaeth eang o fodelau seicotherapiwtig.



Trwy gydol 2024/25, mae ein gwasanaeth wedi cefnogi 97 o blant a phobl ifanc ag anghenion iechyd meddwl cymhleth, a'u ffrindiau a'u teuluoedd, yn ogystal â rhoi cymorth seicolegol i 130 o bobl ifanc eraill sy'n gysylltiedig â gwasanaethau plant.

Mae effaith drawsnewidiol Fy Nhîm Cefnogol wedi arwain un unigolyn ifanc i lwyddo i symud allan o ofal preswyl, i fyw yn lled-annibynnol.

Mae'r rhaglen Fy Nhîm Cefnogol yn dilyn fframwaith NYTH Llywodraeth Cymru – rhoi Nerth, Ymddiried, Tyfu'n Ddiogel a Hybu – ar gyfer gwella gwasanaethau iechyd meddwl a llesiant i fabanod, plant a phobl ifanc, a'u teuluoedd. Ei nod yw sicrhau bod plant a phobl ifanc, yn ogystal â'u rhwydweithiau cymorth, yn cael y cyfle gorau posibl i lwyddo trwy ddewis o gymorth seicolegol uniongyrchol a dull 'system gyfan' ar gyfer gofal. Rydym yn gweld hyn fel elfen sylfaenol wrth sicrhau bod pobl ifanc â phrofiad o ofal yn cael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnynt i lwyddo mewn bywyd.

## Adolygu'r ddarpariaeth/llety ar gyfer ein plant sy'n derbyn gofal….

Mae darparu llety priodol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn hanfodol er mwyn sicrhau eu diogelwch, eu sefydlogrwydd a'u llesiant emosiynol. Mae cartref diogel sy'n meithrin yn helpu plant i wella o drawma, meithrin perthnasau o ymddiriedaeth, a ffynnu yn bersonol ac yn academaidd. Mae hefyd yn cefnogi mynediad cyson at addysg, gwasanaethau iechyd, a chyfleoedd datblygu cymdeithasol. Heb lety addas, mae plant mewn mwy o berygl o ddioddef ansefydlogrwydd, iechyd meddwl gwael, a tharfu ar eu cyfleoedd bywyd. Mae buddsoddi mewn lleoliadau o safon uchel - boed yn ofal maeth, cartrefi preswyl, neu fyw â chymorth - yn gosod y sylfaen ar gyfer canlyniadau gwell a dyfodol mwy gobeithiol.

Mae'n flaenoriaeth yn ein hawdurdod lleol i sicrhau ein bod yn dod o hyd i ffyrdd diogel a phriodol o weithio gyda theuluoedd i'w helpu i ddiwallu anghenion eu plant, gan gynnwys eu hangen i gael eu hamddiffyn rhag niwed. Byddwn bob amser, pryd bynnag y mae'n ddiogel gwneud hynny, yn chwilio am ffyrdd o gefnogi plant a phobl ifanc i aros gyda'u teulu biolegol neu deulu estynedig, gan osgoi'r angen i blant a phobl ifanc dderbyn gofal.

Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae yna nifer o blant yn ein gofal sydd ag anghenion cymhleth/heriol sydd angen gofal mewn lleoliad preswyl, fel opsiwn tymor byr, tymor canolig a hirdymor, gan ddibynnu ar lefel eu hangen a'u cymhlethdod.

Fel pob Awdurdod Lleol, mae'n ofynnol i ni gynnig llety digonol i blant sy'n derbyn gofal, yn unol ag Adran 79 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf). ac mae'n ddyletswydd arnom i sicrhau bod lleoliadau yn cael eu gwneud yn ein hardal ni, ac eithrio lle nad yw'n rhesymol ymarferol gwneud hynny, neu os oes rhesymau sy'n drech na hynny dros leoli plentyn y tu allan i'r awdurdod, yn ymwneud â diogelu yn bennaf.



Ar hyn o bryd mae diffyg darpariaeth gofal preswyl fforddiadwy, o ansawdd da, i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc ag anghenion lluosog a chymhleth. Bydd hyn yn debygol o fynd yn waeth syn sgil yr 'Agenda Dileu' sy'n anelu at newid y cydbwysedd elw ar gyfer gofal, o fewn y sector hwn.

Heb y math hwn o lety, bydd gofyn i ni barhau i leoli ein plant/pobl ifanc y tu allan i'r sir, ac mae hyn yn gostus ac nid yw bob amser er budd gorau'r plentyn/unigolyn ifanc.

Er mwyn ymateb i'r gofynion a diwallu anghenion ein plant a'n pobl ifanc, rydyn ni wedi parhau â'n hymdrechion i ddatblygu ein darpariaeth breswyl ein hunain yn y Fwrdeistref.

Ym mis Gorffennaf 2024, cymeradwyodd ein Cabinet y penderfyniad i ddyfarnu contract ar gyfer darparu gofal a chymorth yng Nghartref Plant Preswyl Byngalo Greenhill.

Ddechrau mis Tachwedd, croesawodd ein cartref preswyl newydd i blant ei unigolyn ifanc cyntaf wrth iddo agor ei ddrysau, yn dilyn gwaith adnewyddu llawn. (Roedd hyn yn bosibl trwy weithio mewn partneriaeth â Chartrefi Melin, gyda chyllid trwy Gronfa Tai â Gofal Llywodraeth Cymru).

Mae ein cartref newydd wedi'i gynllunio i ddarparu amgylchedd diogel, cefnogol sy'n meithrin ar gyfer blant a phobl ifanc yng ngofal yr Awdurdod Lleol.

Mae Byngalo Greenhill wedi cael ei ddatblygu'n ofalus gan gontractwyr Melin, OTL (One Transformation Ltd) i ddiwallu anghenion plant, sydd angen amgylchedd sefydlog a gofalgar. Mae Midway Transitional Solutions yn darparu'r gofal a'r gefnogaeth, wedi'i staffio gan dîm o weithwyr sydd wedi eu hyfforddi i lefel uchel ac sy'n brofiadol iawn, sydd wedi ymrwymo i helpu plant i ffynnu a chyrraedd eu potensial llawn, gan hyrwyddo llesiant emosiynol, datblygiad addysgol, a sgiliau bywyd.

Mae'r trefniadau cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru, Melin a ni yn darparu gofal i hyd at dri o blant, gan greu cartref sy'n ail-greu bywyd teuluol yn agos ac yn diwallu anghenion y bobl ifanc sy'n byw yno.

Mae'r prosiect hwn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i gynnig mwy na dim ond "brics a morter" ond mae hefyd yn helpu i greu sylfaen er mwyn i bobl adeiladu eu dyfodol, gan greu cyfleoedd mwy disglair i'r rheiny sydd â'r angen mwyaf amdanynt.

Rydyn ni eisiau adeiladu ar hyn ac mae cynlluniau ar y gweill ar hyn o bryd i gaffael ar eiddo pellach, i ddatblygu portffolio o gartrefi plant preswyl yn y Fwrdeistref yn y dyfodol.

## Lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal mewn ffordd ofalus

Mae lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal yn bwysig oherwydd mae'n adlewyrchu cynnydd wrth fynd i'r afael â'r materion sylfaenol sy'n arwain at chwalu teuluoedd, esgeulustod neu gamdriniaeth. Er bod gofal maeth a gofal preswyl yn cynnig amddiffyniad hanfodol, gall bod mewn gofal amharu ar ddatblygiad emosiynol plentyn, ei addysg a'i ymdeimlad o sefydlogrwydd. Trwy fuddsoddi mewn ymyrraeth gynnar, cymorth i deuluoedd, a gwasanaethau cymunedol, gallwn helpu teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel, gwella canlyniadau i blant, a lleihau'r costau cymdeithasol ac economaidd hirdymor sy'n gysylltiedig â gofal. Yn y pen draw, mae llai o blant mewn gofal yn golygu bod mwy o blant yn tyfu i fyny mewn amgylcheddau diogel, cariadus lle gallant ffynnu.

Mae Torfaen yn dal i fod â'r gyfradd uchaf o blant sy'n derbyn gofal - fesul 10,000 o'r boblogaeth, o dan 18 oed, yng Nghymru. Fodd bynnag, mae hyn wedi gostwng o flwyddyn i flwyddyn, er 2021, pan yr oedd ar ei uchaf gyda 232 am bob 10,000 o'r boblogaeth, sydd gywerth â 479 o blant sy'n derbyn gofal.


* Cafwyd y data o wefan StatsCymru: [Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth fesul 10,000 o'r boblogaeth dan 18 yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn]

| Local authority | | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| All Welsh local authorities | | 110 | 116 | 117 | 114 | 116 | 116 |
| All Welsh local authorities | Blaenau Gwent | 168 | 158 | 152 | 151 | 155 | 152 |
| | Bridgend | 130 | 134 | 133 | 128 | 136 | 128 |
| | Caerphilly | 117 | 121 | 124 | 128 | 129 | 131 |
| | Cardiff | 122 | 129 | 134 | 141 | 141 | 137 |
| | Carmarthenshire | 49 | 44 | 40 | 46 | 51 | 71 |
| | Ceredigion | 53 | 64 | 74 | 87 | 114 | 120 |
| | Conwy | 98 | 96 | 99 | 94 | 104 | 108 |
| | Denbighshire | 86 | 90 | 94 | 95 | 104 | 109 |
| | Flintshire | 76 | 80 | 81 | 79 | 79 | 77 |
| | Gwynedd | 112 | 131 | 127 | 125 | 129 | 130 |
| | Isle of Anglesey | 110 | 122 | 122 | 107 | 111 | 111 |
| | Merthyr Tydfil | 158 | 164 | 153 | 142 | 140 | 157 |
| | Monmouthshire | 101 | 130 | 126 | 124 | 124 | 117 |
| | Neath Port Talbot | 110 | 107 | 103 | 95 | 92 | 89 |
| | Newport | 106 | 107 | 106 | 103 | 103 | 95 |
| | Pembrokeshire | 65 | 79 | 94 | 93 | 103 | 109 |
| | Powys | 103 | 103 | 104 | 97 | 98 | 105 |
| | Rhondda Cynon Taf | 136 | 144 | 139 | 133 | 127 | 130 |
| | Swansea | 119 | 122 | 120 | 107 | 104 | 104 |
| | Torfaen | 220 | 229 | 232 | 212 | 201 | 181 |
| | Vale of Glamorgan | 104 | 95 | 104 | 105 | 117 | 120 |
| | Wrexham | 98 | 118 | 133 | 132 | 124 | 112 |

Mae angen lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal yn ddiogel ar gyflymder addas, er mwyn i'n perfformiad gydymffurfio â'r cyfartaledd cenedlaethol a fel ein bod yn gallu rheoli'r galw cyffredinol a pharhau i ganolbwyntio ar wella canlyniadau i'n plant a'n teuluoedd.

Gall costau lleoliadau hefyd amrywio'n aruthrol o tua £400 yr wythnos i dros £7,000 yr wythnos a llawer mwy os oes angen lleoliad heb ei reoleiddio. Mae hyn yn golygu bod galw ariannol sylweddol ar ein

gwasanaeth ac ar yr Awdurdod Lleol.




Tua diwedd 2024, roedd y sefyllfa ariannol gyffredinol mewn perthynas â'n hadran Gofal Cymdeithasol i Blant yn rhagweld amrywiad negyddol, o tua £3.2m. Mae hon yn sefyllfa ariannol ddwys iawn ac mae'n llawer uwch na blynyddoedd blaenorol. Mae hyn yn bennaf yn ganlyniad i'r ffaith fod niferoedd y lleoliadau yn uwch na'r lefel y cyllidebwyd ar ei chyfer, law yn llaw â chynnydd yn nifer y lleoliadau cost uchel yr oedd eu hangen. (Mae lleoliadau cost uchel yn cynnwys: lleoliadau preswyl a lleoliadau gydag Asiantaethau Maethu Annibynnol.

Mae'r holl ffactorau hyn wedi ffurfio sylfeini allweddol y gwaith pontio yr ydym wedi'i wneud o fewn Gwasanaethau Plant trwy gydol 2024/25, sydd wedi'i oruchwylio trwy Grŵp Gwella Carlam. Ffocws y gwaith hwn yw datblygu gwasanaethau a systemau gyda'r nod o:

- **Atal** pobl rhag bod eisiau gwasanaeth statudol (gwasanaethau cyffredinol, EIP).
- **Galluogi** pobl i ddatblygu annibyniaeth a lleihau'r angen am wasanaeth statudol parhaus (adsefydlu).
- **Darparu gwasanaeth o ansawdd uchel** ar gyfer y rheiny ag angen gwasanaethau statudol (ansawdd y gwasanaeth i wella canlyniadau).

Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud a'i gyfarwyddo trwy'r Grŵp Gwella Carlam, wedi rheoli'r galw a'r gwariant cyffredinol o fewn y maes gwasanaeth yn effeithiol. Bu gostyngiad arwyddocaol yn y boblogaeth sy'n derbyn gofal o 355 i 316 ers mis Ionawr 2025, sy'n cyfateb i ostyngiad cyffredinol o 11%. Mae'r llwybr hwn yn argoeli'n dda ar gyfer gostyngiad parhaus a chyflawniad blynyddol yn erbyn niferoedd cyffredinol y plant sy'n derbyn gofal, er y byddwn yn parhau i fonitro hyn yn agos.

Wrth symud ymlaen, mae'n hanfodol ein bod yn parhau i reoli'r galw yn y maes hwn a'i leihau mewn ffordd ddiogel. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, trwy broses flaenorol o drawsnewid, rydym wedi lleihau ein poblogaeth plant sy'n derbyn gofal yn sylweddol, ond o fan cychwyn uchel. Mae angen i hyn leihau ymhellach, er mwyn i ni allu ddangos mwy o reolaeth o fewn y maes gwasanaeth, trwy sicrhau bod y gwasanaethau iawn yn cael eu darparu ar yr adeg iawn a'u bod yn seiliedig ar angen a aseswyd, cynnig cymunedol gwell a mwy o gydnerthedd cymunedol. Rydyn ni hefyd wedi sefydlu grŵp ymchwil 'Dechrau Gorau mewn Bywyd', sy'n canolbwyntio ar archwilio sut y gall ymchwil gefnogi ymdrechion i fynd i'r afael â'r niferoedd uchel o blant sy'n derbyn gofal yn Nhorfaen, ymhellach.

## Helpu ein plant, pobl ifanc a theuluoedd fel y gallant ffynnu….

Mae helpu plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae yn hanfodol ar gyfer eu gallu i ffynnu, yn emosiynol ac o ran datblygiad. Mae chwarae yn cefnogi twf gwybyddol, creadigrwydd a sgiliau datrys problemau, a hefyd yn meithrin rhyngweithio cymdeithasol, cyfathrebu, a rheoleiddio emosiynol. Mae'n caniatáu i blant archwilio'r byd, magu hyder, a datblygu cydnerthedd mewn ffordd ddiogel a phleserus. Mae'n bwysig cofio bod chwarae yn cyfrannu at iechyd corfforol a llesiant meddyliol, a'i fod yn arbennig o werthfawr i blant sy'n wynebu heriau neu drawma. Trwy hyrwyddo chwarae, rydym yn creu amgylcheddau lle gall plant dyfu, dysgu a ffynnu mewn ffordd holistaidd.

## Cyfleuster chwarae newydd



Agorwyd cyfleuster chwarae newydd i gefnogi rhieni a phlant, o dan un ar ddeg oed, yn adeilad ein Canolfan Ddinesig, ym mis Ebrill 2024.

Mae 'Civic Play' yn cael ei redeg gan ein Gwasanaeth Chwarae, ac mae'n cynnal sawl darpariaeth gan gynnwys clybiau Lego, sesiynau chwarae i'r teulu, grwpiau tadau, grwpiau anabledd a chlybiau chwarae i ofalwyr ifanc. Mae crèche hefyd ar gael i rieni sy'n cael hyfforddiant yn swyddfeydd y Cyngor.

Dyma'r tro cyntaf i ni fel Cyngor gynnig y math hwn o wasanaeth yn y Ganolfan Ddinesig ac mae'n rhan o'r gwaith i ehangu'r ddarpariaeth chwarae sydd ar gael yn  barod ar draws y Fwrdeistref Sirol.



## Ein Gwasanaeth Chwarae

Trwy gydol haf 2024, fe fu dros 400 aelod o staff a gwirfoddolwr o'n Gwasanaeth Chwarae yn cynnal mwy na 30 o glybiau a sesiynau gweithgareddau gwahanol i blant hyd at 11 oed, yn rhan o'n rhaglen 'Haf o Hwyl'.

Cymerodd tua 2,500 o blant a phobl ifanc ran mewn sesiynau gwahanol bob dydd, gan gynnwys cynlluniau chwarae, gwersylloedd bwyd a hwyl a sesiynau seibiant arbenigol i blant ag anghenion cymhleth.

Eleni, cynigiodd y gwasanaeth hyfforddiant sgwteri a beiciau ym mhob gwersyll bwyd a hwyl, wedi'i ariannu gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Fe fu'r sesiynau hyn yn dysgu sut i ddefnyddio beiciau a sgwteri yn ddiogel i helpu plant i deithio'n fwy llesol.

Mae ein timau arbennig yn gweithio'n ddiflino trwy gydol gwyliau'r haf i greu rhaglen 'haf o hwyl' amrywiol a difyr sy'n cynnig rhywbeth at ddant a gallu yr holl blant a phobl ifanc yn ein cymunedau.

Ym mis Medi 2024, lansiwyd ymgynghoriad newydd i helpu i lunio dyfodol ein cyfleoedd chwarae, ar draws ein cymunedau yn Nhorfaen.

Cynhelir ein Hasesiad Digonolrwydd Chwarae bob tair blynedd ac mae'n gwerthuso argaeledd ac ansawdd cyfleoedd chwarae a hamdden i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed.

Mae'r asesiad hwn yn gofyn am adborth am ddarpariaethau chwarae wedi'u staffio, seilwaith fel parciau, mannau chwarae a mannau agored, yn ogystal â gweithgareddau ar gyfer y blynyddoedd cynnar, chwaraeon, ieuenctid a diwylliannol.

Mae hefyd yn ystyried ffactorau fel amser, lle, a chaniatâd i chwarae, gyda'r nod o nodi ardaloedd lle gallai cyfleoedd chwarae fod yn brin, a'u gwella.

Trwy gymryd rhan yn yr ymgynghoriad, mae trigolion wedi gallu lleisio'u pryderon a rhannu eu mewnwelediadau am ddarpariaethau chwarae cyfredol, gan dynnu sylw at unrhyw feysydd sydd angen eu

gwella yn eu barn nhw.

Defnyddir adborth o'r ymgynghoriadau i ddatblygu cynllun gweithredu, a fydd yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2025.



Ddiwedd mis Ionawr 2025, lansiodd ein Gwasanaeth Chwarae gyfres o sesiynau chwarae newydd ar ddydd Sadwrn.

Roedd y sesiynau newydd hyn mewn ymateb i Asesiad Digonolrwydd Chwarae blaenorol, a gafodd gyfraniadau gan dros fil o blant o dan 12 oed.

Yn yr arolwg, a oedd yn dal arferion chwarae plant, eu safbwyntiau a'u barn, amlygodd thema gyffredin: awydd am fwy o weithgareddau a phethau i'w gwneud ar benwythnosau.

Mae'r sesiynau newydd hyn yn ychwanegiad ardderchog at y portffolio eang o gyfleoedd chwarae a hamdden sydd ar gael yn barod i blant a phobl ifanc yn Nhorfaen.

Bydd cyfres newydd o leoliadau hefyd yn cael eu cyflwyno o fis Ebrill 2025, i gynnwys mwy o ardaloedd o'r Fwrdeistref, gan sicrhau bod gan bob plentyn fynediad at gyfleoedd chwarae cyfoethog a phleserus.

### Parc chwarae cynhwysol

Cwblhawyd y gwaith ar drawsnewid darn segur o dir ym Mhontnewynydd yn barc chwarae cynhwysol ddiwedd 2024/25.

Nod y parc yw mynd i'r afael â chanfyddiadau asesiad digonolrwydd chwarae blaenorol, a nododd ddiffyg darpariaeth chwarae i blant ag anghenion arbennig, yng ngogledd y Fwrdeistref.



Rydyn ni'n cydnabod bod ardaloedd chwarae a pharciau yn cynnig dewis o fuddion i blant, gan gynnwys hyrwyddo gweithgarwch corfforol, rhoi hwb i sgiliau cymdeithasol, meithrin hunan-barch, datblygu sgiliau echddygol ac annog creadigrwydd.

(Mae'r prosiect hwn wedi bod yn bosibl diolch i bron i £1.2 miliwn o Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU ac mae hefyd yn cefnogi prosiectau amrywiol eraill ar draws Torfaen, er enghraifft gwella mynediad i'r anabl i Barc Blodau Blaenafon, creu ardal gêmau amrywiol newydd ym Mharc Pontnewydd, a chynllunio campfa awyr agored newydd yng Nghwmbrân).

## Ein Prif Heriau...

### Addysg:

- **Mae datblygu Cynnig a Strategaeth newydd a chynyddu darpariaeth mynediad agored wedi'i thargedu i bobl ifanc -** yn her allweddol oherwydd bod anghenion pobl ifanc yn amrywiol ac yn esblygu'n gyson. Bydd angen ymgysylltu ystyrlon, gwasanaethau hyblyg, a phartneriaethau cryf i sicrhau bod cymorth yn hygyrch, yn gynhwysol ac yn berthnasol. Mae hyn yn bwysig oherwydd bod gwasanaethau ieuenctid sydd wedi'u cynllunio'n dda yn helpu pobl ifanc i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, yn magu hyder, ac yn datblygu sgiliau am oes. Trwy gynnig cymorth mynediad agored a chymorth wedi'i dargedu, gallwn gyrraedd y rhai sy'n wynebu'r mwyaf o risg, lleihau anghydraddoldebau, a chreu cyfleoedd i bob unigolyn ifanc i ffynnu yn eu cymunedau.

- **Parhau i gynyddu'r nifer sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a lleihau gwastraff bwyd yng ngheginau ysgolion -** efallai bod nifer o deuluoedd cymwys ddim yn hawlio prydau am ddim oherwydd stigma, diffyg ymwybyddiaeth, neu rwystrau gweinyddol - sy'n golygu bod plant yn colli'r cyfle i gael bwyd maethlon sy'n cefnogi eu dysgu a'u llesiant. Ar yr un pryd, er mwyn lleihau gwastraff bwyd mae gofyn gwneud newidiadau i arferion ein ceginau, cynllunio bwydlenni, a rheoli dognau, ac mae hyn yn gallu bod yn gymhleth. Mae'n bwysig oherwydd mae gwella mynediad at brydau ysgol yn helpu i sicrhau bod pob plentyn yn cael ei fwydo'n dda ac yn barod i ddysgu, ac mae lleihau gwastraff yn cefnogi nodau hinsawdd ac yn gwneud defnydd gwell o adnoddau cyhoeddus.

**Gwasanaethau Plant:**

1. **Bydd lleihau poblogaeth ein plant sy'n derbyn gofal a hynny'n ddiogel, ac yn gyflym –** yn golygu sicrhau cydbwysedd rhwng yr angen i amddiffyn plant sy'n agored i niwed a chefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd. Bydd angen cefnogaeth ddwys, cymorth cydgysylltiedig, ymyrraeth gynnar effeithiol, ac opsiynau addas yn lle gofal. Mae'n bwysig oherwydd bod cyflawni hyn yn ddiogel yn gwella canlyniadau i blant, yn lleihau'r galw hirdymor am wasanaethau, ac yn helpu i feithrin teuluoedd a chymunedau cryfach, mwy cydnerth.
2. **Er mwyn datblygu ystod eang o lety i ddiwallu anghenion plant sy'n derbyn gofal** mae angen opsiynau tai amrywiol, o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion unigol, yn aml yn wyneb adnoddau cyfyngedig a gofynion gofal cymhleth. Heb leoliadau addas, gall plant brofi ansefydlogrwydd, ac mae hynny'n gallu cael effaith negyddol ar eu llesiant a'u canlyniadau hirdymor.
3. **Gwella ein model comisiynu cyffredinol, fel y mae'n ymwneud â llety a gwasanaethau eraill a gomisiynir, er mwyn cael mwy o reolaeth dros y farchnad** – bydd angen mwy o reolaeth strategol dros farchnad gymhleth a chystadleuol. Heb hyn, efallai y bydd y Cyngor yn cael trafferth sicrhau lleoliadau o ansawdd uchel sy'n gost-effeithiol sy'n diwallu anghenion amrywiol plant sy'n derbyn gofal. Bydd cryfhau trefniadau comisiynu yn helpu i sicrhau canlyniadau gwell, gwerth am arian, a chynaliadwyedd hirdymor gwasanaethau.
4. **Sicrhau mwy o allu i reoli'r galw cyffredinol trwy wella'r cynnig cymunedol a datblygu mwy o wasanaethau effeithiol i ymyrryd yn gynnar ac atal, gyda llwybrau clir -** mae rheoli'r galw cyffredinol yn gofyn am newid o wasanaethau ymatebol i gymorth rhagweithiol yn y gymuned. Mae gwella'r cynnig cymunedol a datblygu llwybrau ymyrraeth gynnar clir yn cymryd amser, cydlynu a buddsoddiad - ond mae'n hanfodol atal problemau rhag gwaethygu, lleihau'r straen ar wasanaethau statudol, a gwella canlyniadau hirdymor i unigolion a theuluoedd.

**Diogelwch Cymunedol:**

- **Datblygu cyfres gryfach o fesurau effaith sy'n ein helpu i dracio effeithiolrwydd ein hymyriadau atal wedi eu targedau –** bydd hyn yn gofyn am ffyrdd clir, cyson o dracio pa mor dda y mae gwasanaethau atal wedi'u targedu yn gweithio, yn aml ar draws anghenion cymhleth ac amrywiol. Heb fesurau cadarn, bydd yn anodd deall beth sy'n gwneud gwahaniaeth, gwella gwasanaethau, a sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi canlyniadau hirdymor.

## AMCAN LLESIANT 3:

***Byddwn yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb drwy ganolbwyntio ar weithgareddau adnabod ac atal cynnar sy'n cefnogi pobl i fyw bywydau annibynnol, sy'n dwyn boddhad***

### Cefnogi ein preswylwyr gyda chostau byw....

Mae cefnogi preswylwyr i fagu cydnerthedd ac i liniaru effaith y cynnydd mewn costau byw yn hanfodol er

mwyn sicrhau bod unigolion a theuluoedd yn gallu diwallu anghenion sylfaenol — fel bwyd, tai, gwres, a thrafnidiaeth—heb fynd i galedi ariannol. Gall cynnydd mewn costau byw effeithio ar ein gallu i amddiffyn ein hunain yn ystod argyfwng llesiant oherwydd gall arwain at fwy o straen, iechyd gwael, a llai o gyfleoedd ar gyfer addysg a chyflogaeth. Trwy gynnig cymorth, gall cymunedau hyrwyddo sefydlogrwydd ariannol, lleihau anghydraddoldeb, a gwella llesiant yn gyffredinol. Mae hefyd yn helpu i atal argyfyngau fel digartrefedd neu ddyled ac yn cryfhau cydlyniant cymdeithasol trwy sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i fyw'n urddasol ac yn ddiogel.

Mae'r raddfa a'r galw am ein gwasanaeth refeniw a budd-daliadau yn parhau i dyfu, yn ganlyniad i'r cynnydd cynyddol mewn costau byw. Mae'r prif weithgareddau allweddol ar gyfer 2024/25 fel a ganlyn:



- Cafwyd 890 atgyfeiriad gan gwsmeriaid ar gyfer pobl sydd ag angen cymorth a chyngor
- Talwyd £23,948,594 mewn Budd-daliadau Tai
- Dyfarnwyd £358,567.05 o Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn
- Gweinyddwyd 9,227 hawliad, yn rhan o Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, sef cyfanswm o £10,642,765
- Dyfarnwyd 4,256 hawliad am Brydau Ysgol am Ddim
- Dyfarnwyd 3,185 grant gwisg ysgol
- Dyfarnwyd 200 taliad gwarcheidwad / mabwysiadu

## Gwneud ein cymunedau yn fwy cydnerth….

Mae gwneud cymunedau'n fwy cydnerth yn bwysig oherwydd mae'n helpu unigolion a grwpiau i wrthsefyll heriau fel caledi economaidd, digwyddiadau hinsawdd, argyfyngau iechyd cyhoeddus, a newid cymdeithasol, ac adfer yn well ar eu hôl. Mae gan gymunedau cydnerth rwydweithiau cymorth cryf, cefnogaeth gynhwysol yn eu cymuned, a'r gallu i addasu ac arloesi yn wyneb adfyd. Mae hyn yn arwain at lesiant gwell, llai o anghydraddoldeb, a mwy o gydlyniant cymdeithasol. Trwy fuddsoddi mewn cydnerthedd - trwy addysg, seilwaith, arweinyddiaeth leol, ac atal - rydym yn creu lleoedd mwy diogel, iachach a mwy grymus lle gall pobl ffynnu, hyd yn oed yn ystod cyfnodau anodd.

Ym mis Mawrth 2024, aethom ati i wahodd ein trigolion i gymryd rhan mewn arolwg, i helpu i sicrhau bod ein ffordd newydd o weithio gyda chymunedau yn cael ei chyflawni yn y ffordd fwyaf effeithiol a fyddai'n cael yr effaith bennaf.

Helpodd yr adborth o'r arolwg hwn i lunio fersiwn derfynol ein 'Strategaeth Gymunedol a Llesiant ar gyfer 2023-27'.

Ddiwedd Ebrill 2024, cymeradwyodd y Cyngor ein '**Strategaeth Llesiant Cymunedol ar gyfer 2023-27'.**

Mae'r strategaeth hon yn cyflwyno ein gweledigaeth a'n cenhadaeth newydd i osod 'cymunedau' a 'llesiant ac atal' fel conglfeini go iawn yn y ffordd yr ydym yn dylunio ein gwasanaethau.

Mae'n anelu at rymuso ein cymunedau i fod yn fwy gwydn, yn iachach, wedi eu cysylltu'n well ac yn fwy cyfartal. Mae'r strategaeth yn seiliedig ar y cysyniad o 'gydnerthedd', sef ein gallu i ymdopi pan fyddwn yn wynebu her neu argyfwng sylweddol neu yn ystod cyfnod o newid yn ein bywyd. Mae'n cydnabod bod ein cymunedau yn ganolog wrth gefnogi ein cydnerthedd a'n llesiant ac yn ystyried bod gan gymunedau gwahanol gryfderau ac anghenion gwahanol wrth ddarparu'r cymorth hwn.

Mae'r strategaeth yn nodi chwe amcan strategol i greu'r amodau ar gyfer cydnerthedd effeithiol. Dyma'r amcanion strategol hynny:

1. Arweinyddiaeth Gymunedol a Chynllunio yn y Fan a'r Lle
2. Y Rhwydwaith 'Cysylltu': Adeiladu Seilwaith Cymunedol
3. Atal trwy Wirfoddoli a Chysylltu Cymunedol
4. Drws Ffrynt y Cyngor a Gwasanaethau Cyffredinol: Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth o ran Llesiant, wedi'u Personoli
5. Atal ac Ailalluogi wedi'u Targedu gan y Cyngor a'r Sector Gwirfoddol
6. Cyflawni fel System Gyfan: Cyflawni trwy Ddull Cymunedol gyda Phartneriaid

Mae'r strategaeth hefyd yn amlinellu camau gweithredu, dangosyddion perfformiad a chanlyniadau allweddol ar gyfer pob amcan, yn ogystal â'r strwythur llywodraethu a'r trefniadau monitro ar gyfer cyflawni'r strategaeth, y byddwn yn gweithio yn eu herbyn, trwy gydol cyfnod y strategaeth.

## Gwella'r llif trwy ein Gwasanaethau Oedolion….

Mae ymchwil yn dangos bod ein trigolion yn Nhorfaen yn byw'n hirach, ond bod eu hiechyd yn waeth. Trwy ganolbwyntio ar atal, ymyrraeth gynnar, a hyrwyddo annibyniaeth — er enghraifft trwy gymorth yn y gymuned, ailalluogi, a datblygu sgiliau—gall awdurdodau lleol helpu oedolion i fyw bywydau iachach, gyda mwy o reolaeth dros eu bywydau eu hunain. Mae hyn yn gwella canlyniadau i unigolion ond hefyd yn caniatáu i wasanaethau ganolbwyntio ar y rheiny sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth, gan sicrhau effaith well yn gyffredinol a gwerth am arian.

Mae llawer o'n trigolion yn dweud y byddai'n well ganddynt fyw'n annibynnol a pheidio â dibynnu ar wasanaethau statudol. Er mwyn sicrhau ein bod ni fel Cyngor yn gallu chwarae ein rhan wrth gefnogi trigolion, gan roi'r cymorth iawn ar yr adeg iawn i'r rheiny ag angen am wasanaethau atal arnynt, rydyn ni wedi ail-ddylunio ein gwasanaethau yn unol â hynny.

Felly, fe wnaeth ein gwaith trwy gydol 2024/25 bwysleisio pwysigrwydd gwybodaeth, cyngor a chymorth a dangos y ffordd mewn ffordd addas, i sicrhau nad yw trigolion yn cael eu tynnu i mewn i system a gwasanaeth pan fyddai'n bosibl iddynt gadw'u hannibyniaeth a byw'r bywyd y maen nhw am ei fyw, gyda chymorth o fath arall sydd ddim yn gymorth statudol.

Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn, rydyn ni'n cydnabod bod angen ehangu'r ddarpariaeth 'Ymyrraeth Gynnar ac Atal', a datblygu 'Cynnig Cymunedol' sy'n ein galluogi i ddarparu mwy o atebion yn y gymuned. Bydd hyn yn galluogi'r Cyngor i sianelu ei adnoddau a'i wasanaethau statudol i ddiwallu anghenion y rheiny sydd ag anghenion cymwys a aseswyd.

Ein gweledigaeth yw sicrhau newid i'r system gyfan o fewn ein sefydliad. Sef y drws ffrynt i ofal cymdeithasol, ac ail-ddylunio gwasanaethau Ymyrraeth Gynnar ac Atal cyn y drws ffrynt ac o fewn cymunedau.

Ers mis Ebrill 2024, mae ein Drws Ffrynt - Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a'r Gwasanaeth Ail-alluogi Integredig wedi bod ar waith.

Mae'r 'Cynnig Cymunedol' hwn yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth, ac atal sylfaenol, yng nghymdogaeth ein trigolion. Os yw'r trigolyn naill ai'n gallu hunan-ddatrys ei anghenion ar y pwynt hwn neu gyda chymorth anstatudol, yna mae'n annhebygol y bydd angen symud ymlaen i'r cynnig Gwasanaethau Oedolion drws ffrynt. Fodd bynnag, pan na ellir datrys yr anghenion gyda gwasanaethau atal yn y gymuned, yna mae drws ffrynt Gwasanaethau Oedolion yn darparu cymorth wedi'i dargedu'n fwy fel y bo'n briodol, gan gynnig pecynnau o gymorth atal.

Mae'r gwasanaethau hyn yn dechrau effeithio'n araf ar ein systemau gofal cymdeithasol a gwella canlyniadau i unigolion.

## Ymyrraeth Gynnar ac Atal....


Mae ymyrraeth gynnar ac atal yn hanfodol oherwydd mae'n helpu i adnabod materion a rhoi sylw iddynt cyn iddynt ddwysau, gan wella canlyniadau i unigolion a lleihau'r galw hirdymor am wasanaethau cyhoeddus. Trwy weithredu'n gynnar—boed ym maes iechyd, addysg, gofal cymdeithasol, neu gymorth cymunedol—gallwn atal argyfyngau, hyrwyddo llesiant, a chefnogi pobl i fyw'n fwy annibynnol.

Ochr yn ochr â'n 'Cynnig Cymunedol', trwy gydol 2024/25, fe wnaethom ddatblygu dull ymyrraeth gynnar ac atal i helpu unigolion a chymunedau i fod yn fwy cydnerth, gan wella iechyd a llesiant yn y tymor hir. Mae ein hwb atal newydd bellach yn asesu atgyfeiriadau, trwy:

- asesu pa ddarpariaeth sydd ar gael yn ein cymunedau lleol,

- pa gymorth ychwanegol y gallai fod ei angen a;
- p'un a oes angen comisiynu'r gefnogaeth honno neu i'r Cyngor ei ddarparu.

Ym mis Mawrth 2025, symudodd ein Tîm Hwb Ymyrraeth Gynnar ac Atal newydd i swyddfa newydd, ac mae hyn yn annog pobl i rannu gwybodaeth, profiad a sgiliau, yn ogystal â chynnig cyfle i drafod y llwybr gorau ar gyfer atgyfeiriadau. Mae'r hwb nawr yn trafod pob atgyfeiriad am gymorth ataliol, ac mae'r tîm yn asesu pob achos ac yn asesu pa gymorth y gallai fod ei angen, gan gynnwys unrhyw weithgarwch a chymorth a ddarperir yn y gymuned.




Mae'n rhan o'n 'Dull Cymunedau' ehangach sy'n anelu at gynyddu annibyniaeth a chydnerthedd unigolion a chymunedau. Mae ein timau yn gweithio mewn swyddfeydd yn y Ganolfan Ddinesig a byddant yn gweithio law yn llaw â'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth statudol i Oedolion a gwasanaethau MASSH i blant, ac yn ychwanegol atynt.

Wrth edrych ymlaen, bydd ein CYBI yn arwain prosiect ym mis Medi 2025, sy'n canolbwyntio ar archwilio sut y gall deallusrwydd artiffisial wella'r broses atgyfeirio o fewn gofal cymdeithasol i oedolion, gyda'r nod o adnabod achosion brys a'u hasesu yn fwy effeithiol.

## Gofalu am ein poblogaeth oedrannus….

Mae gofalu am ein poblogaeth oedrannus yn sicrhau bod oedolion hŷn yn gallu byw gydag urddas, diogelwch a llesiant. Wrth i bobl heneiddio, efallai y byddant yn wynebu heriau iechyd, ynysu cymdeithasol, neu galedi ariannol, ac mae darparu cymorth priodol yn eu helpu i aros yn actif, i gadw mewn cysylltiad ac i fod yn annibynnol am gyfnod hirach. Mae gwerthfawrogi pobl hŷn a gofalu amdanynt hefyd yn cryfhau teuluoedd a chymunedau, yn cynnal cydberthnasau rhwng cenedlaethau, ac yn anrhydeddu'r cyfraniadau maen nhw wedi'u gwneud trwy gydol eu bywydau. Mae buddsoddi yn eu gofal yn gyfrifoldeb moesol - ond mae hefyd yn hyrwyddo cymdeithasau iachach, mwy cynhwysol i bawb.

Ym mis Ebrill 2024, fe wnaethom ddatblygu cynlluniau o fewn ein sefydliad i gael ein cydnabod fel 'Cymuned Oed-gyfeillgar', gan Sefydliad Iechyd y Byd (WHO).

Y nod yw sicrhau bod ein cymunedau, ein gwasanaethau a'n sefydliadau lleol yn gweithio gyda phobl hŷn i sicrhau bod pawb yn cael eu cefnogi i heneiddio'n dda.

Er mwyn ein helpu i ddeall beth sy'n cael ei wneud yn dda yn ein Bwrdeistref yn barod, a beth mwy sydd angen ei wneud, lansiwyd ymgynghoriad, i unrhyw un sy'n 50 oed neu'n hŷn.




Rhannwyd yr ymgynghoriad yn bedwar arolwg ar wahân, gan ganolbwyntio ar feysydd a nodwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd fel rhai sy'n hanfodol i sicrhau llesiant pobl hŷn:

- Mannau awyr agored, adeiladau a thrafnidiaeth
- Tai a Gofal Iechyd
- Cymuned, parch a chynhwysiant
- Cyfathrebu, gwybodaeth a chyflogaeth

Mae bron i 42 y cant o'r boblogaeth yn Nhorfaen dros 50 oed, a bron i 10 y cant dros 75 oed. Er ein bod yn gwerthfawrogi nad yw'r rhan fwyaf o bobl yn eu 50au yn cael eu hystyried yn hen, efallai bod gan yr unigolion hyn syniadau ynghylch sut y gallwn helpu pobl i heneiddio'n dda yn Nhorfaen, trwy brofiadau eu rhieni eu hunain.

Byddwn yn defnyddio canlyniadau'r arolwg i'n helpu i ddeall beth mae pobl am i ni ganolbwyntio arno a sicrhau bod Cynllun Torfaen sy'n Dda i Bobl Hŷn yn cael ei arwain gan ein cymunedau ac yn arwain at newid cadarnhaol sydd o fudd i genedlaethau hŷn, nawr ac yn y dyfodol.

## Atal digartrefedd….


Mae lleihau digartrefedd yn amddiffyn urddas, iechyd a diogelwch pobl, a hefyd yn cryfhau cymunedau ac yn lleihau'r straen ar wasanaethau cyhoeddus. Gall digartrefedd arwain at iechyd corfforol a iechyd meddwl gwael, ynysu cymdeithasol, a rhwystrau at gyflogaeth neu addysg. Trwy fynd i'r afael â'r achosion sylfaenol - er enghraifft tlodi, diffyg tai fforddiadwy, ac anghenion cymorth heb eu diwallu - gallwn helpu unigolion i ailadeiladu eu bywydau ac atal caledi hirdymor.

Mae atal digartrefedd yn dal i fod yn her i ni, o fewn yr hinsawdd dai bresennol. Mae hyn yn bennaf gan mai ychydig iawn o opsiynau tai fforddiadwy sydd ar gael. Oherwydd hyn, nid oes fawr o ddewis gan lawer o unigolion, heblaw am opsiynau tai i'w rhentu'n gymdeithasol neu gael cymorth trwy ddigartrefedd.

Fodd bynnag, rydyn ni'n cymryd camau ychwanegol i gynyddu'r cyflenwad o opsiynau tai fforddiadwy, trwy gyflwyno Cynllun Lesio Cymru. Nod y fenter hon yw gwella mynediad at gartrefi yn y sector rhentu preifat a'u fforddiadwyedd, gwella safonau, cefnogi tenantiaethau a lleihau digartrefedd. Yn y bôn, mae'n galluogi perchnogion eiddo i brydlesu eu heiddo preswyl i'r awdurdod lleol. Yn Nhorfaen cafwyd ymateb cadarnhaol ac yn 25/26 rydym yn anelu at ddarparu 15 uned i'w rhentu.  Yn ogystal, mae prosiect cyfalaf sylweddol gwerth £3m yn Nhŷ Pearl, Pont-y-pŵl bron â gorffen ac mae wedi trawsnewid yr adeilad i gynnwys 15 o fflatiau modern hunangynhwysol, sy'n cefnogi unigolion sydd wedi bod yn ddigartref neu sydd mewn perygl o ddigartrefedd, a fydd yn weithredol yn gynnar yn 25/26 (Ebrill).

Bydd ein partner – TheWallich yn cefnogi preswylwyr, y disgwylir iddynt aros yn Nhŷ Pearl am hyd at chwe mis, tra byddant yn cael cymorth i symud ymlaen i lety amgen a chynnal y llety hwnnw. Bydd Hwb Cymorth Tai newydd, sy'n cael ei redeg gan The Wallich, hefyd ar gael ar y llawr gwaelod ac mae disgwyl iddo agor yn nes ymlaen yn 2025. Bydd yr hwb yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau ac yn gartref i sawl asiantaeth, gan gynnwys tîm tai y Cyngor, i helpu'r rheiny sy'n wynebu digartrefedd i gael y cymorth a'r cyngor angenrheidiol.

Yn ogystal, daethpwyd o hyd i rywfaint o gapasiti ychwanegol i gynyddu'r ddarpariaeth cyfryngu a gwasanaethau i geisio atal digartrefedd.  Mae cymorth pellach yn cael ei ddarparu i helpu i gadw llety, pan fo unigolion yn cael trafferthion ariannol.




O gymharu â blynyddoedd blaenorol, mae ein perfformiad o ran atal **pobl rhag dod yn ddigartrefedd** wedi gostwng. Mae hyn yn bennaf oherwydd cynnydd yn nifer y bobl sy'n cyflwyno eu hunain fel pobl ddigartref ac am fod llai o dai fforddiadwy ar gael i'w rhentu/prynu.

Mae'r Grant Cymorth Tai yn Grant gan Lywodraeth Cymru sy'n ariannu cymorth sy'n gysylltiedig â thai a gweithgareddau atal digartrefedd ar gyfer pobl sy'n agored i niwed, a allai fod mewn perygl o ddod yn ddigartref. Mae'r rhaglen yn darparu gwasanaethau cymorth hanfodol i alluogi pobl sy'n agored i niwed i




gael mynediad at lety priodol a'i gadw, ac mae'n darparu dewis o wasanaethau, fel cymorth peripatetig, lloches i fenywod sy'n profi cam-drin domestig, llety hostel i bobl ifanc a llety â chymorth i bobl â materion iechyd meddwl

Mae'r rhaglen hon wedi elwa ar gynnydd i'w chyllid yn 2024/25, i gefnogi ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i arferion gwaith teg ac i hyrwyddo cynaliadwyedd y gwasanaeth. O dan y canllawiau a'r amodau a thelerau ar gyfer y cyllid, mae'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol ddatblygu Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai 4-blynedd, sy'n cael ei chefnogi gan Gynllun Cyflawni 3-blynedd.

Ym mis Rhagfyr 2024, cymeradwyodd y Cabinet ein Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai a'n Cynllun Cyflawni 3-blynedd, sy'n darparu cyfeiriad strategol ar gyfer Torfaen ac yn sicrhau bod ein gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u darparu'n llwyddiannus. Mae'n cyflwyno'r blaenoriaethau yr ydym yn bwriadu eu cyflawni trwy'r Grant Cymorth Tai ac yn tynnu sylw at unrhyw ddiweddariadau a chynnydd a wnaed yn erbyn y cynllun cyflawni.

Dyma grynodeb o'n cynnydd hyd yn hyn:

- Rydyn ni wedi cynyddu'r cyflenwad o lety â chymorth yn Nhorfaen trwy weithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a darparwyr lleol i ddatblygu gwasanaethau llety â chymorth i bobl ifanc a chynyddu'r capasiti o fewn tai â chymorth generig.
- Rydyn ni wedi ail-ffurfweddu ac ail-gomisiynu'r gwasanaethau canlynol i ymateb i anghenion a gofynion cymunedau, sy'n esblygu: Gwasanaethau cymunedol a llety Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, gwasanaethau cymorth lefel isel ac ataliol, Gwasanaeth Tai yn Gyntaf
- Rydyn ni wedi gweithio gyda phartneriaid lleol a rhanbarthol i ddatblygu a chynnal y gwasanaethau canlynol: Gwasanaeth Cymorth Sipsiwn a Theithwyr, Gwasanaeth Allgymorth Cadarn Camddefnyddio Sylweddau, Gwasanaeth Troseddwyr, Gwasanaeth Ymgysylltu â Chartrefi – Materion Celcio, Mynediad at Gyngor a Chymorth ar gyfer Cynhwysiant Ariannol, Tîm Ymyrraeth Tai, Swyddog Tai Pobl Ifanc

Mae ein strategaeth sydd wedi'i hadolygu a'i diwygio yn adeiladu ar y gweithgareddau yr ydym eisoes wedi'u cynnal, ac ar yr un pryd yn cydnabod cyflymder ac esblygiad yr amgylchedd i ymateb i flaenoriaethau strategol. Fodd bynnag, byddai'n ddoeth tynnu sylw at y ffaith fod y tirweddau polisi a chyfreithiol yn mynd i ddatblygu ymhellach, wrth i 'bapur gwyn' Llywodraeth Cymru ar gyfer rhoi terfyn ar ddigartrefedd fynd rhagddo.

Er bod y Rhaglen Cymorth Tai wedi elwa ar gynnydd yn y flwyddyn ariannol hon, mae'r sefyllfa ar gyfer y blynyddoedd dilynol heb ei phennu eto, gan fod y sefyllfa ariannol yn dal i fod yn ansicr.

## Gwella hygyrchedd bwyd fforddiadwy ac iach….

Mae rhoi mynediad at fwyd iach fforddiadwy yn cefnogi iechyd corfforol, llesiant meddyliol, ac ansawdd bywyd yn gyffredinol. Pan fydd pobl yn gallu fforddio bwyd maethlon, maen nhw'n llai tebygol o brofi salwch sy'n gysylltiedig â diet fel gordewdra, diabetes, a chlefyd y galon. Mae hefyd yn helpu plant i ganolbwyntio a pherfformio'n well yn yr ysgol, ac yn helpu oedolion i fod yn gynhyrchiol yn y gwaith. Mae sicrhau mynediad at fwyd iach yn lleihau anghydraddoldebau iechyd, yn cefnogi teuluoedd sy'n agored i niwed, ac yn cryfhau cymunedau trwy hyrwyddo tegwch ac urddas. Yn y pen draw, mae'n rhan allweddol o adeiladu cymdeithas iachach, mwy cydnerth.

### Hyrwyddo bwyd iach a chynaliadwy

Ym mis Awst 2024, enillodd partneriaeth sy'n helpu busnesau a grwpiau cymunedol lleol i hyrwyddo bwyd iach a chynaliadwy, wobr genedlaethol.

Mae ein cynllun 'BwydIDyfu Torfaen' yn anelu at gynhyrchu mwy o fwyd yn lleol, trwy greu rhwydwaith o gynhyrchwyr a chyflenwyr bwyd, darparu grantiau i helpu busnesau bwyd i arallgyfeirio, a chefnogi sefydliadau i ddod o hyd i atebion cynaliadwy i dlodi bwyd.

Dyfarnwyd gwobr arian i'r bartneriaeth gan raglen Lleoedd Bwyd Cynaliadwy y DU, sy'n cydnabod ardaloedd sy'n gyrru arloesi ac arfer gorau ar bob agwedd ar fwyd iach a chynaliadwy. Mae hyn yn dangos beth sy'n gallu cael ei gyflawni pan fydd pobl greadigol ac ymroddgar yn cydweithio.

Er ein bod yn teimlo bod llawer i'w wneud o hyd a llawer o heriau i'w goresgyn, mae Partneriaeth Bwyd Torfaen wedi helpu i osod meincnod i aelodau eraill Rhwydwaith Mannau Bwyd Cynaliadwy y DU.

Trwy gydol 2024, mae ein Tîm Gwydnwch Bwyd wedi rhoi grantiau i dros 34 o grwpiau cymunedol a 13 o fusnesau trwy ein partneriaeth 'BwydIDyfu'.

(Mae partneriaeth BwydIDyfu Torfaen yn cynnwys Cyngor Torfaen, Cynghrair Gwirfoddol Torfaen, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, yn ogystal ag 80 o fusnesau a sefydliadau cymunedol.
Ariennir y Rhaglen Gwydnwch Bwyd gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru).

### Strategaeth Fwyd

Ym mis Hydref 2024, roedd cynlluniau ar y gweill i ddatblygu ein Strategaeth Fwyd gyntaf ar gyfer Torfaen, gyda'r nod o gynyddu argaeledd bwyd cynaliadwy yn y Fwrdeistref.



Bydd y strategaeth yn cynnwys ffocws ar fwyta'n iach, atebion hirdymor i dlodi bwyd a chefnogaeth i fusnesau lleol i arallgyfeirio a lleihau effaith amgylcheddol cynhyrchu bwyd.

Trwy gydol 2024/25, roedden ni wedi bwriadu cynnal ymgynghoriad i ddarganfod beth fyddai busnesau lleol, grwpiau cymunedol a thrigolion yn hoffi ei weld yn cael ei gynnwys yn ein strategaeth. Fodd bynnag, gohiriwyd hyn, oherwydd ansicrwydd ynghylch cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn y dyfodol. Fodd bynnag, bydd y gweithgaredd hwn yn dechrau yn ystod 2025/26.

Rydyn ni wedi ymrwymo i ddatblygu strategaeth bwyd cynaliadwy sy'n adlewyrchiad go iawn o anghenion a dyheadau ein cymuned, felly mae adborth ein trigolion yn amhrisiadwy i'n helpu i greu cynllun sy'n hyrwyddo bwyta'n iach, yn cefnogi busnesau bwyd lleol, ac yn lleihau effaith cynhyrchu a bwyta bwyd ar yr amgylchedd.

Gyda'n gilydd, gallwn sicrhau bod pawb yn Nhorfaen yn gallu cael mynediad at fwyd fforddiadwy, maethlon, tra'n meithrin economi fwyd gynaliadwy.

(Mae ein Strategaeth Fwyd yn cael ei datblygu gan Bartneriaeth Bwyd Torfaen, sy'n cynnwys Cyngor Torfaen, Cynghrair Gwirfoddol Torfaen, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Tai Bron Afon, Tasty Not Wasty, Trussell Trust, FairShare Cymru a Zero Waste Torfaen).

## Cynllunio a datblygu cynaliadwy yn ein cymunedau….


Mae cynllunio ar gyfer datblygu cynaliadwy yn ein cymunedau yn sicrhau llesiant hirdymor pobl a'r amgylchedd. Mae'n helpu i sicrhau cydbwysedd rhwng twf economaidd, cynhwysiant cymdeithasol, a diogelu'r amgylchedd - gan greu lleoedd y gellir byw ynddynt, sy'n gydnerth ac a fydd yn gallu wynebu'r dyfodol yn ddiogel. Mae datblygu cynaliadwy yn cefnogi tai, trafnidiaeth, defnydd ynni, a gwasanaethau cyhoeddus gwell, ac yn lleihau allyriadau carbon a gwastraff adnoddau ar yr un pryd. Mae hefyd yn hyrwyddo tegwch trwy ddiwallu anghenion cyfredol heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain. Yn y pen draw, mae'n adeiladu cymunedau cryfach, iachach sy'n gallu ffynnu dros amser.

Ym mis Tachwedd 2024, cymeradwyodd y Cyngor amserlen newydd ar gyfer cyflawni ein Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

Mae'r Cynllun hwn yn nodi ble bydd tai a safleoedd cyflogaeth newydd yn cael eu dyrannu ar draws y Fwrdeistref, ac yn nodi ardaloedd a mesurau i wella llesiant a bioamrywiaeth.

Mae'r cynllun yr ydym wedi ei fabwysiadu ar hyn o bryd yn rhychwantu'r cyfnod rhwng 2013 a 2021, ond yn 2024/25 dechreuodd gwaith ar Gynllun Datblygu Lleol Newydd ar gyfer 2022-2037.

Mae'r Cyngor bellach wedi cytuno ar Gytundeb Cyflawni newydd, sy'n nodi'r amserlen ar gyfer datblygu'r Cynllun a sut a phryd y gall unrhyw un sydd â diddordeb, a'r cyhoedd, fod yn rhan o'r gwaith.




Dyma'r dyddiadau pwysig:

- Strategaeth a Ffefrir - Hydref 2025
- Cynllun Adnau - Hydref 2026
- Cyflwyno i Lywodraeth Cymru - Ionawr 2028
- Mabwysiadu gan Gyngor Torfaen - Rhagfyr 2028

Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn amlinellu cyfeiriad strategol y Cynllun Datblygu Lleol ac mae'r Cynllun Adnau yn rhoi manylion y Cynllun ei hun.

Mae'r Cytundeb Cyflawni newydd yn cymryd lle'r cytundeb cychwynnol a gymeradwywyd gan ein Cynghorwyr, yn 2023.

## Ein Prif Heriau….

### Addysg:

**Parhau i gynyddu'r niferoedd sy'n cael prydau ysgol am ddim.**

### Tai:

- **Datblygu cyfres ddiwygiedig o ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n mesur effaith ein dull o ddiwallu'r galw am dai, gan gynnwys ein rhaglen Ailgartrefu Cyflym, mewn ffordd fwy addas -** mae mesur effaith mentrau tai—yn enwedig rhaglenni cymhleth fel Ailgartrefu Cyflym—yn gofyn am ddangosyddion perfformiad sy'n fwy nag allbynnau sylfaenol ac sy'n adlewyrchu canlyniadau go iawn ar gyfer unigolion a chymunedau. Bydd datblygu'r dangosyddion hyn yn cymryd amser, data a chydweithio, ond mae'n hanfodol deall beth sy'n gweithio, gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau, a sicrhau bod cymorth tai yn diwallu anghenion lleol yn effeithiol
- **Mae sicrhau ymyrraeth gynnar ac atal yn ystyriaeth allweddol ar gyfer ein dull o ddarparu cymorth tai a lleihau'r galw am dai -** bydd cynnwys ymyrraeth gynnar ac atal mewn cymorth tai yn gofyn am weithio mewn ffordd wahanol — o ymateb i argyfyngau, i adnabod anghenion yn rhagweithiol cyn iddynt waethygu a rhoi sylw iddynt. Mae'n gofyn am gydlynu cryf, data amserol, a gwasanaethau hyblyg, ond mae'n hanfodol i leihau'r galw am dai yn y tymor hir, gwella canlyniadau i unigolion sy'n agored i niwed, a defnyddio ein hadnoddau yn well.
- **Cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy trwy ddatblygiadau a rhaglenni newydd i ailddefnyddio eiddo gwag unwaith eto, a hynny'n gyflym -** er mwyn cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy mae gofyn goresgyn rhwystrau fel argaeledd tir cyfyngedig, cyfyngiadau ariannu, a phrosesau cynllunio hir. Mae defnyddio eiddo gwag unwaith eto, a hynny'n gyflym, hefyd yn gofyn am gydlynu a buddsoddi. Bydd mynd i'r afael â'r materion hyn yn hanfodol i ddiwallu'r cynnydd yn yr angen am dai, lleihau digartrefedd, a sicrhau bod gan bawb fynediad at lety diogel.

- **Adolygu ein trefniadau comisiynu ataliol i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cydlynu ac yn ymateb i anghenion unigolyn, gan gynnwys cymorth tai -** er mwyn adolygu trefniadau comisiynu ataliol mae gofyn alinio gwasanaethau niferus i gydweithio'n effeithiol ac ymateb i anghenion unigol mewn ffordd amserol. Mae'n gymhleth ei gydlynu, ond yn hanfodol i sicrhau bod cymorth tai yn rhagweithiol, yn canolbwyntio ar yr unigolyn, ac yn lleihau'r galw hirdymor trwy atal problemau cyn iddynt waethygu.

## AMCAN LLESIANT 4:

***Gwneud Torfaen yn fwy cynaliadwy trwy gysylltu pobl a chymunedau, yn gymdeithasol, yn ddigidol ac yn ffisegol***

### Buddsoddi yn ein rhwydwaith rheilffyrdd….

Mae buddsoddi yn ein rhwydwaith rheilffyrdd yn cefnogi trafnidiaeth gynaliadwy, yn rhoi hwb i dwf economaidd, ac yn gwella cysylltedd rhwng cymunedau. Mae systemau rheilffyrdd yn lleihau tagfeydd ar y ffyrdd ac allyriadau carbon, gan sicrhau bod teithio yn fwy eco-gyfeillgar. Maen nhw hefyd yn rhoi mynediad dibynadwy, fforddiadwy i swyddi, addysg a gwasanaethau—yn enwedig i bobl heb geir. Gall seilwaith rheilffyrdd wedi'i uwchraddio ysgogi economïau lleol, denu buddsoddiad, a chefnogi datblygiad rhanbarthol.

Cwblhawyd gwaith adfer i fynd i'r afael â materion hanesyddol gyda'r platfform yng Ngorsaf Reilffordd Pont-y-pŵl a'r Dafarn Newydd ym mis Rhagfyr 2024.



Gwnaed gwaith i ailraddio'r platfform a gosod arwyneb newydd, yn rhan o brosiect gwerth £7.1m i drawsnewid yr orsaf a chreu cyfleuster parcio a theithio newydd.

Roedd disgwyl i'r prosiect fod wedi'i gwblhau dros yr haf, ond oherwydd y gwaith ychwanegol, a materion annisgwyl yn ystod y gwaith adeiladu, gohiriwyd yr agoriad.

Ddiwedd mis Chwefror, agorwyd y cyfleuster parcio a theithio newydd yn swyddogol. Daw hyn ar ôl i'r Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd awdurdodi'r cyfleuster newydd i wasanaethu.

Mae'r maes parcio - sy'n hygyrch ar hyd ffordd newydd o'r A4042 - yn cynnwys 129 o leoedd cyffredinol, 11 o faeau parcio hygyrch, baeau beiciau modur, mannau diogel i feiciau a baeau gollwng teithwyr. Ar y safle mae yna nifer o faeau gwefru cerbydau trydan hefyd, a fydd ar gael i'w defnyddio yn ystod y misoedd nesaf.

Mae pont droed newydd a lifftiau sy'n addas i gadeiriau olwyn a beiciau hefyd wedi cael eu gosod, yn rhan o'r datblygiad hwn.

Mae'r prosiect gwerth £7.1m yn un o'r cyntaf i'w gwblhau yn rhan o gynllun Metro Plus Prifddinas Ranbarth Caerdydd i greu system Fetro gwerth £50m ar gyfer De Cymru.

Mae’r gwaith yn cynnwys:

- Gwelliannau i'r platfform a'r ardal eistedd
- Gwella'r teledu cylch cyfyng a'r goleuadau
- Systemau gwybodaeth i gwsmeriaid a phwynt cymorth newydd

Y gobaith yw y bydd y cyfleuster newydd yn annog mwy o bobl i ddefnyddio'r orsaf, gan arwain at gynnydd mewn gwasanaethau trên.

Mae hwn wedi bod yn brosiect eithriadol o heriol ac wedi golygu cydweithio rhwng nifer o sefydliadau, i greu canolfan drafnidiaeth ranbarthol newydd, yn rhan o gynllun Metro De Cymru.

Bydd y cyfleuster newydd o fudd i bobl sy'n defnyddio'r orsaf yn barod, a'r gobaith yw y bydd yn annog eraill i'w defnyddio hefyd. Bydd cynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio'r orsaf yn golygu y gallwn lobïo am fwy o drenau, a bydd hynny'n fuddiol i gymudwyr a'r rheiny sydd eisiau teithio mewn ffordd sy'n fwy cynaliadwy.

(Ariannwyd y prosiect gan Brifddinas Ranbarth Caerdydd, Llywodraeth Cymru a Chyngor Torfaen. Mae cynlluniau Metro Plus eraill yn cynnwys Cyfnewidfa Caerffili, Cyfnewidfa Merthyr Tudful a Chyfnewidfa Drafnidiaeth Porth).

## Darparu teithio llesol a llwybrau diogel i'r ysgol….

Mae darparu llwybrau teithio llesol i'n hysgolion - er enghraifft llwybrau cerdded a beicio diogel yn annog ffyrdd iachach o fyw, yn lleihau tagfeydd traffig a llygredd, ac yn hyrwyddo annibyniaeth ymhlith plant a phobl ifanc. Mae'n cefnogi llesiant corfforol a meddyliol, yn gwella'r gallu i canolbwyntio a pharodrwydd i ddysgu, ac yn helpu i adeiladu arferion teithio llesol gydol oes. Mae'r llwybrau hyn hefyd yn gwella diogelwch, yn lleihau costau trafnidiaeth i deuluoedd, ac yn cyfrannu at gymunedau mwy cynaliadwy, cysylltiedig. Mae buddsoddi mewn teithio llesol o amgylch ysgolion o fudd i ddisgyblion, teuluoedd, a'r amgylchedd ehangach.

Ddiwedd mis Mai 2024, cofrestrodd ddeg o'n hysgolion cynradd ar gyfer cynllun newydd sy'n annog plant i ddod i'r ysgol ar droed, ar sgwter neu ar feic yn rheolaidd.

Yn rhan o'r cynllun hwn, mae disgyblion yn cofnodi sut maen nhw'n teithio i'r ysgol bob dydd, yn rhan o'r fenter Cerdded Unwaith yr Wythnos - a lansiwyd gan yr elusen Living Streets ac a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Fel cymhelliant, gall disgyblion ennill hyd at 11 bathodyn gwahanol am ddod i'r ysgol ar droed, ar feic neu ar sgwter o leiaf unwaith yr wythnos, a gall ysgolion ddefnyddio'r wybodaeth i oleuo eu cynlluniau teithio llesol a'u datblygu.

Er 2021, rydyn ni wedi helpu 16 ysgol i ddatblygu cynlluniau teithio llesol unigol, sy'n anelu at leihau nifer y disgyblion a'r staff sy'n teithio i'r ysgol mewn car.



Mae Ysgol Gynradd Griffithstown, ym Mhont-y-pŵl, yn un o'r ysgolion sy'n cymryd rhan yn y cynllun Cerdded Unwaith yr Wythnos ac yn ddiweddar mae wedi datblygu cynllun teithio llesol.

Mae'r fenter Cerdded Unwaith yr Wythnos yma wedi dangos y gall dod i'r ysgol ar droed neu ar feic unwaith neu ddwywaith yr wythnos wneud gwahaniaeth mawr i'r traffig ger ysgolion, ac mae hynny'n fwy diogel ac yn iachach i'n disgyblion.

Mae mwy o ddisgyblion nawr yn mynd i'r ysgol yng Nghwmbrân ar droed, ar sgwter ac ar feic, ers iddyn nhw gyflwyno cynllun teithio llesol i ysgolion.

Ysgol Gynradd Llantarnam oedd yr ysgol gyntaf yn Nhorfaen i fabwysiadu'r cynllun teithio llesol i ysgolion ar ei newydd wedd ym mis Gorffennaf 2022, gyda'r nod o godi nifer y disgyblion sy'n teithio'n llesol i'r ysgol yn rheolaidd. Ers hynny, mae ein Tîm Teithio Llesol wedi gweithio gyda'r ysgol i ddarparu mannau storio sgwteri, hyfforddiant beiciau, cynnal arolygon, creu llwybrau teithio llesol newydd, a gosod croesfan sebra a mynedfeydd ychwanegol i'r ysgol. Mae'r ysgol hefyd wedi gofyn am fannau storio beiciau ychwanegol, oherwydd nifer y disgyblion sydd nawr yn dod i'r ysgol ar feic.

Mae'r cynllun teithio llesol wedi tynnu sylw pawb at fanteision teithio ar droed, ar feic ac ar sgwter - rydyn ni nawr yn siarad â'r plant am y manteision, ac yn eu hannog i gael sgyrsiau tebyg gartref.

Yn ôl traciwr Cerdded Unwaith yr Wythnos Living Streets yr ysgol, mae 68 y cant o ddisgyblion wedi dod i'r ysgol ar droed, ar sgwter neu ar feic hyd yn hyn y mis hwn.

Yn ystod 24/25, mae ein Tîm Teithio Llesol wedi cefnogi 13 ysgol arall yn Nhorfaen i ddatblygu cynlluniau teithio llesol ar gyfer yr ysgol ac mae'n gweithio gyda thair arall.

Ym mis Hydref 2024, mae ein Tîm Teithio Llesol a Diogelwch ar y Ffyrdd hefyd wedi cynnig sesiynau beiciau cydbwysedd i bob dosbarth Meithrin, Derbyn a Blwyddyn 1, gan roi cyfle i ddisgyblion iau ddysgu hanfodion sut i reidio beic.

Nod y sesiynau hyn yw addysgu sgiliau i'r plant, mewn ffordd ddifyr ac ymarferol, gyda llawer o gêmau a gweithgareddau. Trwy addysgu'r sgiliau hanfodol hyn i'n plant, rydyn ni'n hyrwyddo ffordd iachach o fyw a hefyd yn sicrhau eu bod yn barod i ffeindio'u ffordd ar hyd ein ffyrdd yn ddiogel.

Hyd yn hyn, mae 24 o ysgolion wedi cofrestru ar gyfer yr hyfforddiant sy'n anelu at roi'r blociau adeiladu i blant ddod yn feicwyr diogel a hyderus yn y dyfodol.

(Mae hyfforddiant Beiciau Cydbwysedd yn un o'r mentrau a gyflwynwyd yn 2024/25 trwy deithio llesol. Cafodd teithio llesol £250,000 yn 2024/25 gan lywodraeth y DU trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU).

Ym mis Tachwedd 2024, yn ôl yr arolwg 'Dwylo i Fyny' diweddaraf ar draws Cymru, adroddwyd mai Torfaen oedd â'r 4ydd canran uchaf o ddisgyblion sy'n teithio'n llesol i'r ysgol – cynnydd o wyth lle o gymharu â'r llynedd.

### Gweithredu Deddf Teithio Llesol Llywodraeth Cymru….

Mae lleihau terfynau cyflymder i 20 mya ar ffyrdd - yn enwedig mewn ardaloedd preswyl a ger ysgolion, yn gwella diogelwch, yn achub bywydau, ac yn gwella llesiant cymunedau.

Ym mis Ionawr 2025, fe wnaethom adolygu nifer yr eithriadau i'r terfyn 20mya, mewn ardaloedd adeiledig yn Nhorfaen.

Ym mis Medi 2023, newidiodd Llywodraeth Cymru y terfyn cyflymder diofyn o 30mya i 20mya mewn ardaloedd adeiledig. Roedd y ddeddfwriaeth newydd yn golygu bod ffyrdd 30mya yn newid yn awtomatig i 20mya, oni bai eu bod yn bodloni canllawiau Llywodraeth Cymru i gael eu categoreiddio fel eithriad.

Ar yr adeg hon yn Nhorfaen, nodwyd bod 36 o'r eithriadau yn bodloni meini prawf Llywodraeth Cymru ar gyfer terfyn cyflymder uwch a rhoddwyd **Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Dros Dro** ar waith.

Y llynedd, gwahoddodd Llywodraeth Cymru drigolion i gysylltu â'u hawdurdodau lleol i awgrymu eithriadau ychwanegol a chyhoeddwyd canllawiau diwygiedig i gynghorau am y meini prawf asesu.

Cawsom gyfanswm o 702 o sylwadau am ffyrdd yn y Fwrdeistref, gyda chyfuniad o safbwyntiau o blaid yr eithriadau ac yn eu herbyn.

Adolygwyd yr awgrymiadau yn unol â'r canllawiau diwygiedig, a chynnig ychwanegu'r ffyrdd canlynol at yr eithriadau i'r terfyn 20mya:

- Newport Road, Cwmbrân (rhan)
- Estate Road, Blaenafon (gan gynnwys Ystâd Ddiwydiannol Gilchrist Thomas)
- Yr A4043 i'r gogledd o Bont-y-pŵl tuag at Abersychan (rhan)
- New Road, rhwng Tref Gruffydd a'r Dafarn Newydd (rhan)
- Usk Road, Y Dafarn Newydd (rhan)
- Glan-yr-afon, Pont-y-pŵl
- Turnpike Road, Llanyrafon (rhan)

- B4236 Heol Caerllion (rhan) - yr adran 40mya

Ddiwedd mis Chwefror 2024, roedd y broses ffurfiol o gyflwyno Gorchmynion Rheoleiddio Traffig i wneud yr eithriadau yn barhaol ar y gweill.

Rydyn ni'n gwerthfawrogi bod y terfyn cyflymder diofyn newydd o 20mya wedi cael effaith gadarnhaol yn llawer o'n cymunedau, gan leihau cyflymder traffig a helpu trigolion sy'n byw ar y strydoedd hynny a defnyddwyr eraill y ffordd i deimlo'n fwy diogel, er ein bod yn deall nad yw'n addas ym mhob ardal.

## Cysylltu Torfaen….

Mae rhoi mynediad i gymunedau i blatfform cymunedol yn meithrin cysylltiad a chydweithio ac yn grymuso. Mae'r platfformau hyn yn galluogi trigolion i rannu gwybodaeth, cael mynediad at wasanaethau lleol, cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau, a chefnogi ei gilydd. Maen nhw'n cryfhau cydlyniant cymdeithasol, yn gwella cyfathrebu rhwng dinasyddion ac awdurdodau lleol, ac yn helpu i adnabod anghenion y gymuned, ac ymateb iddynt, yn fwy effeithiol. Trwy roi llais a lle i bobl ymgysylltu, mae platfformau cymunedol yn cyfrannu at gymunedau mwy cydnerth, cynhwysol a rhagweithiol.

Trwy gydol 2024, rydyn ni wedi parhau i hyrwyddo ein 'Rhwydwaith Cysylltu Torfaen' gyda'n gilydd, fel y prif blatfform i'n trigolion gael mynediad at weithgareddau a chymorth a arweinir gan y gymuned.

Mae mwy na 1,000 o bobl bellach wedi cofrestru ar ein gwefan 'Cysylltu Torfaen' sy'n cynnwys dros 300 o grwpiau a mudiadau cymunedol sy'n hyrwyddo'u digwyddiadau a'u gwasanaethau.



Mae tua 400 o ddigwyddiadau a gweithgareddau cymunedol wedi eu rhestru ar y wefan bob mis, ar gyfartaledd, sy'n golygu ei bod yn siop un stop i Dorfaen ar gyfer gweithgareddau a digwyddiadau lleol.

Yn bennaf, nod y platfform yw cysylltu trigolion â grwpiau a gwasanaethau cymunedol yn eu hardal leol – gan adael iddyn nhw chwilio am weithgareddau, mynd i ddigwyddiadau neu gofrestru ar gyfer cyfleoedd i wirfoddoli.

Ers ei lansio yn 2021, mae'r Cyngor wedi cynnwys llawer o gyfleoedd cymunedol, gan ffrwyno cefnogaeth y gymuned leol, gan gynnwys ein:

- Diwrnodau casglu sbwriel Glanach a Gwyrddach: helpu gwirfoddolwyr i gadw'n cymuned yn lân.
- Prosiect y gamlas: gweithio gyda thrigolion i warchod a gwella ein dyfrffyrdd lleol.
- Arbenigwyr ar Gynhwysiant Digidol: cysylltu gwirfoddolwyr sy'n dwlu ar dechnoleg â'r rheiny ag angen cymorth digidol arnynt.

(Mae ein gwefan Cysylltu Torfaen yn fenter ar y cyd rhwng Cyngor Torfaen, Cynghrair Gwirfoddol Torfaen, Tai Cymunedol Bron Afon a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan).

Mae'n lle sy'n tyfu lle gall trigolion a darparwyr gwasanaethau gael rhagor o wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd yn barod yn eu cymunedau, a'r hyn sy'n cael ei ddarparu gan eu cymunedau.

Yn ogystal, er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu ein **Strategaeth Llesiant Cymunedol** - 2023-2027, mae ein timau llinell flaen yn dechrau meddwl yn wahanol am sut, pryd a pham mae cymorth yn cael ei roi i gymunedau.

Yn ogystal â defnyddio 'Cysylltu Torfaen' i hysbysebu gwasanaethau a phrosiectau'r Cyngor, yn y lle cyntaf, mae ein timau hefyd yn ceisio cefnogi ein trigolion trwy archwilio pa weithgareddau a arweinir gan y gymuned sy'n bodoli yn barod. Pan fo'n timau yn gweld nad oes unrhyw ddarpariaeth gymunedol ar gael, ond mae galw neu angen amdani, rydyn ni'n annog ein trigolion i fwydo hyn yn ôl i'n Tîm Meithrin Cymunedau Cydnerth er mwyn gweithio gyda grwpiau lleol i weld sut y gellid datblygu ymateb.

## Buddsoddi yn ein llyfrgelloedd….

Mae buddsoddi yn ein llyfrgelloedd yn bwysig oherwydd eu bod yn hybiau cynhwysol, hygyrch ar gyfer dysgu, ymgysylltu â'r gymuned, a datblygiad personol. Mae llyfrgelloedd yn rhoi mynediad am ddim i lyfrau, adnoddau digidol, a rhaglenni addysgol, gan helpu pobl o bob oed i wella'u llythrennedd, eu sgiliau a'u llesiant. Maen nhw'n cefnogi dysgu plant, yn cynnig mannau diogel ar gyfer astudio a chreadigrwydd, yn helpu oedolion i chwilio am swyddi ac yn eu helpu gyda chynhwysiant digidol a dysgu gydol oes.



Mae ein Llyfrgell yng Nghwmbrân yn gyfleuster cymunedol sy'n cael ei ddefnyddio'n dda, ac rydym wedi buddsoddi bron i hanner miliwn o bunnoedd ynddi.

Trwy gydol Haf 2024/25, cymerodd fwy na 900 o blant ran mewn sialens ddarllen flynyddol gyda llawer yn dod i'r llyfrgell, bob wythnos, i fenthyg llyfrau.

Y gobaith yw y bydd y buddsoddiad newydd hwn yn helpu i foderneiddio'r cyfleusterau a denu hyd yn oed mwy o ymwelwyr.

Mae llyfrgelloedd yn dal i fod yn ganolfannau hanfodol ar gyfer dysgu gydol oes, ymgysylltu â'r cyhoedd, a thwf personol. Bydd y gwaith adnewyddu hwn yn helpu i foderneiddio'r lle a chadw ei rôl fel adnodd croesawgar a hygyrch i bawb.

Disgwylir i'r gwaith adnewyddu gynnwys ad-drefnu'r lle presennol i ddarparu mwy o gyfleoedd ar gyfer gweithio ac astudio ystwyth, llyfrgell newydd i bobl ifanc yn eu harddegau ac ardaloedd iechyd a llesiant a gwybodaeth a chyngor penodol. Bydd dodrefn newydd a chyfleusterau digidol yn moderneiddio'r lle ac yn gwella profiad y cwsmer.

Agorodd y llyfrgell ar ei newydd wedd ym mis Mawrth 2025.

(Mae'r buddsoddiad yn dilyn cyllid blaenorol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Llyfrgelloedd Pont-y-pŵl a Blaenafon, gyda Llyfrgell Pont-y-pŵl yn cael £300,000 yn 2011 a Llyfrgell Blaenafon yn cael £100,000 pan symudodd i Ganolfan Treftadaeth y Byd yn 2015. Mae'r gwaith o adnewyddu Llyfrgell Cwmbrân yn rhan o gynlluniau ehangach i wella Tŷ Gwent dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, gan sicrhau bod y gymuned yn parhau i elwa ar fannau modern, hygyrch a chroesawgar).

## Ein Prif Heriau…

### Digidol:

**Mae angen i ni gynyddu cyfleoedd i'n trigolion ymgysylltu'n ddigidol â ni a rhoi cefnogaeth i'r rheiny sydd ddim yn ymgysylltu'n ddigidol -** mae cynyddu ymgysylltu digidol yn gofyn am blatfformau hygyrch, hawdd eu defnyddio sy'n cefnogi'r rheiny sydd heb sgiliau digidol neu fynediad. Mae pontio'r bwlch hwn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod pob un o'n trigolion yn gallu rhyngweithio â gwasanaethau yn hyderus ac yn deg, heb golli gwybodaeth neu gyfleoedd pwysig.

### Capasiti Cymunedol:

**Mae angen i ni weithio'n agosach gyda'n cynghorau cymuned i flaenoriaethu gweithgarwch ar lefel Cyngor Cymuned ynghylch yr hyn a fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i lesiant cymunedol -** mae gweithio'n agosach gyda chynghorau cymuned yn gofyn am gydweithio cryf, rhannu blaenoriaethau a chyfathrebu clir. Gall alinio gweithgareddau ar lefel leol fod yn gymhleth, ond mae'n hanfodol er mwyn sicrhau bod ymdrechion yn canolbwyntio ar yr hyn a fydd yn gwella llesiant cymunedol fwyaf ac yn adlewyrchu anghenion trigolion.

**Mae angen i ni ymchwilio a deall pa effaith y bydd ein gweithgareddau / penderfyniadau gwahanol yn ei chael ar lesiant, ar lefel leol -** mae deall effaith leol gweithgareddau a phenderfyniadau gwahanol yn gofyn am ddata dibynadwy, ymgysylltu ystyrlon, a'r gallu i fesur

llesiant mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu profiadau cymunedau. Heb y mewnwelediad hwn, mae'n anodd gwneud dewisiadau gwybodus, gwella gwasanaethau, a sicrhau bod gweithredoedd o fudd go iawn i drigolion ar lefel leol.

## AMCAN LLESIANT 5:

***Ymateb i'n hargyfyngau hinsawdd a natur, ailgylchu mwy a gwneud gwelliannau i'r amgylchedd lleol***

### Lleihau carbon….

Mae ein rhaglen waith i leihau'r defnydd o ynni, ac allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â'n hadeiladau, wedi parhau yn ystod 2024/25.

Er mwyn cefnogi'r trawsnewidiad i wresogi carbon isel, rydym wedi treialu technoleg pympiau gwres ar bump o'n safleoedd, ac mae'r rhan fwyaf o'r gwaith gosod wedi digwydd yn ystod 2024/25.

Mae cyllid grant gan Grant Gwres Carbon Isel i Awdurdodau Lleol Gwasanaethau Ynni Llywodraeth Cymru wedi helpu i osod opsiynau gwresogi carbon isel yn lle boeleri nwy yn ein Fferm Gymunedol Greenmeadow, safle Tŷ Blaen a'r Pwerdy.

Mae pwmp gwres arall wedi cael ei osod yn ein hysgol newydd yn Ysgol Gynradd Maendy, ym Mhentre' Uchaf. Dyma'r ysgol sero net lwyr gyntaf yn y Fwrdeistref ac, ochr yn ochr â'r pwmp gwres o'r aer, mae'r adeilad, sydd wedi'i leoli mewn ffordd sy'n gwneud y gorau o effeithlonrwydd ynni, wedi'i inswleiddio i lefel uchel iawn ac mae ganddo 700m$^2$ o baneli solar ffotofoltäig. Mae'r estyniad newydd i Ysgol Crownbridge hefyd yn defnyddio technoleg pympiau gwres.



SOLAR PANELS AT LLANTARNAM GRANGE- ARTS CENTRE, CWMBRAN

Er mwyn cefnogi'r broses o leihau carbon yn ehangach ar draws y Fwrdeistref, yn ystod 2024/25 cyflwynodd ein Tîm Ynni brosiect datgarboneiddio uchelgeisiol i gefnogi ein canolfannau cymunedol, canolfannau chwaraeon, elusennau a busnesau, ar draws y Fwrdeistref i leihau ôl troed carbon eu hadeiladau.

Gyda nawdd gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, mae grantiau gwerth cyfanswm o £360,000 wedi cael eu cyhoeddi i helpu sefydliadau i fuddsoddi mewn mesurau effeithlonrwydd ynni, a chynhyrchu ynni adnewyddadwy. Mae 38 o gynlluniau wedi cael eu cefnogi trwy'r prosiect, a rhagwelir arbedion cost blynyddol o dros £200,000. At ei gilydd, amcangyfrifir bod y prosiectau hyn yn arbed cyfanswm o 346 tunnell o $CO_2$ bob blwyddyn.



LED LIGHTING UPGRADE AT THE CO-STAR PARTNERSHIP, COMMUNITY CENTRE, CWMBRAN

### Gwarchod a gwella ein parciau lleol….

Mae gwarchod a gwella ein parciau lleol yn hanfodol oherwydd eu bod yn darparu mannau gwyrdd hanfodol sy'n cefnogi llesiant corfforol a meddyliol, yn annog rhyngweithio cymdeithasol, ac yn hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol. Mae parciau yn cynnig lleoedd diogel i chwarae, gwneud ymarfer corff ac ymlacio, gan helpu i wella iechyd a chydlyniant cymunedol. Maent hefyd yn cefnogi bioamrywiaeth, yn gwella ansawdd yr aer, ac yn helpu i liniaru effeithiau newid hinsawdd. Mae buddsoddi mewn parciau yn gwneud cymunedau'n fwy deniadol, cynhwysol a chydnerth, gan sicrhau bod pawb - waeth beth fo'u hoedran neu gefndir - yn gallu mwynhau buddion natur yn agos at eu cartref.

Ym mis Medi 2024, gwahoddwyd trigolion i ymateb i ymgynghoriad i helpu i lunio ein cynlluniau rheoli newydd i warchod a gwella ein parciau lleol.

Mae ffocws y cynlluniau ar annog mwy o bobl i ddefnyddio parciau, gwarchod a gwella bioamrywiaeth ac adnabod cyfleoedd i fuddsoddi a datblygu yn y dyfodol.

Yn ganlyniad, bydd gan bob un o'n parciau ei gynllun rheoli ei hun, a bydd ei ffocws ar gynnal a chadw cyfleusterau presennol ac adnabod cyfleoedd ar gyfer cyfleusterau pellach, gan fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd wrth ymgynghori â'r cyhoedd.

Mae'r parciau fel a ganlyn:

- Parc Blaenafon
- Ardaloedd hamdden Cwmbrân (Llyn Cychod, Y Caeau Uchaf a'r Caeau Isaf)
- Parc Cwmbrân
- Parc Pwll Pysgod, Tref Gruffydd
- Parc Glansychan, Abersychan
- Parc Pontnewydd
- Parc Pont-y-pŵl

Rydym yn sylweddoli bod angen i ni wneud yn siŵr ein bod yn rheoli pob agwedd ar ein parciau yn y ffordd fwyaf cynaliadwy, ond heb wybod sut mae ein trigolion yn defnyddio ein parciau a beth sydd bwysicaf iddyn nhw, allwn ni ddim cynllunio ar gyfer eu dyfodol.

Felly, bydd yr ymatebion i'r arolwg hwn yn ein helpu i greu cyfres o gynlluniau rheoli i gefnogi ceisiadau am grantiau allanol i ariannu'r gwaith o'u cyflawni, gan sicrhau bod ein parciau yn parhau i fod yn addas at eu diben.

(Rydyn ni wedi gallu paratoi ein cynlluniau rheoli diolch i gyllid o £49,120 gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU).

## Cadw ein hamgylchedd lleol yn lân ac yn daclus….

Mae cadw ein hamgylchedd lleol yn lân ac yn daclus yn hyrwyddo iechyd y cyhoedd, yn gwella balchder cymunedol, ac yn creu mannau mwy diogel, mwy deniadol i bawb eu mwynhau. Mae amgylcheddau glân yn lleihau llygredd, yn atal ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac yn cefnogi bioamrywiaeth. Maent hefyd yn cyfrannu at lesiant meddyliol ac yn annog gweithgarwch awyr agored, sydd o fudd i iechyd corfforol.

Trwy gydol 2024/25, rydyn ni wedi parhau i gynnal ein digwyddiadau gwanwyn glân blynyddol o amgylch y Fwrdeistref.

Cynhelir Gwanwyn Glân Torfaen bob blwyddyn ac mae'n gyfle i drigolion, busnesau, ysgolion ac asiantaethau eraill gynnal ymgyrchoedd codi sbwriel i helpu i lanhau ein Bwrdeistref a chreu ardaloedd di-sbwriel.

Cynhaliwyd ein hymgyrchoedd codi sbwriel ym: Mharc Pont-y-pŵl, Llynnoedd y Garn, canol tref Blaenafon, Maes Parcio Neuadd y Mileniwm Garndiffaith, canol tref Pont-y-pŵl, Coedwig Springvale, y Caeau Uchaf, Pyllau Llantarnam, Llyn Cychod Cwmbrân a chaeau Woodland Road. Dewiswyd pump o'r lleoliadau am eu bod yn addas i wirfoddolwyr â phroblemau symudedd.

Fe wnaeth bron i 100 o wirfoddolwyr fynd i'r afael â 10 man lle mae sbwriel yn bla, a chasglu cyfanswm o 57 bag o sbwriel, a 25 bag o eitemau y gellir eu hailgylchu.

Rydyn ni'n ddiolchgar i'n holl wirfoddolwyr sy'n cymryd rhan yn ein digwyddiadau Gwanwyn Glân ac yn cydnabod y gallwn wneud gwahaniaeth go iawn i lendid Torfaen trwy weithio gyda'n gilydd.

Ym mis Rhagfyr 2024, cofrestrodd wyth o'n pwyllgorau eco ysgolion cynradd hefyd ar gyfer ymgyrch Cadwch Gymru'n Daclus, i helpu i gadw cymunedau yn rhydd rhag sbwriel.

Mae ysgolion cynradd Cwmffrwdoer, George Street, Penygarn a Griffithstown, ym Mhont-y-pŵl, wedi dod yn Ardaloedd Di-Sbwriel, ynghyd â Woodlands, Llantarnam a Ffederasiwn ysgolion cynradd Ffordd Blenheim a Choed Eva yng Nghwmbrân.



Byddant nawr yn cynnal sesiynau codi sbwriel rheolaidd o amgylch tiroedd eu hysgolion. Rydyn ni wedi rhoi pecynnau casglu sbwriel i bob ysgol, yn rhan o fenter ar y cyd rhwng ein Timau Teithio Llesol a'n Timau Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon.

Dyma brosiect cyffrous sy'n canolbwyntio ar wella sut mae cymunedau lleol yn edrych ac sy'n annog mwy o bobl i ystyried cerdded neu feicio ar gyfer teithiau byr.

(Mae'r prosiect Ardaloedd Di-sbwriel teithio llesol yn cael ei ariannu gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU).

## Annog bioamrywiaeth….

Mae annog bioamrywiaeth yn hanfodol am ei bod yn helpu i gynnal ecosystemau iach, cydnerth sy'n darparu gwasanaethau hanfodol fel aer glân, dŵr a phridd ffrwythlon. Mae'n cefnogi diogelwch bwyd, yn cyfrannu at ddarganfyddiadau meddygol, ac yn cryfhau economïau trwy amaethyddiaeth a thwristiaeth. Mae amgylcheddau bioamrywiol hefyd yn gwella llesiant meddyliol ac yn gwarchod treftadaeth ddiwylliannol. Mae diogelu bioamrywiaeth yn sicrhau y gall natur barhau i gefnogi bywyd ac addasu i heriau fel newid hinsawdd a chlefydau.

Ym mis Mai 2024, fe wnaethom annog ein trigolion i gefnogi ein hymgyrch 'Mai Di-dor' i adael eu lawntiau heb eu torri trwy gydol mis Mai, i helpu bioamrywiaeth a thaclo newid hinsawdd.

Mae'n 10 mlynedd ers i'r Cyngor gyflwyno ei raglen rheoli glaswelltir yn gynaliadwy, sy'n nodi ardaloedd o dir lle mae'r glaswellt yn cael ei dorri'n llai aml, rhwng mis Ebrill a mis Hydref, er mwyn gadael i'r glaswellt a'r blodau gwyllt beillio yn ystod yr haf.

Mae grŵp Partneriaeth Natur Leol Blaenau Gwent a Thorfaen bellach yn bwriadu cynnal astudiaeth i weld pa effaith y mae'r rhaglen wedi'i chael ar niferoedd pili-palaod yn lleol.

Nawr, mae gennym 200 o ardaloedd ar draws Torfaen sy'n cael eu rheoli'n gynaliadwy, ac rydym yn gwybod eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar boblogaethau pryfed lleol. Y llynedd, fe wnaethom ddarganfod corynnod cacwn mewn clawdd ym Mhontnewynydd ac yng Ngwarchodfa Natur Leol Henllys, sef y pellaf i'r gogledd y mae'r corynnod hyn wedi cael eu cofnodi erioed. Rydyn ni hefyd wedi gweld amrywiaeth ehangach o bili-palaod byw gan gynnwys y Gwyn Blaen Oren, y Gwibiwr Bach, y Gweirlöyn Cleisiog a'r Fantell Paun.

Mae yna obaith y gellid ehangu gwarchodfa natur leol yng Nghwmbrân yn dilyn cais llwyddiannus am gyllid Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Defnyddiwyd y cyllid i brynu ardal ddôl a choetir tair erw ger Gwarchodfa Natur Leol Henllys.




Ar 25 Chwefror 2025, datganwyd dyffryn Blaenserchan yn swyddogol yn Warchodfa Natur Leol. Mae'r safle hwn yn hen safle pwll glo yn Abersychan, a oedd yn arfer bod â gweddillion tomenni sbwriel glo.

Ers hynny, mae natur wedi adennill y safle ac mae'n gartref i lawer o rywogaethau o fywyd gwyllt, gan gynnwys fflora prin, a fydd yn cael eu gwarchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Bwriedir cynnal gweithgareddau arolygu biolegol (Bioblitz) ar 5 Gorffennaf, yn ystod Wythnos Natur Cymru.

Dechreuodd gwaith ym mis Mawrth 2025 hefyd, i wella bioamrywiaeth yng Nghoed Meyric Moel. Mae’r gwaith yn cynnwys plannu gwrychoedd newydd a datblygu coridorau bywyd gwyllt naturiol, gyda chynlluniau pellach i greu llwybrau sy'n arwain at Warchodfa Natur Leol Henllys a llwybr natur, gyda chymorth Able, yng Nghwmbrân. Mae Able yn sefydliad sy'n cefnogi pobl sy'n byw gydag anableddau.

Mae'r prosiect yn cael ei gefnogi gan Bartneriaeth Natur Leol Blaenau Gwent a Thorfaen, sydd eleni yn dathlu ei phen-blwydd yn 25 oed.

(Ar hyn o bryd mae wyth Gwarchodfa Natur Leol yn Nhorfaen: yn Llynnoedd y Garn, sef y mwyaf ar hyn o bryd gyda bron i 53 hectar; Coridor Cwmafon (y llwybr beicio sy'n cysylltu Garndiffaith a Blaenafon), Tirpentwys, Chwarel Cwmynysgoi, Pyllau Springvale, Henllys, Llwyncelyn a Blaensychan.

## Lleihau ein gwastraff….

Mae lleihau ein gwastraff yn helpu i warchod yr amgylchedd, gwarchod adnoddau naturiol, a lleihau llygredd. Pan fyddwn ni'n cynhyrchu llai o wastraff, rydyn ni'n defnyddio llai o ddeunyddiau crai a llai o ynni, sy'n lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac yn arafu newid hinsawdd. Mae hefyd yn lleihau'r straen ar safleoedd tirlenwi a llosgwyr, a all niweidio ecosystemau a iechyd pobl. Trwy reoli gwastraff mewn ffordd gyfrifol - trwy ailgylchu, ailddefnyddio ac arbed – rydyn ni'n creu cymunedau glanach, mwy cynaliadwy ac yn cefnogi economi gylchol sydd o fudd i bobl a'r blaned.

### Ailgylchu mwy

Ar ddechrau mis Gorffennaf 2024, cymeradwywyd cynlluniau i gyflwyno bag ailgylchu newydd, yn rhan o ymgyrch 'Codi'r Gyfradd Ailgylchu' y Cyngor. Yn anffodus, oherwydd problemau yn y gadwyn gyflenwi, gohiriwyd cyflwyno'r cynllun hwn.



O ddiwedd mis Hydref a thrwy gydol mis Tachwedd, cafodd bob aelwyd bag ailgylchu coch newydd, taflen yn esbonio beth i'w roi yn y bag newydd, a chanllaw i wasanaeth ailgylchu wrth ymyl y ffordd llawn y Cyngor.

Mae ein bagiau coch newydd yn cael eu defnyddio ar gyfer plastig, caniau, tuniau, a chartonau ac yn cael eu casglu'n wythnosol, ochr yn ochr â blychau du, bagiau cardfwrdd a biniau gwastraff bwyd. Mae gwydr, papur, batris, a thecstilau yn dal i fynd i mewn i'r blychau du.

(Mae casglu deunyddiau i'w hailgylchu ar wahân yn cydymffurfio â Glasbrint Llywodraeth Cymru ar gyfer Casgliadau Ailgylchu).

Mae'r bagiau 90-litr yn dal mwy na'r blychau du, felly byddant yn lleihau'r angen i drigolion gael nifer o focsys a'r amser y mae'n ei gymryd i griwiau ddidoli'r deunyddiau i'w hailgylchu, wrth ymyl y palmant. Teimlir hefyd y bydd y bagiau newydd yn haws eu storio, a bydd y caeadau sy'n gallu cael eu selio yn lleihau'r sbwriel oherwydd eitemau sy'n cael eu chwythu o focsys. Maen nhw hefyd yn rhoi gwell gwerth am arian - yn costio llai i'w prynu ac yn para'n hirach.

Yn 2023, dywedodd 87 y cant o'r bobl a gymerodd ran yn ein harolwg 'Codi'r Gyfradd' y byddent yn barod i wahanu eu hailgylchu. Rydyn ni'n gwybod yn barod fod llawer o drigolion yn gwahanu eu deunydd i'w hailgylchu yn barod, mewn blychau du gwahanol, ac mae hyn yn gwneud gwahaniaeth mawr i griwiau, ond gobeithir y bydd gwelliannau pellach i'r gwasanaeth hefyd yn annog pobl i ailgylchu mwy.

Rydyn ni'n dal i gasglu cardfwrdd yn y bagiau glas, a gwastraff bwyd yn y cadi brown, bob wythnos.

(Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i awdurdodau lleol ailgylchu 70% o wastraff erbyn 2025).

### Polisi Addysg a Gorfodi Gwastraff

Ddechrau mis Rhagfyr 2024, cymeradwyodd Aelodau ein Cabinet Bolisi Addysg a Gorfodi Gwastraff, a fydd yn dod i rym yn 2025.

Bydd y polisi hwn yn helpu i gynyddu ein cyfraddau ailgylchu yn y Fwrdeistref trwy leihau faint o ailgylchu sy'n mynd i mewn i'r biniau â chloriau porffor. Mae tua 62% o'r hyn y mae trigolion yn ei roi yn eu biniau â chlawr porffor yn gallu cael ei ailgylchu.

Bydd yn canolbwyntio felly ar berchentywyr sy'n gorlenwi eu biniau â chlawr porffor neu'n gadael bagiau sbwriel ochr yn ochr â'u bin, yn ogystal â'r rheiny sydd ddim yn ailgylchu.

Yn ein harolwg 'Codi'r Gyfradd' yn 2023, dywedodd 56 y cant o'n trigolion y byddent yn cefnogi camau gorfodi yn erbyn y rheiny sydd ddim yn ailgylchu.

Yn y dyfodol, bydd ein Swyddogion Addysg a Gorfodi yn cysylltu â thrigolion, wyneb yn wyneb ac yn ysgrifenedig, i gynnig rhagor o wybodaeth a chymorth, a chamau gorfodi fydd yr opsiwn olaf.

Dros y blynyddoedd diwethaf, ar ôl llawer o waith caled, fe lwyddon ni i gyrraedd y gyfradd ailgylchu statudol o 64 y cant erbyn mis Mawrth 2024. Ond, o 2024/25 ymlaen, y targed y mae'n rhaid i ni ei gyrraedd nawr, yw 70 y cant, neu gallai'r awdurdod lleol gael dirwy gan Lywodraeth Cymru.

Rydyn ni'n hyderus, os ydyn ni'n gweithio gyda'n trigolion, y gallwn gynyddu ein cyfraddau ailgylchu, a fydd yn well i'n hamgylchedd a chenedlaethau'r dyfodol.

## Lleihau ein gwastraff bwyd….

Ym mis Hydref 2024, llwyddodd sawl un o'n hysgolion cynradd i leihau eu gwastraff bwyd draean, ar gyfartaledd, yn rhan o gystadleuaeth gan ein Gwasanaeth Arlwyo.

Lansiwyd ein cystadleuaeth 'Gwroniaid Gwastraff' y llynedd, fel ffordd o sicrhau bod y gwasanaeth prydau ysgol yn fwy cynaliadwy.

Cymerodd pedair ar ddeg o'n hysgolion ran yn y gystadleuaeth Gwroniaid Gwastraff – gan dorri eu gwastraff bwyd 33% ar gyfartaledd - 13% y cant yn fwy na'r llynedd.



Fe fu'r disgyblion yn monitro ac yn cofnodi faint o fwyd sy'n cael ei daflu i ffwrdd amser cinio ac yn cynllunio ymgyrch i gael eu cyd-ddisgyblion i leihau'r hyn maen nhw'n ei daflu i ffwrdd.

Yr enillwyr oedd disgyblion Ysgol Gymraeg Cwmbrân, a lwyddodd i leihau eu gwastraff bwyd gyfanswm o 36%. Ysgol Gynradd Cwmffrwdoer oedd yn ail.

Er mwyn helpu gyda'n huchelgais i godi ein cyfradd ailgylchu, rydyn ni'n teimlo bod dysgu am leihau gwastraff bwyd, ar oedran mor gynnar, yn bwysig. Gall helpu ein plant i ddeall o ble mae eu bwyd yn dod, dod i werthfawrogi natur yn fwy, a gwneud dewisiadau iachach wrth fwyta. Gall hefyd helpu i leihau gwastraff bwyd mewn cartrefi, ac mae hynny'n gallu helpu'r blaned ac arbed arian.

Enillodd y ddwy ysgol ddiwrnod llawn o sesiwn goginio iach, diolch i gyllid gan ein **partneriaeth BwydIDyfu**. Talodd y grŵp hefyd am gloriannau i bob ysgol a fu'n cymryd rhan yn y gystadleuaeth.

### Ein Prif Heriau…

**Addysg:**

- **Parhau i leihau gwastraff bwyd yng ngheginau ein hysgolion -** bydd lleihau gwastraff bwyd yn gofyn am newid yn arferion ein ceginau, cynllunio bwydlenni, a rheoli dognau, ac mae gweithredu hyn yn gallu bod yn gymhleth. Mae'n bwysig oherwydd mae gwella mynediad at brydau bwyd yn helpu i sicrhau bod pob plentyn yn cael ei fwydo'n dda ac yn barod i ddysgu, ac mae lleihau gwastraff yn cefnogi nodau hinsawdd ac yn defnyddio adnoddau cyhoeddus yn well

**Gwastraff ac Ailgylchu:**

**Ein nod yw cyrraedd cyfradd ailgylchu o 70 y cant. Os na fyddwn yn cyrraedd 70 y cant erbyn 2025, rydyn ni'n wynebu dirwyon o £100,000 am bob 1 y cant yn fyr yr ydyn ni, a gallai**

**hynny gael effaith ariannol ar holl wasanaethau'r Cyngor. Os na allwn godi'r gyfradd trwy newid ymddygiad, fydd gennym ni fawr o ddewis ond ailystyried newidiadau systemig.**

## AMCAN LLESIANT 6:

***Byddwn yn gwneud Torfaen yn lle gwych i fod mewn busnes, gan ddarparu gwaith teg i bawb, trwy weithio gyda chyflogwyr lleol ac undebau llafur, annog busnesau newydd a gweithgareddau entrepreneuraidd.***


### Datblygu ein Canolfan Arloesi Busnes Springboard i ddod yn hwb sy'n rhwydwaith o fannau arloesi….

Mae cefnogi busnesau gwyddoniaeth a thechnoleg twf-uchel yn bwysig oherwydd eu bod yn gyrru arloesi, yn creu swyddi â gwerth uchel, ac yn rhoi hwb i gynhyrchiant economaidd yn ein cymunedau.

Croesawodd ein Canolfan Arloesi Busnes Springboard, sydd â'r nod o gefnogi busnesau gwyddoniaeth a thechnoleg twf-uchel, 11 tenant newydd, ddiwedd mis Mawrth 2025.

Mae cyfraddau defnyddio yng Nghanolfan Arloesi Busnes Springboard bron wedi dyblu dros y ddwy flynedd ddiwethaf, o 14 tenant yn 2023 i 25 yn 2025, yn dilyn buddsoddiad gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

Mae tua £600,000 wedi cael ei ddefnyddio i ddiweddaru ac ehangu cyfleusterau yn y ganolfan yng Nghwmbrân a chynnig grantiau sefydlu am chwe mis a chymorth busnes mewnol parhaus.



Symudodd Amotio Health i un o labordai newydd y Ganolfan ym mis Hydref 2024, ar ôl edrych ar ddewis o leoliadau eraill.

Mae'r cwmni, sy'n datblygu dyfais orthopedig newydd i wella llawdriniaeth adolygu cluniau newydd, yn cyflogi pedwar o bobl ac yn disgwyl dyblu nifer ei gyflogeion dros y flwyddyn nesaf.

Yn ogystal â'r busnesau sydd wedi'u lleoli yn Springboard, mae 10 busnes arall yn defnyddio'r ganolfan fel eu cyfeiriad cofrestredig. Mae gan y Ganolfan ardal gydweithio Hwb Sbring hefyd sydd â 18 desg.

Mae rhaglen fentora newydd Spring Online, a ariennir hefyd gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, hefyd ar gael i bob busnes yn Nhorfaen. Hyd yn hyn mae'r wefan hon wedi cysylltu 85 o fusnesau sy'n chwilio am gymorth gyda 32 o fentoriaid. Mae Cam 2 yn natblygiad y cysyniad Spring Online yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan ddefnyddio cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Fe fu'r Tîm Arloesi Busnes hefyd yn cynorthwyo busnesau o fewn cymuned fusnes ehangach Torfaen i fabwysiadu technolegau newydd i wneud y busnes yn fwy cystadleuol o fewn y farchnad, trwy Grant Technoleg. Galluogodd y Gronfa Ffyniant Gyffredin 25 o fusnesau i fabwysiadu technolegau newydd a hwyluso buddsoddiad pellach o £184817.

Rydyn ni wedi ymrwymo i wneud Torfaen yn lle gwych i wneud busnes ac mae Canolfan Springboard yn enghraifft o sut y gall dod â busnesau at ei gilydd gynnig cyfle i bawb gefnogi'i gilydd a chyfleoedd i ddatblygu. Fodd bynnag, ariennir yr holl raglenni sydd ar y gweill ar hyn o bryd trwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a bydd rhaglenni yn y dyfodol yn amodol ar argaeledd cyllid allanol.

### Cefnogi ein busnesau lleol….

Mae cefnogi busnesau lleol yn cryfhau'r economi leol trwy gadw arian i gylchredeg yn y gymuned, creu swyddi, a meithrin entrepreneuriaeth. Yn aml, maen nhw'n cynnig cynhyrchion a gwasanaethau unigryw

sydd wedi'u teilwra at anghenion lleol, yn cyfrannu at gymeriad a hunaniaeth ardal, ac yn fwy tebygol o gefnogi cyflenwyr a mentrau lleol eraill. Trwy fuddsoddi mewn busnesau lleol, mae cymunedau yn magu cydnerthedd, yn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd trwy ddefnyddio cadwyni cyflenwi byrrach, ac yn hyrwyddo twf cynhwysol a chynaliadwy.

Ddiwedd mis Mai 2024, roedd busnesau yn cael cynnig cymorth digidol am ddim, mewn menter ar y cyd rhwng ein Cyngor a chwmni datrysiadau digidol lleol.



Mae'r prosiect yn cynnig cyfle i 200 o fusnesau i gael gwefan bwrpasol gyda chymorth digidol am 12 mis, cymorth gyda'r cyfryngau cymdeithasol a blwyddyn o danysgrifiad i'r ap Uddr, sy'n hyrwyddo busnesau, crefftau a gwasanaethau lleol.

Mae tua 110 o fusnesau wedi cofrestru ar gyfer y fenter yn barod, dan arweiniad gwasanaethau digidol Uddr a, hyd yn hyn, mae rhai cwmnïau wedi gweld cynnydd yn barod yn nifer yr ymholiadau gan gwsmeriaid, yn ganlyniad i'r prosiect hwn.

Ar hyn o bryd mae ein CYBI yn cynnal ymchwil er mwyn deall yn well y ffactorau sy'n cyfrannu at fethiant llawer o fusnesau lleol, o fewn eu tair blynedd gyntaf.

(Mae'r prosiect yn cael ei ariannu gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU ac mae'n dilyn menter debyg rhwng ein Cyngor ac Uddr yn 2022, a ariannwyd gan y Gronfa Adfywio Cymunedol. Mae Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn biler canolog yn agenda Ffyniant Bro llywodraeth y DU ac mae'n darparu £2.6 biliwn o gyllid i'w fuddsoddi'n lleol erbyn mis Mawrth 2025. Nod y gronfa yw gwella balchder yn ein bro a chynyddu cyfleoedd bywyd ar draws y DU gan fuddsoddi mewn cymunedau a lleoedd, cefnogi busnesau lleol, a phobl a sgiliau).




Ddiwedd 2024, dathlodd ein Marchnad Dan Do ym Mhont-y-pŵl 130 mlynedd o fod wrth galon canol y dref.

Mae'r garreg filltir hon yn nodi dros ganrif o hanes cyfoethog ac ysbryd cymunedol ac mae'n ganolbwynt ar gyfer siopa wythnosol. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, fodd bynnag, ac yn enwedig yn dilyn pandemig COVID-19, mae arferion siopa wedi esblygu, gan arwain at ddirywiad mewn marchnadoedd traddodiadol a chanol trefi.

Mewn ymateb i'r newidiadau hyn, rydym felly wedi adolygu'r cynllun busnes ar gyfer Marchnad Dan Do Pont-y-pŵl ac wedi gofyn i'n trigolion lleol gymryd rhan mewn arolwg i roi eu barn, eu syniadau a'u hadborth i oleuo ein cynllun busnes newydd a gwella'r farchnad.

Ein nod yw datblygu arlwy newydd a fydd yn sicrhau bod y farchnad yn parhau i fod yn rhan fywiog ac annatod o'r dref a'i chymuned.

Yn rhan o'r arolwg hwn, fe fuon ni'n holi trigolion a ydyn nhw'n defnyddio'r farchnad dan do, am beth maen nhw'n ei defnyddio, a beth fyddai'n ychwanegiad da ati yn eu barn nhw, er mwyn cynyddu nifer yr ymwelwyr.

Wrth i ni edrych i'r dyfodol, rydyn ni wedi ymrwymo i adfywio'r farchnad a'i gwneud yn gyrchfan ffyniannus unwaith eto.

## Cefnogi ein mentrau cymdeithasol….

Mae cefnogi mentrau cymdeithasol yn bwysig oherwydd eu bod yn defnyddio busnes i fynd i'r afael â heriau cymdeithasol ac amgylcheddol, ail-fuddsoddi elw mewn cymunedau a chreu cyfleoedd cynhwysol. Maen nhw'n helpu i fynd i'r afael â materion fel anghydraddoldeb, diweithdra, a chynaliadwyedd, ac yn cryfhau economïau lleol a gwasanaethau cyhoeddus. Trwy gefnogi mentrau cymdeithasol, rydyn ni'n hyrwyddo arloesedd, cydnerthedd, a chymdeithas decach.

Ddiwedd mis Gorffennaf 2024, fe wnaethom gynnig grantiau i wyth o'n mentrau cymdeithasol, i helpu i sicrhau eu sefydlogrwydd ariannol hirdymor.

Amcangyfrifir bod mwy na 30 o fentrau cymdeithasol yn Nhorfaen, gan gynnwys darparwyr gofal cymdeithasol, prosiectau ailgylchu a chwmnïau bwyd cydweithredol. Yn draddodiadol, mae'r busnesau hyn yn dibynnu ar grantiau tymor byr, ochr yn ochr â mathau eraill o gyllid.

Nawr, mae wyth grant o hyd at £50,000 wedi'u cynnig, ochr yn ochr â phecyn o hyfforddiant a chymorth gyda'r nod o nodi cyfleoedd newydd ar gyfer incwm cynaliadwy.

Cynhaliwyd ein Her Menter Gymdeithasol gan ein Tîm Meithrin Cymunedau Cydnerth ac roedd hefyd yn cynnwys help i ddatblygu model cynaliadwyedd 12-mis.

Dyma gyfle gwych i'n mentrau cymdeithasol i wneud gwahaniaeth parhaol i'w sefydliadau a'r cymunedau lleol y maent yn eu gwasanaethu ac mae hefyd yn anelu at eu helpu i ddod yn fwy annibynnol ac yn llai dibynnol ar botiau cyllid byrdymor, er mwyn iddynt allu creu newid go iawn a chynaliadwy.

## Cefnogi busnesau newydd ac entrepreneuriaid….

Mae cefnogi busnesau newydd ac entrepreneuriaid yn tanio arloesi, yn creu swyddi, ac yn ysgogi twf economaidd mewn cymunedau. Maen nhw'n dod â syniadau ffres, yn gyrru cystadleuaeth, ac yn aml yn ymateb yn gyflym pan fydd anghenion y farchnad yn newid. Trwy gefnogi busnesau newydd ac entrepreneuriaid, gall cymunedau arallgyfeirio eu heconomïau, denu buddsoddiad, a meithrin cydnerthedd. Mae annog entrepreneuriaeth hefyd yn grymuso unigolion, yn meithrin creadigrwydd, ac yn helpu i ddatblygu atebion i heriau cymdeithasol ac amgylcheddol.

Fe wnaethom lansio cwrs newydd ym mis Medi 2024, i unrhyw un sy'n sefydlu eu busnes eu hunain yn Nhorfaen.

Roedd ein rhaglen 8-wythnos yn cwmpasu meysydd fel: datblygu cysyniadau busnes, brandio, marchnata, gwerthu a chyllid.

Cynhaliwyd y cyrsiau yn ein Canolfan Addysg Gymunedol yng Nghroesyceiliog, yng Nghwmbrân ac maent yn cynnwys mewnwelediad gan arbenigwyr o'r diwydiant ac entrepreneuriaid lleol.

Roedd y Rhaglen Cychwyn Busnes am ddim yn fenter ar y cyd rhwng ein Tîm Ymgysylltu â Busnesau a'r academi hyfforddiant busnes 'Welsh Ice'.

Rydyn ni'n gwybod bod cyfoeth o dalent heb ei ffrwyno yn ein hardal, a gobeithiwn y bydd y rhaglenni hyn yn rhoi'r arweiniad a'r gefnogaeth berthnasol sydd eu hangen ar unigolion i wireddu eu syniadau.



(Mae'r rhaglen yn rhan o'r Prosiect Cymorth Busnes sydd wedi cael £218,000 gan Lywodraeth y DU trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU)
.

Rydyn ni eisiau helpu ein stryd fawr i dyfu trwy fuddsoddi a chefnogi busnesau lleol, a dyna pam rydyn ni'n teimlo bod cyrsiau fel y rhain mor bwysig.

Mae ein Tîm Economi Sylfaenol wedi cael llwyddiant yn barod ym Marchnad Dan Do Pont-y-pŵl sydd wedi gweld nifer y stondinau'n cynyddu ac wedi cefnogi busnesau newydd i ddechrau ym Mlaenafon.

Mae ein Tîm Bwyd Cynaliadwy hefyd yn datblygu rhwydwaith o gynhyrchwyr, cyflenwyr a gwerthwyr bwyd lleol i helpu manwerthwyr newydd ac amrywiol i ffynnu yng nghanol ein trefi."

(Mae'r cwrs Cychwyn Busnesau Manwerthu, Bwyd a Stryd Fawr, "Clwb 5-9", yn rhan o fenter yr Economi Sylfaenol sydd wedi cael £95,000 yn 2024/25 gan lywodraeth y DU trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU).

## Gyrru twf economaidd….

Mae gyrru twf economaidd yn arwain at fwy o swyddi, incwm uwch, a safonau byw gwell. Mae'n cynyddu refeniw cyhoeddus, sy'n cefnogi gwasanaethau hanfodol fel gofal iechyd, addysg a seilwaith. Mae twf economaidd hefyd yn denu buddsoddiad, yn annog arloesi, ac yn helpu cymunedau i ddod yn fwy cydnerth yn erbyn heriau ariannol. Trwy feithrin economi gref a chynhwysol, gallwn greu cyfleoedd i bobl a busnesau ffynnu.

Ddiwedd mis Hydref 2024, cynhaliwyd digwyddiad i arweinwyr busnesau, darparwyr hyfforddiant a chynrychiolwyr y Cyngor gwrdd i drafod ffyrdd o uwch-sgilio ein gweithlu lleol i fodloni anghenion economi arloesi gystadleuol ac i nodi'r heriau a'r atebion posibl.



Trefnwyd y digwyddiad gan ein Fforwm Economaidd Strategol Torfaen, sy'n cynrychioli busnesau mawr yn y Fwrdeistref, ac mae'n dilyn arolwg o gwmnïau a gynhaliwyd gennym y llynedd, a nododd ddiffyg sgiliau a hyfforddiant fel elfen sy'n atal twf.

Teimlwyd bod hwn yn ddigwyddiad cadarnhaol gyda llawer o gwmnïau lleol newydd yn bresennol.

Mae ein Strategaeth Economi a Sgiliau yn nodi gweledigaeth ar gyfer economi arloesol gystadleuol yn Nhorfaen, sy'n golygu gweithio gydag arbenigwyr yn y diwydiant i nodi rhwystrau ac atebion i annog mewnfuddsoddiad a thwf.

Yn ganlyniad i'r digwyddiad hwn, cytunwyd y dylai gweithio'n agosach gydag ysgolion i feithrin dyheadau gyrfa pobl ifanc, cefnogi pobl ddi-waith i deimlo'n gadarnhaol ynglŷn â dychwelyd i'r gweithle a datblygu sectorau sgiliau arbenigol fod yn ffocws allweddol i'w cynnwys mewn cynllun gweithredu i'w fonitro.

(Sefydlwyd ein Fforwm Economaidd Strategol Torfaen yn 2018 i yrru datblygiad economaidd yn Nhorfaen. Ariannwyd gweithdy sgiliau a hyfforddiant Fforwm Economaidd Strategol Torfaen diolch i £3,000 gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU).

## Ein Prif Heriau…

### Yr Economi:

**Ar hyn o bryd cyfradd chwyddiant y DU yw 2.2%, Cyfradd Sylfaenol y Banc yw 5% ac, oherwydd amrywiaeth o ddigwyddiadau annisgwyl, gwelwyd anwadalrwydd economaidd byd-eang trwy gydol 2023-2024. Bydd sut y mae economi'r DU yn perfformio dros y 12 mis nesaf yn dal i ddylanwadu i ryw raddau ar berfformiad economaidd yn Nhorfaen a'r Rhanbarth ehangach yn y dyfodol. Yn anochel, byddai cyfnod parhaus pellach o anwadalrwydd yn cyflwyno heriau parhaus i'r gallu i dyfu /ehangu busnesau, er bod cynnydd yn cael ei wneud trwy'r mesurau a nodir uchod i gynnig rhywfaint o gefnogaeth a chydnerthedd i'n heconomi leol.**

**Mae dadansoddiad diweddar o Fynegai Cystadleurwydd y DU (UKCI) yn dangos bod pob Awdurdod Lleol yn ardal Cymoedd y Gogledd wedi gwella'u safleoedd ac eithrio Torfaen, a syrthiodd o'r 336ain i'r 346ain safle rhwng 2019 a 2023. Y meysydd gwelliant allweddol a nodwyd ar gyfer Torfaen, ac felly'r heriau sy'n flaenoriaeth ar gyfer rhaglenni datblygu economaidd a**

**sgiliau y Cyngor yn y dyfodol, yw gwella ein lefelau cymharol is o fusnesau newydd sy'n seiliedig ar dechnoleg a darparu lefelau uwch o gyfleoedd datblygu sgiliau ar NVQ Lefel 4 ac uwch.**

**Ar hyn o bryd mae disgwyl i Raglen Ffyniant Bro Llywodraeth y DU, sy'n cynnwys y Gronfa Ffyniant Gyffredin, ddod i ben ym mis Mawrth 2025 ac mae llawer o brosiectau a rhaglenni twf economaidd/cymorth busnes ar draws y Rhanbarth yn cael eu hariannu o'r ffynonellau hyn ar hyn o bryd. Rhoddwyd cyllid interim yn ei le yn lle'r cyllid hwn ar gyfer y flwyddyn 2025-2026 ond ar ôl hynny mae yna ansicrwydd o hyd ynghylch beth fydd yn dod yn lle'r cyllid hwnnw a sut y bydd y cyllid hwnnw (os bydd cyllid ar gael o gwbl) yn cael ei ddosbarthu.**

**Y Gyfarwyddiaeth Economi a Lleoedd Gyffredinol:**

**Mae ein model cyngor ffederal a gymeradwywyd yn ddiweddar yn cyflwyno cyfle unigryw i ail-fframio ein gweledigaeth a'n blaenoriaethau ar gyfer yr economi a lle ar gyfer Cyngor Blaenau Gwent a Thorfaen. Mae gwaith wedi dechrau yn barod i ddatblygu strategaeth gyffredinol "Glasbrint ar gyfer Twf" sy'n anelu at uchafu cyfleoedd i fuddsoddi, wedi'u hadeiladu ar nodweddion unigryw lleol y ddwy ardal a'u lleoliad strategol yn y rhanbarth, ac adeiladu cymunedau bywiog, a'u cynnal, ar yr un pryd, trwy ein rhaglen creu lleoedd.**

**Bydd y strategaeth hon yn darparu'r fframwaith ar gyfer sefydlu meysydd gwaith a blaenoriaethau yn y dyfodol i sicrhau ein bod yn cael yr effaith fwyaf, ac yn gweithredu'n gadarn o fewn ein hadnoddau ariannol a dynol ar yr un pryd.**

**Dyma ein blaenoriaethau a'n heriau allweddol ar gyfer 25/26:**

- ***Datblygu Glasbrint ar gyfer Twf a chytuno arno – bydd hyn yn gofyn am alinio blaenoriaethau amrywiol rhanddeiliaid, ffeindio'n ffordd trwy ffactorau allanol cymhleth ac ansicr, a sicrhau cydbwysedd rhwng uchelgais ac adnoddau cyfyngedig. Mae'r broses yn gofyn am ddata cadarn, ymgysylltu effeithiol, ac arweinyddiaeth gref i reoli safbwyntiau gwahanol, sicrhau cefnogaeth, a sicrhau bod y cynllun yn strategol ac yn gallu cael ei gyflawni o dan graffu cyhoeddus a gwleidyddol.***
- ***Bydd sefydlu rhaglenni gwaith a chanlyniadau o dan y pedwar piler – Buddsoddi, Creu Lleoedd, Cynllunio ac Eiddo – yn her allweddol oherwydd yr angen am aliniad clir ar draws meysydd amrywiol a rhyng-ddibynnol. Mae pob piler yn cynnwys amcanion cymhleth, hirdymor sy'n gofyn am gynllunio cydgysylltiedig, cydweithredu ar draws adrannau, a lefel gyson o adnoddau. Mae sicrhau cydbwysedd rhwng blaenoriaethau sy'n cystadlu, sicrhau ymgysylltiad â rhanddeiliaid, a diffinio canlyniadau mesuradwy sy'n adlewyrchu uchelgais strategol ac anghenion lleol, yn cymhlethu'r dasg ymhellach.***
- ***Bydd datblygu strwythur staff priodol i gyflawni'r Glasbrint ar gyfer Twf ar draws y ddau gyngor yn her oherwydd yr angen i alinio capasiti'r sefydliadau, sgiliau ac adnoddau â gweledigaeth strategol a rennir. Bydd hefyd yn golygu ffeindio'n ffordd trwy drefniadau llywodraethu, diwylliannau gweithlu, a modelau gweithredu gwahanol, gan sicrhau bod y strwythur yn ddigon hyblyg i gefnogi cydweithio ar draws y Cynghorau, atebolrwydd a chyflawni hirdymor.***

## AMCAN LLESIANT 7:

***Hybu bywydau mwy iach yn Nhorfaen er mwyn gwella llesiant meddyliol a chorfforol***

### Helpu pobl i fyw bywydau iachach a gwella llesiant meddyliol a chorfforol….

### Deall Dementia

Mae deall dementia yn helpu i greu cymunedau cynhwysol, cefnogol lle gall pobl sy'n byw gyda dementia deimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu parchu a'u deall. Mae'n hyrwyddo ymwybyddiaeth, yn lleihau stigma, ac yn annog amgylcheddau sy'n galluogi unigolion i gadw'u hannibyniaeth a'u hurddas mor hir â phosibl. Trwy ddeall dementia, rydyn ni'n gwella mynediad at wasanaethau, yn meithrin tosturi, ac yn cryfhau cysylltiadau cymdeithasol - ac mae hynny o fudd i'r rheiny sy'n byw gyda dementia a'u teuluoedd, eu gofalwyr, a'r gymuned ehangach.

Mae mwy na thri chwarter miliwn o bobl yn byw gyda dementia ar hyn o bryd yn y DU ac mae disgwyl y bydd un o bob tri ohonom yn datblygu'r cyflwr ar ryw adeg yn ein bywydau.

Ddiwedd mis Ebrill 2024, lansiwyd rhaglen chwaraeon arloesol, gyda'r nod o gefnogi'r rheiny sy'n byw gyda dementia i ail-fyw eu hoff chwaraeon a'u helpu i fyw bywydau hapusach a mwy egnïol.

Mae dros 50 o bobl sy'n byw gyda dementia, a'u gofalwyr, wedi cofrestru ar gyfer y Rhaglen Chwaraeon sy'n Deall Dementia, sy'n cael ei rhedeg gan Age Connect Torfaen, mewn partneriaeth â'n Tîm Datblygu Chwaraeon.

Hyd yn hyn, mae cyfranogwyr wedi cymryd rhan mewn golff sy'n deall dementia yng Nghlwb Golff Greenmeadow, yn ogystal â sesiynau wythnosol yn y gampfa gyda Srength & Performance Wales, ac mae tenis â chymorth wedi'i gynllunio ar gyfer misoedd yr haf.

Yn ôl yr ymchwil gall ymarfer corff rheolaidd gynnal gweithrediad gwybyddol yn ogystal â gwella llesiant corfforol a meddyliol i bobl â dementia, a'u gofalwyr.

Mae'r gweithgareddau rydyn ni wedi'u sefydlu yn rhoi cyfle i gyfranogwyr i roi cynnig ar rywbeth newydd, neu ddechrau diddordeb personol yr oedden nhw'n arfer ei garu unwaith eto, ac mae'n darparu buddion corfforol, emosiynol a chymdeithasol sy'n gysylltiedig â gweithgarwch corfforol. Trwy gydweithio â darparwyr cymunedol lleol, gan gynnwys Clwb Golff Pontnewydd a Strength & Performance Wales, ein gweledigaeth yw grymuso mwy o bobl sy'n byw gyda dementia i gymryd rhan weithgar mewn chwaraeon a mwynhau ansawdd bywyd gwell.

## Cefnogi Ffitrwydd Pobl dros 60 oed….

Mae cefnogi gweithgareddau ffitrwydd i'n trigolion hŷn yn helpu i gynnal iechyd corfforol, symudedd ac annibyniaeth, gan leihau'r risg o gyflyrau cronig fel clefyd y galon, diabetes, ac osteoporosis. Mae ymarfer corff rheolaidd hefyd yn rhoi hwb i lesiant meddyliol, yn trechu unigrwydd, ac yn gwella gweithrediad gwybyddol. Trwy annog ffyrdd o fyw egnïol, rydyn ni'n gwella ansawdd bywyd, yn lleihau'r straen ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, ac yn helpu oedolion hŷn i gadw mewn cysylltiad â'u cymunedau.




Ddiwedd mis Mai 2024, lansiwyd ein hymgyrch 'Ffynnu - Bywyd Llawn a Llewyrchus' sef gweithgaredd iechyd newydd, dan arweiniad ein Tîm Datblygu Chwaraeon, sy'n anelu at roi egni o'r newydd i drigolion sy'n 60 oed neu'n hŷn, i gadw'n iach ac yn actif wrth iddynt heneiddio.

Yn ôl adroddiad gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, mae disgwyliad oes iach i fenywod yn Nhorfaen tua 55 oed, ac mae disgwyliad oes iach i ddynion yn 60 oed - y ddau yn is na chyfartaledd Cymru sy'n 62 oed.

Er mwyn helpu i leihau'r bwlch iechyd hwn, mae ein sesiynau 'Ffynnu' yn cael eu cynnig ym Mlaenafon, Cwmbrân a Phont-y-pŵl, ac yn cynnwys gweithgareddau yn y gadair, ymarfer corff ysgafn, cylchedau a dawns.

Gellir cynnig cymorth ariannol hefyd i grwpiau yn y gymuned sy'n hyrwyddo iechyd a chynhwysiant cymdeithasol, trwy'r gweithgareddau chwaraeon a chymdeithasol amrywiol y maent yn eu cynnig.

Hyd yn hyn, mae grwpiau wedi cael cymorth i gaffael ar offer, rhentu cyfleusterau, a thalu costau hyfforddwyr.

Mae'r rhaglen hon yn hyrwyddo gweithgarwch corfforol gydol oes mewn amrywiaeth o ffurfiau, gyda'r nod o rymuso ein poblogaeth dros 60 oed i fyw bywydau actif ac atal ffyrdd o fyw eisteddog.

## Annog ein trigolion i fod yn iach….

Mae helpu pobl i fyw bywydau iachach a gwella eu llesiant meddyliol a chorfforol yn gwella ansawdd bywyd, yn lleihau'r risg o salwch cronig, ac yn lleihau'r straen ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae iechyd da yn cefnogi cynhyrchiant, dysgu a chyfranogiad cymdeithasol, ac mae llesiant meddyliol gwell yn meithrin cydnerthedd, perthnasoedd cryfach, a chydlyniant cymunedol. Trwy hyrwyddo dewisiadau ac amgylcheddau iachach, gallwn adeiladu cymdeithas sy'n fwy actif, cynhwysol a ffyniannus.

### Hyrwyddo gweithgarwch corfforol

Rydyn ni wedi ymrwymo fel sefydliad i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a helpu plant i gael y dechrau gorau mewn bywyd.

Ym mis Awst 2024, lansiwyd ein 'Llyfrgell Fenthyg', sy'n cael ei rhedeg gan ein Gwasanaeth Llyfrgell, mewn partneriaeth â'n Tîm Datblygu Chwaraeon. Nod y fenter hon yw hyrwyddo gweithgarwch corfforol, trwy ddarparu mynediad hawdd at offer chwaraeon, i drigolion o bob oedran.



Mae'r llyfrgell fenthyg yn gweithio fel benthyg llyfrau ac mae'r offer sydd ar gael yn cynnwys dewis eang o chwaraeon, gan gynnwys badminton, pêl-fasged, boccia, bocsio, cyrlio, criced, pêl-droed, golff mini, pêl-rwyd, pêl-bicl, rownderi, rygbi, tenis bwrdd a thenis.

Mae offer ffitrwydd hefyd ar gael i'w defnyddio gartref neu mewn lleoliad priodol.

Bydd y fenter hon yn helpu i gyflwyno pobl a theuluoedd i chwaraeon newydd, heb y gost o brynu offer newydd ar unwaith. Bydd hefyd yn helpu i ailddefnyddio eitemau a allai gael eu taflu i ffwrdd fel arall.

Ym mis Gorffennaf, lansiodd ein Tîm Datblygu Chwaraeon fenter newydd ar y cyd â Chynghorau Cymuned Blaenafon a Chwmbrân, i sefydlu 'Ystafelloedd Citiau Cymunedol' sy'n cynnig offer a dillad chwaraeon am ddim, i deuluoedd ar incwm isel. Fe fuon ni'n gofyn i drigolion lleol a oedd ganddynt unrhyw ddillad neu esgidiau chwaraeon o ansawdd da nad oedd eu hangen arnynt mwyach, er mwyn eu rhoi i'n 'Ystafelloedd Citiau Cymunedol', mewn ymgais i sicrhau bod ymarfer corff yn fwy hygyrch a fforddiadwy. Ers cyflwyno'r llyfrgell fenthyg a'r ystafelloedd citiau cymunedol mae dros 120 o deuluoedd wedi cael mynediad at y cyfleusterau, a bydd mwy o leoliadau cymunedol yn cynnig ystafelloedd citiau.

### Darparu cyfleusterau chwaraeon newydd

Ddechrau mis Hydref, aethom ati i fwrw ymlaen â chynlluniau i drawsnewid hen gyrtiau tenis segur ym Mlaenafon, yn gyfleuster chwaraeon aml-bwrpas newydd.

Uwchraddiwyd y cyrtiau tenis wedi'u hadnewyddu yn ardal gêmau aml-ddefnydd, sy'n addas ar gyfer tenis, pêl-fasged a phêl-rwyd. Daw hyn mewn ymateb i'r galw cynyddol am bêl-fasged a phêl-rwyd yn yr ardal, a amlygwyd gan arolwg chwaraeon ysgol-gyfan ac a adleisiwyd gan drigolion sy'n byw yng Nghymuned Blaenafon.

Mae'r ardal gêmau newydd yn cynnwys system dechnoleg giât, sy'n gadael i ddefnyddwyr logi'r cyrtiau ar-lein, trwy system Spark Clwb Tennis Cymru.



Y gobaith yw y bydd y dull hwn yn gwella profiad y defnyddiwr a hefyd yn helpu i ddiogelu'r cyrtiau rhag ymddygiad gwrthgymdeithasol a fandaliaeth.

Rydyn ni wedi ymrwymo i hyrwyddo chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn y gymuned trwy sicrhau bod mwy o bobl yn ymgysylltu â gweithgareddau iach ac ehangu cyfleoedd i gymryd rhan. Mae'r gefnogaeth allweddol gan y gymuned leol wedi bod yn hanfodol wrth wthio'r datblygiad hwn yn ei flaen ac edrychwn ymlaen at yr effaith gadarnhaol y bydd y cyfleuster chwaraeon gwell hwn yn ei chael wrth i'r gymuned leol ei fwynhau.

(Mae'r datblygiad newydd hwn yn dilyn gwaith i adnewyddu cyrtiau ym Mharc Cwmbrân a Pharc Pont-y-pŵl yn ddiweddar, a gafodd gyfanswm o £220,000 gan y Gymdeithas Tenis Lawnt, Chwaraeon Cymru, Cyngor Torfaen, ac arian Adran 106).

## Annog llesiant trwy ffyrdd actif o fyw….

Ddiwedd mis Hydref 2024, agorodd ymgynghoriad a oedd yn gwahodd trigolion i roi eu barn am weithgareddau chwaraeon, hamdden a ffitrwydd lleol.

Mae'r arolwg yn rhan o'n hymrwymiad i wella llesiant trwy ffyrdd actif o fyw, yn ogystal â'r potensial i drawsnewid ardaloedd yn gyrchfan hamdden flaenllaw. Trwy ddeall anghenion a dymuniadau ein preswylwyr, gallwn roi cyfle iddynt i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol sy'n hyrwyddo ffordd iachach o fyw.

Mae buddion gweithgarwch corfforol ar gyfer iechyd meddwl a chorfforol wedi'u dogfennu'n dda ond nid yw graddau cyfranogiad lleol yn glir.

Mae'r ymgynghoriad hwn, felly, yn anelu at adnabod y chwaraeon a'r gweithgareddau y mae pobl yn eu mwynhau a sut maen nhw'n eu darganfod. Mae hefyd yn ceisio adnabod meysydd lle mae diffyg darpariaeth a deall y rhwystrau sy'n atal cyfranogiad.

Roedd yr adborth yn hanfodol wrth lunio ein 'Strategaeth Chwaraeon a Hamdden Llesiant Cymunedau'. Nod y strategaeth hon yw sicrhau bod cyfleoedd hamdden yn fwy hygyrch, cefnogi talent chwaraeon neilltuol, ac amlygu effaith gadarnhaol chwaraeon a hamdden ar lesiant yn gyffredinol.

Rydyn ni eisiau sicrhau bod Torfaen yn dod yn gyrchfan hamdden flaenllaw yn y dyfodol, gan gynnwys defnyddio ei thirwedd naturiol i ddenu ymwelwyr ar gyfer gweithgareddau a digwyddiadau amrywiol. Mae cefnogi clybiau chwaraeon lleol i ddod yn hybiau cymunedol a sicrhau bod y cyfleusterau iawn yn y mannau iawn, yn elfennau allweddol o'n gweledigaeth.

Ym mis Rhagfyr 2024, cymeradwyodd a mabwysiadodd y Cabinet ein Strategaeth Chwaraeon a Hamdden, fel pennod atodol yn ein Strategaeth Llesiant Cymunedol, sy'n rhoi fframwaith strategol i ni ar gyfer cefnogi gweithgarwch cymunedol a hyrwyddo llesiant.

Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar sut y gallwn ddefnyddio cyfleusterau a darpariaeth bresennol i adeiladu ein cynnig ataliol, eu cefnogi i ddatblygu a darparu atebion lleol ac yn ei dro cryfhau cydnerthedd cymunedau ac unigolion.




Ddiwedd mis Mawrth 2025, cyhoeddwyd y bydd y fenter gymdeithasol Halo Leisure - sydd wedi ennill gwobrau - yn darparu gwasanaethau hamdden yn Nhorfaen

Mae'n nodi dechrau partneriaeth 10-mlynedd newydd gyda Halo yn dilyn contract blaenorol gydag

Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen.

Bydd yr elusen yn cymryd awenau'r cyfleusterau hamdden yn Stadiwm Cwmbrân, Canolfannau Byw Egnïol ym Mhont-y-pŵl a Bowden, Canolfan Hamdden Fairwater a Snowsport Torfaen.

Fel sefydliad nid-er-elw, rydyn ni'n disgwyl i Halo roi pobl o flaen elw a gwneud gwahaniaeth cadarnhaol a hirdymor i iechyd ein trigolion trwy annog gweithgarwch corfforol a ffyrdd iachach o fyw.

Bydd y bartneriaeth hon yn cyfrannu tuag at ein dyheadau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a chreu cymunedau iachach, hapusach.

(Dros yr 20 mlynedd diwethaf, mae Halo wedi rheoli gwasanaethau hamdden ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful, Caerloyw, Swydd Henffordd, Swydd Amwythig, Stratford a Wiltshire).

## Buddsoddi yn ein hysgolion i annog ffyrdd actif o fyw a llesiant….

Mae buddsoddi yn ein hysgolion yn helpu plant i ddatblygu arferion iach gydol oes, yn gwella iechyd corfforol a meddyliol, ac yn gwella dysgu a datblygiad cymdeithasol. Mae ysgolion actif hefyd yn hyrwyddo cynhwysiant, yn lleihau anghydraddoldebau iechyd, ac yn cryfhau cysylltiadau cymunedol trwy gynnwys teuluoedd a sefydliadau lleol. Mae'r buddsoddiad hwn yn cefnogi poblogaeth iachach, mwy cydnerth, ac yn cyfrannu at fuddion cymdeithasol ac economaidd hirdymor.

Mae bron i £4m wedi'i fuddsoddi mewn amrywiaeth o gyfleusterau chwaraeon newydd yn Ysgol Abersychan.

Cwblhawyd gwaith ar faes 3G newydd gwerth £2.2m yn 2024/25. Mae'r cyfleusterau'n cynnwys maes 3G wedi'i adeiladu i safonau World Rugby a FIFA, llifoleuadau a stondin ar gyfer gwylwyr, ac mae hefyd ar gael i'w logi gan y gymuned o fis Ebrill 2025.




Mae gwaith hefyd yn cael ei wneud i drawsnewid yr hen ganolfan hamdden, sydd ar safle'r ysgol, yn neuadd chwaraeon ac ystafelloedd newid wedi'u hadnewyddu a stiwdio ddawns bwrpasol, a bydd pob un ar gael i'w llogi gan y gymuned, drwy'r ysgol.

Bydd y cyfleusterau hyn o fudd i ddisgyblion Ysgol Abersychan a hefyd i blant ac oedolion sy'n chwarae i glybiau pêl-droed a rygbi lleol, neu sy'n rhan o glybiau chwaraeon eraill.

Mae'n un o dri maes 3G newydd yn y Fwrdeistref, ochr yn ochr â maes 3G newydd yn Ysgol Gymraeg Gwynllyw, a agorodd yn Hydref 2024 a maes yn Llantarnam, y mae disgwyl ei gwblhau yng ngwanwyn 2025.

(Mae'r maes 3G newydd wedi'i ariannu gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU a Sefydliad Pêl-droed FAW Cymru. Mae'r stiwdio ddawns newydd, y neuadd chwaraeon, yr ystafelloedd newid a'r ganolfan ADY wedi'u hariannu gan gyfuniad o gyllid o Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU a grant ADY Llywodraeth Cymru. Talwyd am y cyrtiau pêl-rwyd newydd gan gronfa Ysgolion Bro Llywodraeth Cymru).

## Ein Prif Heriau…

### Addysg:

**Cwblhau'r cyfleusterau 3G ar gyfer yr ysgol a'r gymuned yn Nhrefddyn, Llantarnam ac Abersychan –** bydd hyn yn gofyn am gydlynu'r cynllunio, y cyllid a'r adeiladu o fewn amserlenni tynn. Mae'r cyfleusterau hyn yn bwysig er mwyn gwella mynediad at gyfleoedd chwaraeon a hamdden o ansawdd uchel, gan gefnogi canlyniadau addysgol a llesiant cymunedol.

### Chwaraeon a Hamdden:

- **Datblygu fframwaith strategol cliriach ar gyfer ein buddsoddiad mewn chwaraeon a hamdden yn Nhorfaen -** heb fframwaith strategol clir, efallai y bydd diffyg cyfeiriad, cysondeb ac aliniad ag anghenion a blaenoriaethau cymunedol ehangach mewn penderfyniadau am fuddsoddi mewn chwaraeon a hamdden.
- **Ystyried ein dull o gomisiynu gwasanaethau chwaraeon a hamdden -** mae ein dull comisiynu yn dylanwadu'n uniongyrchol ar ansawdd gwasanaethau, gwerth am arian, a pha mor dda y mae'r ddarpariaeth chwaraeon a hamdden yn bodloni anghenion cymunedau Torfaen. Mae hyn yn bwysig oherwydd mae'r ffordd yr ydym yn comisiynu gwasanaethau chwaraeon a hamdden yn dylanwadu ar hygyrchedd, cynhwysiant a chynaliadwyedd hirdymor cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol a llesiant ar draws Torfaen.

## AMCAN LLESIANT 8:

***Cefnogi ein diwylliant a'n treftadaeth lleol a gwneud Torfaen yn lle ffyniannus, diogel a deniadol i fyw ac i ymweld ag ef***

### Cefnogi ein diwylliant a'n treftadaeth lleol….



Mae cefnogi diwylliant a threftadaeth yn bwysig oherwydd ei fod yn cynnal hunaniaeth, hanes a gwerthoedd cymunedau, gan feithrin ymdeimlad o berthyn a balchder. Mae'n cyfoethogi bywydau trwy greadigrwydd, adrodd straeon, a rhannu traddodiadau, a hefyd yn cyfrannu at addysg, twristiaeth, a'r economi leol. Trwy fuddsoddi mewn mentrau diwylliannol a threftadaeth, rydym yn cryfhau cydlyniant cymdeithasol, yn hyrwyddo amrywiaeth, ac yn sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn gallu dod i gyswllt â'r gorffennol a dysgu ohono.

Ddiwedd mis Gorffennaf 2024, cymeradwyodd Aelodau ein Cabinet benderfyniad i benodi cwmni adeiladu i ddechrau ar waith ailddatblygu gwerth £3.7m ar ein Fferm Gymunedol Greenmeadow.

Dyfarnwyd y contract i G Oakley and Sons yn dilyn proses dendro gystadleuol ac mae'n nodi'r cam nesaf yn y gwaith o adnewyddu, adfywio ac ailagor Fferm Gymunedol Greenmeadow.

Y llynedd, cymeradwyodd cynghorwyr fuddsoddiad ychwanegol ar gyfer ailddatblygu'r Fferm hefyd, a fydd yn cynnwys:

- tŷ Gwair wedi'i ailwampio sy'n addas i ddigwyddiadau cymunedol gan gynnwys priodasau a phartïon
- ysgubor chwarae dan do newydd ar gyfer pob tywydd gydag offer chwarae ac ardal chwarae antur awyr agored newydd
- ysgubor anifeiliaid newydd
- caffi newydd ac estynedig
- siop fferm well i hyrwyddo cynnyrch a chyflenwyr lleol
- tirlunio deniadol gyda choetir, llwybrau cerdded a llwybrau synhwyraidd
- gwelliannau i fynedfa'r Fferm a hygyrchedd y safle.

Sicrhawyd grant ychwanegol o £1.647m yn gynharach yn 2024, i dalu am gost system wresogi ynni-effeithlon newydd, ochr yn ochr â £183k o arian cyfatebol o gronfa hinsawdd y Cyngor.

Ddiwedd mis Medi 2024, dechreuodd y gwaith adeiladu ar ailddatblygu Fferm Gymunedol Greenmeadow, gyda'r nod o agor fis Medi 2025.

Mae dechrau'r gwaith adeiladu hwn yn garreg filltir bwysig ar y daith i ailagor y cyfleuster.

## Buddsoddi yng nghanol ein trefi….

Mae buddsoddi yng nghanol ein trefi yn adfywio economïau lleol, yn cefnogi busnesau bach, ac yn creu mannau bywiog, deniadol i bobl fyw, gweithio a chymdeithasu. Mae hefyd yn helpu i warchod cymeriad a threftadaeth lleol, yn annog twristiaeth, ac yn cryfhau balchder cymunedol.

### Canol Tref Pont-y-pŵl

Ym mis Rhagfyr 2024, cymeradwyodd Aelodau'r Cabinet gynllun i ddefnyddio cyllid gan Lywodraeth y DU, a ddyrannwyd i Ganol Tref Pont-y-pŵl, i uwchraddio rhan o rwydwaith carthffosiaeth y dref.

Mae bron i £1 miliwn wedi'i glustnodi ar gyfer gwella canol trefi, diolch i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Defnyddiwyd hyd at £528,000 i uwchraddio'r rhwydwaith carthffosiaeth o dan Hanbury Road, a bydd y gwaith hwn yn hanfodol ar gyfer unrhyw ddatblygiadau pellach yn yr ardal yn y dyfodol.



Mae'r gwaith dylunio manwl ar gyfer y Gronfa Ffyniant Bro wedi amlygu mater capasiti sy'n dod i'r amlwg yn ymwneud â'r rhwydwaith carthffosiaeth yn ardal Hanbury Road ym Mhont-y-pŵl. Heb uwchraddio'r rhwydwaith carthffosiaeth, mae'n debygol y byddai cyfyngiad ar brosiectau adfywio yn yr ardal yn y dyfodol.

Y gwir oedd ein bod naill ai'n buddsoddi yn y prosiect hwn, neu'n rhwystro gwaith adfywio yn y dyfodol yn y rhan honno o'r dref.

Ym mis Ionawr 2025, gwahoddwyd ein trigolion i weithdy i roi eu syniadau i ni ar gyfer sut y gellid trawsnewid Canol Tref Pont-y-pŵl.

Y nod yw sefydlu grŵp canol y dref a all ein helpu i gyflawni'r uchelgeisiau a nodir yng Nghynllun Creu Lleoedd Pont-y-pŵl, yn ogystal â syniadau eraill. Roeddem yn teimlo y byddai hwn yn gyfle unigryw i bawb gael eu lleisiau wedi eu clywed a chael effaith go iawn ar ddyfodol ein tref. Trwy ddod at ein gilydd a rhannu ein gweledigaeth, gallwn greu canol tref fywiog, ffyniannus sy'n adlewyrchu anghenion a dyheadau pawb sy'n byw ac yn gweithio yma.

(Cronfa Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru sy'n talu am y digwyddiadau hyn ac maen nhw'n cael eu cyflwyno mewn partneriaeth â Chyngor Torfaen a Cwmpass).

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae Canol Tref Pont-y-pŵl wedi elwa ar dros £400,000 o gyllid grant sydd wedi helpu i alluogi adnewyddu dau eiddo gwag a sicrhau bod modd eu defnyddio unwaith eto.

(Mae Pont-y-pŵl yn un o 11 prosiect yn unig yng Nghymru sydd wedi cael £7.6 miliwn o Gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU i gyflawni prosiect Hwb Diwylliannol ac Ardal Caffis Pont-y-pŵl gwerth £9.3 miliwn).

Mae Sadwrn Bwyd Stryd Marchnad Dan Do Pont-y-pŵl, sef y rhaglen o ddigwyddiadau ar gyfer yr haf, a grantiau ar gyfer busnesau newydd ar y stryd fawr, hefyd yn rhai o'r mentrau eraill a gefnogir gan brosiect canol y dref y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

### Canol Tref Cwmbrân

Yn ystod 2023, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ddyraniad o £20 miliwn ar gyfer Canol Tref Cwmbrân, yn rhan o'i Chynlluniau Hirdymor ar gyfer Canol Trefi.

Bydd y cynllun hirdymor gwerth £20 miliwn yn sicrhau buddsoddiad dros gyfnod o 10 mlynedd i yrru gwelliannau i ganol trefi a chwalu rhwystrau sy'n atal adfywiad. Mae'r ffin ar gyfer y buddsoddiad yn cynnwys canol tref Cwmbrân a chymdogaethau cyfagos.

Bydd ein gweledigaeth 10-mlynedd yn nodi'r blaenoriaethau tymor hwy ar gyfer y dref ac yn datblygu cynllun buddsoddi 3 blynedd a fydd yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth y DU, cyn Awst 2024. Bydd cyfuniad o gyllid cyfalaf a refeniw yn cael ei ddefnyddio i gefnogi prosiectau sy'n canolbwyntio ar 3 thema fuddsoddi allweddol:

- Diogelwch a Diogeledd
- Y Stryd Fawr, Treftadaeth ac Adfywio
- Trafnidiaeth a Chysylltedd.

Ym mis Ebrill 2024, y cam diweddaraf wrth ddatblygu'r cynllun hwnnw oedd sefydlu Bwrdd Buddsoddi Tref Cwmbrân, a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ym mis Mai.

Mae'r gyfran fwyaf o'r Bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr busnesau a chymunedau lleol a chynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus, gan gynnwys gwleidyddion lleol. Prif amcan y Bwrdd fydd datblygu'r cynllun hirdymor a gweithio'n agos gyda phobl leol.

Ddechrau mis Tachwedd 2024, gwahoddwyd trigolion i ddweud eu dweud am gyfres uchelgeisiol o brosiectau posibl ar gyfer canol tref Cwmbrân.

Mae Cynllun Creu Lleoedd Cwmbrân yn cyflwyno sawl cynnig ar gyfer y 10 mlynedd nesaf, gan gynnwys mannau cyhoeddus, llwybrau cerdded a beicio gwell a mwy i'w wneud gyda'r nos.

Mae'r cynllun hefyd yn tynnu sylw at sut y gallai amrywiaeth o gyllid cyhoeddus, preifat a thrydydd sector helpu i wireddu'r weledigaeth.

Mae'r Cynllun Creu Lleoedd ar gyfer canol tref Cwmbrân yn weledigaeth feiddgar ar gyfer y dyfodol. Nid yw'r cynllun hwn yn ymwneud â datblygu yn unig; mae'n ymwneud â chreu lle cymunedol bywiog, cynhwysol a chynaliadwy sy'n diwallu anghenion trigolion ac ymwelwyr. (Cymeradwyodd ein cynghorwyr Gynlluniau Creu Lleoedd ar gyfer Blaenafon a Phont-y-pŵl yn 2022).

## Cadw ein mannau cyhoeddus yn lân….

Mae cadw ein mannau cyhoeddus yn lân yn diogelu'r amgylchedd, yn hyrwyddo iechyd y cyhoedd, ac yn gwella ymddangosiad ein cymunedau, a'u diogelwch. Mae mannau glân yn annog pobl i dreulio amser yn yr awyr agored, cefnogi busnesau lleol, ac ymfalchïo yn y mannau o'u cwmpas. Maen nhw hefyd yn helpu i leihau llygredd, yn annog pobl i beidio â gollwng sbwriel a fandaleiddio, ac yn creu awyrgylch mwy croesawgar a chynhwysol i bawb.

Mae **Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus** yn helpu cynghorau lleol i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn mannau cyhoeddus fel ardaloedd chwarae plant a chaeau chwaraeon.

Ar hyn o bryd mae tri Gorchymyn o'r fath ar waith yn ein Bwrdeistref sy'n ymwneud â chŵn, ac mae'n rhaid eu hadolygu bob tair blynedd. Dyma beth yw'r rhain:

- Baw cŵn: mae hwn yn Orchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus sydd ar waith ar draws y Fwrdeistref, ac yn ei gwneud yn drosedd i fethu â chael gwared ar faw cŵn oddi ar unrhyw dir y mae gan y cyhoedd fynediad iddo.
- Ardaloedd Gwahardd Cŵn: mae 140 o ardaloedd yn y Fwrdeistref lle mae cŵn wedi'u gwahardd, gan gynnwys tir ysgolion, ardaloedd chwarae i blant a chaeau chwaraeon wedi'u marcio. Mae cŵn hefyd wedi'u gwahardd o ardal fridio cornchwiglod ger Gwarchodfa Natur Llynnoedd Garn.
- Ardaloedd Cadw Cŵn ar Dennyn: mae'n drosedd hefyd i adael ci oddi ar dennyn mewn ardaloedd penodol, gan gynnwys Llynnoedd y Garn, Llyn Cychod Cwmbrân, a holl fynwentydd ein Cyngor.



Yn rhan o'n hadolygiad, roeddem hefyd yn awyddus i ddarganfod a oedd ein trigolion yn dal i gefnogi'r Gorchmynion sydd ar waith ar hyn o bryd, neu a oeddent am weld unrhyw newidiadau, neu'n credu y dylid eu dileu.

Agorwyd ein hymgynghoriad ddiwedd Gorffennaf 2024 a dyma grynodeb lefel-uchel o ganfyddiadau'r ymgynghoriad:

- Roedd 80.3% o blaid cadw'r ardaloedd gwahardd cŵn
- Roedd 83.9% o blaid cadw'r ardaloedd cadw cŵn ar dennyn
- Nid oedd 68.6% yn teimlo bod y Gorchymyn yn cael ei orfodi'n briodol
- Nid oedd 58% yn teimlo bod y Gorchymyn yn ddigon o rwystr

Roedd y canfyddiadau cyffredinol yn debyg i ganfyddiadau'r ymgynghoriad blaenorol dair blynedd ynghynt, sef bod y Gorchymyn cyfredol ddim yn cael ei orfodi'n gadarn.

Mae ein Tîm Gorfodi Sifil yn gyfrifol am orfodi'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus ar gyfer mesurau rheoli cŵn yn Nhorfaen, ac mae'r Tîm Gweithrediadau Amgylcheddol yn ymateb i geisiadau i gael gwared ar faw cŵn oddi ar dir cyhoeddus. Deallir bod Torfaen yn un o ddau gyngor yn unig yng Nghymru y mae eu swyddogion gorfodi sifil yn cyflawni dwy rôl orfodi, sef gorfodi parcio a gorfodi amgylcheddol.


Ym mis Tachwedd 2024, cymeradwyodd Aelodau ein Cabinet amrywiad i'r Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus (y Gorchymyn) cyfredol ar gyfer mesurau rheoli cŵn yn Nhorfaen i wahardd cŵn o unrhyw gaeau chwaraeon wedi'u marcio ac ardaloedd chwarae i blant ar dir cyhoeddus, sydd wedi'u datblygu ers mis Tachwedd 2021. Fe wnaethant hefyd gytuno bod cyflwyno mesurau rheoli cŵn ychwanegol, yn unol â'r adborth a gafwyd yn rhan o'r ymgynghoriad, yn cael eu harchwilio a'u hasesu.

Mae'r Gorchmynion hyn yn offeryn pwysig yn ein brwydr i gadw ein mannau cyhoeddus yn lân ac yn ddiogel i bawb eu defnyddio. (Cyflwynwyd Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus yn rhan o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona 2014. Mae yna arwyddion ymhob ardal sy'n dod o dan Orchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus sy'n esbonio'r gofynion i annog pobl i gydymffurfio â nhw, a manylion sut i riportio achosion o dorri'r rheolau pan fyddant yn digwydd. Mae torri Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus yn drosedd, ac mae sancsiynau posibl yn cynnwys Hysbysiad Cosb Benodedig o £100 neu ddirwy o hyd at £1,000 am euogfarn).

## Atal sbwriel a thipio anghyfreithlon….

Mae tipio anghyfreithlon yn drosedd amgylcheddol ddifrifol ac yn costio swm sylweddol i drethdalwyr. Mae'n edrych yn annymunol, ond gall fod yn beryglus hefyd, yn enwedig i blant ac anifeiliaid, ac mae'n cael effaith niweidiol ar ein hamgylchedd.

Trwy gydol 2024, rydyn ni wedi parhau i weithio ar fentrau ar y cyd gyda'n sefydliadau partner a'n cymunedau i ddod o hyd i'r bobl hynny sy'n tipio'n anghyfreithlon ac i gymryd camau gorfodi, lle bo hynny'n briodol.




O gymharu â'r llynedd (23/24), er gwaethaf y cynnydd yn nifer **yr achosion o dipio anghyfreithlon** yr adroddwyd amdanynt, rydyn ni wedi cynnal ein perfformiad o ran clirio tipio anghyfreithlon o fewn 5 diwrnod gwaith. **% y gwastraff a dipiwyd yn anghyfreithlon sy'n cynnwys tystiolaeth o ble y daeth, a arweiniodd at gymryd camau anffurfiol** - mae ein perfformiad hefyd yn edrych yn gadarnhaol yn y maes hwn, er bod yn rhaid i ni dynnu sylw at y ffaith fod y ffigurau hyn ar raddfa lawer llai o gymharu â chyfanswm nifer y digwyddiadau yr adroddwyd amdanynt, fel y dangosir yn y tabl isod.

**<u>% y gwastraff a dipiwyd yn anghyfreithlon sy'n cynnwys tystiolaeth o ble y daeth, a arweiniodd at gymryd camau anffurfiol</u>**

| | 24/25 | 23/24 | 22/23 | 21/22 | 20/21 |
|---|---|---|---|---|---|
| **% yr adroddiadau am wastraff wedi'i dipio'n anghyfreithlon, lle ceir tystiolaeth o'r troseddwr, a arweiniodd at gamau gorfodi** | **100%** | **100%** | **100%** | **55.56%** | **44.07%** |
| **Nifer yr adroddiadau am wastraff wedi'i dipio'n anghyfreithlon, lle ceir tystiolaeth o'r troseddwr, a arweiniodd at gamau gorfodi** | 21 | 3 | 9 | 10 | 26 |
| **Cyfanswm nifer yr adroddiadau am wastraff wedi'i dipio'n anghyfreithlon, lle ceir tystiolaeth o'r troseddwr** | 21 | 3 | 9 | 18 | 59 |

Mae nifer o achosion a gafodd gyhoeddusrwydd yn ystod 2024 wedi dangos na fyddwn ni a'n Cynghorau cyfagos yn goddef tipio anghyfreithlon ac y byddwn yn cymryd camau cadarn yn erbyn y rheiny yr ydym yn eu cael yn gyfrifol. Rydyn ni'n gobeithio, trwy barhau i roi cyhoeddusrwydd i'r erlyniadau gwahanol yr ydym wedi'u dilyn i fyny, y bydd hyn yn parhau i anfon neges glir i'r rheiny sy'n ymddwyn mor anghyfrifol, i ddisgwyl wynebu canlyniadau difrifol.

## <u>Ein Prif Heriau…</u>

### <u>Adfywio Canol Trefi:</u>

**Symud prosiectau'r Gronfa Ffyniant Bro ymlaen i'r cam cyflawni a sicrhau eu bod yn cyflawni'r manteision a fwriedir i Bont-y-pŵl -** bydd cyflawni prosiectau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn effeithiol yn hanfodol i adfywio Pont-y-pŵl a sicrhau bod y buddsoddiad yn cyflawni'r manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a fwriedir ar gyfer y gymuned.

### <u>Y British:</u>

**Datblygu cynllun hyfyw i'r cam cynllunio -** mae hyn yn gofyn am sicrhau cydbwysedd rhwng gwarchod treftadaeth, dichonoldeb ariannol, a budd cymunedol - a ffeindio'n ffordd trwy reoliadau cynllunio a disgwyliadau rhanddeiliaid.
Mae hyn yn bwysig oherwydd gall cynllun sydd wedi'i ddatblygu'n dda ddatgloi cyfleoedd adfywio, denu buddsoddiad, a sicrhau bod y British yn dod yn ased cynaliadwy a gwerthfawr ar gyfer dyfodol Pont-y-pŵl.

**Y Gamlas:**

- **Cynhyrchu Uwchgynllun ar gyfer basn 5 Loc ochr yn ochr â gweithredu'r rhaglenni gwirfoddoli ehangach -** bydd cynhyrchu Uwchgynllun ar gyfer Basn Camlas 5 Loc a gweithredu rhaglenni gwirfoddoli yn gofyn am gydlynu cynllunio strategol hirdymor â gweithgarwch a arweinir gan y gymuned, gan sicrhau bod y ddau yn cyd-fynd ac yn cael effaith ystyrlon.
- **Dod o hyd i gyllid grant addas i alluogi dyluniadau i gael eu datblygu ar gyfer croesfan ffordd 5 Loc -** bydd sicrhau cyllid grant addas yn hanfodol i symud y cynllun hwn o'r cysyniad i'r cam dylunio, ond yn aml mae cystadleuaeth sylweddol am ffynonellau cyllid, ac maen nhw'n gyfyngedig, ac yn gofyn am gynigion wedi'u datblygu'n dda sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau strategol. Heb y cyllid hwn, gallai cynnydd ar wella cysylltedd a diogelwch yn yr ardal gael ei ohirio neu ei stopio.


## AMCAN LLESIANT 9:

***Darparu gwasanaethau effeithlon sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid a hynny i adlewyrchu'r ffordd y mae pobl yn byw eu bywydau ac yn dymuno cael mynediad at wasanaethau***

Mae darparu gwasanaethau effeithlon, sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid, a hynny i adlewyrchu sut mae pobl yn byw ac yn dymuno cael mynediad at gymorth, yn sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch, yn gynhwysol ac yn ymatebol i anghenion go iawn. Mae'n helpu i feithrin ymddiriedaeth ymhlith ein cwsmeriaid, yn gwella boddhad, ac yn annog ymgysylltu trwy gynnig opsiynau hyblyg - boed ar-lein, wyneb yn wyneb, neu trwy sianeli cymunedol. Trwy alinio ein gwasanaethau â ffyrdd o fyw pobl, gallwn leihau rhwystrau, gwella canlyniadau, a gwneud gwasanaethau cyhoeddus yn fwy effeithiol a theg i bawb.

Mabwysiadwyd ein Strategaeth Cwsmeriaid 'Digidol yn Gyntaf' ym mis Mai 2023 a'i nod yw defnyddio datrysiadau digidol a mewnwelediadau data i wella profiad y cwsmer a'n heffeithlonrwydd gweithredol.

Trwy gydol 2024/25, mae amrywiaeth o weithgarwch wedi bod ar y gweill, i wella'r gwasanaethau digidol rydyn ni'n eu cynnig ymhellach a chael mynediad at gymorth i'w defnyddio.




Mae'r gwaith hwn yn cynnwys gwneud gwelliannau parhaus i'n ffurflenni a'n prosesau digidol, cyflwyno platfform Canolfan Gyswllt newydd, a rhoi cymorth TGCh a Digidol i drigolion yn ein llyfrgelloedd.

Egwyddor ‘digidol yn gyntaf', yw y gall y rheiny sy'n gallu trafod gyda'r Cyngor yn ddigidol, wneud hynny trwy wasanaethau hawdd eu defnyddio. Dydy hyn ddim yn golygu "digidol yn unig" felly bydd darpariaeth dros y ffôn a wyneb yn wyneb ar gael o hyd. Mae hefyd yn ceisio sicrhau bod ein cwsmeriaid yn cael eu cefnogi i ddatblygu'r sgiliau a'r mynediad at ddyfeisiau a chysylltedd i ymgysylltu'n ddigidol, os mai dyna yw eu dewis.

Ym mis Awst 2024, cawsom adroddiad gan Archwilio Cymru am ein Strategaeth Ddigidol. Archwiliodd yr adolygiad ein hagwedd strategol at yr elfen ddigidol, gyda ffocws penodol ar ba mor dda y mae'n cyd-fynd â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Darparodd Archwilio Cymru gyfres o argymhellion penodol ynghylch adnabod adnoddau i gyflawni ein strategaeth, gwella trefniadau ar gyfer monitro ac adolygu ein strategaeth a chryfhau cyfleoedd i ymgysylltu. Mae'r argymhellion hyn yn cael sylw a bydd adroddiad am gynnydd trwy ein Pwyllgorau Craffu yn 2025/26. Mae copi llawn o'r adroddiad ar gael **yma.**

## Gwasanaethau Digidol

Ar hyn o bryd mae gennym dros 200 o ffurflenni digidol ar gael trwy ein gwefan a'n ap ar gyfer cyflwyno ceisiadau am wasanaethau (Saesneg a Chymraeg).

Mae ffurflenni ar gael 24/7 ac yn cael eu trosglwyddo i'r maes gwasanaeth perthnasol, ar unwaith. Mae gwaith yn mynd rhagddo i uno systemau fel bod cwsmeriaid yn cael mewnwelediad gwell i statws eu cais a'r hyn sy'n cael ei wneud, gan osgoi'r angen i gwsmeriaid gysylltu yn ôl â'r Cyngor i gael gwybod.

Dros y chwe blynedd ddiwethaf, gwelwyd lefelau uchel o geisiadau am wasanaethau gan gwsmeriaid sy'n defnyddio'r wefan a/neu ap MCS.

Dydy'r data ar gyfer 2020/21 a 2021/22 ddim yn cael eu hystyried fel data perthnasol, gan eu bod yn rhychwantu cyfnod Covid-19, pan ddarparwyd nifer o wasanaethau dros dro/newydd yn ystod y cyfnod hwnnw gan gynnwys ceisiadau am: Ffurflenni Gweithwyr Allweddol, Parseli Bwyd, Cais i Ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol Am Ddim, Ffurflenni Archebu ar gyfer y Fferm Gymunedol, Trefnu Slot yn y Canolfannau Ailgylchu ayb.


Fodd bynnag, mae'r data'n dangos bod y cynnydd yn y defnydd o wasanaethau digidol yn ystod Covid-19 wedi cael ei gynnal o 2022/23 ymlaen, yn enwedig o'i gymharu â lefelau hunanwasanaeth, cyn Covid-19. Roedd canran y ceisiadau am wasanaethau a gyflwynwyd ar-lein gan gwsmeriaid o gymharu â'r rhai a godwyd ar ran cwsmer dros y ffôn neu wyneb yn wyneb gan Gofal Cwsmeriaid, yn 71% yn 2024/25. Mae hyn yn cymharu â 74% yn 2022/2023. Mae hyn yn bwysig gan fod cysylltiad clir rhwng argaeledd, effeithiolrwydd a'r defnydd o'n gwasanaethau digidol, a rheoli'r galw a Pherfformiad Gofal Cwsmeriaid. Er enghraifft, trwy gefnogi ac annog cwsmeriaid i hunanwasanaethu'n ddigidol trwy wefan a/neu ap y Cyngor, gall adnoddau Gofal Cwsmeriaid ganolbwyntio'n fwy ar gefnogi cwsmeriaid sydd wedi'u hallgau'n ddigidol, neu'r rheiny sydd ag anghenion mwy cymhleth, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb (trwy ein darpariaeth apwyntiadau).

## Gofal Cwsmeriaid – Galw Torfaen


Mae'r rhan fwyaf o alwadau a dderbynnir gan ein canolfan gyswllt Gofal Cwsmeriaid yn ymwneud â'r gwasanaethau canlynol:

- Gwasanaethau Oedolion a Bathodynnau Glas
- Refeniw
- Budd-daliadau
- Yr Economi a'r Amgylchedd
- Etholiadau
- Galwadau yn y Gymraeg
- Ymholiadau gan Aelodau


Mae perfformiad ein Canolfan Gofal Cwsmeriaid yn cael ei fonitro a'i reoli trwy ddefnyddio metrigau safonol canolfan gyswllt, er enghraifft: Amseroedd Aros Cyfartalog a Chyfraddau Gadael Galwadau:




O gymharu â'r llynedd**, mae cyfanswm nifer y galwadau a dderbyniwyd** wedi cynyddu. Y peth mwyaf cadarnhaol i adrodd amdano hefyd yw, er gwaethaf cynnydd yn nifer y galwadau a dderbyniwyd, mae nifer y galwadau sy'n cael eu hateb hefyd yn uwch, sy'n dangos profiad gwell i gwsmeriaid.





Allwn ni ddim cymharu nifer y **galwadau a adawyd** dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gan fod y ffordd yr ydym yn cyfrifo hyn wedi newid, oherwydd gweithredu system deleffoni newydd, ym mis Hydref 2024. Cyn hyn, doedden ni ddim yn cynnwys galwadau a adawyd o fewn 60 eiliad, ond ers hynny rydyn ni wedi lleihau hyn i <15 eiliad.




Er bod yr **amser aros cyfartalog** wedi cynyddu, mae nifer y galwadau a atebwyd wedi cynyddu hefyd. Gyda chyflwyno'r platfform teleffoni newydd, cyflwynwyd cyfleuster ffonio yn ôl yn lle'r system neges llais a oedd ar wasanaethau oedolion / galwadau am Fathodynnau Glas. Mae’r ffigyrau'n awgrymu bod cwsmeriaid yn hapus i aros i gael eu hateb, felly rydyn ni’n bwriadu adolygu'r mesur hwn yn 25/26.

Mae'r adborth gan gwsmeriaid sy'n cysylltu â Galw Torfaen yn uniongyrchol, yn gadarnhaol iawn ac yn gyffredinol yn sgorio 5 (Ardderchog). Fodd bynnag gellid gwneud gwelliannau trwy uno prosesau swyddfa gefn yn well, gan mai dyma lle mae sylwadau negyddol yn cael eu hadlewyrchu.




Wrth symud ymlaen, rydyn ni’n bwriadu cyflwyno opsiwn i bob cwsmer sy'n cysylltu â Galw Torfaen, i optio i mewn i roi adborth, ar ôl i swyddogion drafod eu galwad. Bydd hyn yn darparu canlyniadau amser real, yn seiliedig ar brofiad y cwsmer, a bydd hefyd yn cael ei weithredu ochr yn ochr ag awdurdodau lleol eraill fel Blaenau Gwent, Sir Fynwy a Chasnewydd, a fydd yn ein galluogi i feincnodi yn erbyn ein gilydd yn y dyfodol.

Mae ymdrech cwsmeriaid yn ceisio gweld pa mor hawdd y mae cwsmer yn ei chael i gwblhau eu rhyngweithio/trafodiad â'n Cyngor a gall nifer o ffactorau ddylanwadu ar hyn, sydd ddim o reidrwydd o fewn rheolaeth ein Tîm Gofal Cwsmeriaid – Galw Torfaen.

Mae mewnwelediad o adborth a gafwyd trwy gydol 24/25, yn amlygu bod cwsmeriaid yn cael trafferth wrth geisio dod o hyd i wybodaeth ar-lein a chwsmeriaid ddim yn cael diweddariadau am wasanaethau. Felly,

mae gwaith yn parhau i ddatblygu ein gallu i hysbysu cwsmeriaid yn awtomatig am ddiweddariadau mewn rhai meysydd prysur, fel priffyrdd, goleuadau stryd, draenio a choed, trwy integreiddio systemau meysydd gwasanaeth â'n CRM.

Mae gwaith pellach hefyd yn cael ei wneud i ddadansoddi a rhannu canfyddiadau â meysydd gwasanaeth, i ddatblygu gweithgareddau a mewnwelediadau gweithredadwy, a fydd yn gwella profiad y cwsmer o 2025/2026.

I gloi, mae ein ffocws parhaus ar ddull digidol yn gyntaf sydd â ffocws ar y cwsmer, i reoli'r galw gan gwsmeriaid, yn parhau i gefnogi gwelliannau ym mhrofiad y cwsmer a'r ffordd yr ydyn ni’n cyflawni'n weithredol. Trwy weithredu ein Strategaeth Cwsmeriaid Digidol yn Gyntaf, rydyn ni wedi parhau i wella ein dewisiadau hunanwasanaeth a chynnal cymorth gynhwysol ar gyfer y rheiny sydd ag anghenion mwy cymhleth ar yr un pryd. Mae'r defnydd o offerynnau ac atebion digidol sy'n esblygu, fel Deallusrwydd Artiffisial, systemau a phrosesau mwy unedig, mecanweithiau adborth gwell, a gwelliannau parhaus i wasanaethau yn adlewyrchu ein hymrwymiad i roi preswylwyr wrth galon y gwaith o ddylunio ein gwasanaethau.

Wrth i ni gamu i mewn i 2025/26, rydyn ni wedi ymrwymo o hyd i ddefnyddio data a mewnwelediad i wella profiad cwsmeriaid ymhellach a sicrhau bod ein gwasanaethau yn hygyrch, yn deg ac yn cyd-fynd ag anghenion ein cymunedau.

**Ein Prif Heriau…**

**Trawsnewid Digidol:**

**Mae trawsnewid digidol yn her allweddol oherwydd ei fod yn ei gofyn i sefydliadau ailfeddwl yn sylfaenol sut maen nhw'n gweithredu, yn darparu gwasanaethau, ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae'n golygu mabwysiadu technolegau newydd, a hefyd newid siâp prosesau, uwchsgilio staff, a goresgyn gwrthwynebiad diwylliannol i newid. Oherwydd cymhlethdod integreiddio systemau modern â seilwaith hŷn, sicrhau diogelwch data, ac alinio ymdrechion i drawsnewid â nodau strategol, mae'n daith heriol sy'n aml yn tarfu tipyn.**

**Er mwyn cyflawni ein strategaeth bydd gofyn gweld buddsoddiad wedi'i dargedu, naill ai ar sail buddsoddi i arbed neu trwy ail-fuddsoddi'r arbedion effeithlonrwydd a nodwyd, trwy ein cynllun cyflawni blynyddol. Bydd achosion busnes yn cael eu datblygu yn unol â'n prosesau llywodraethu ar gyfer rheoli prosiectau.**

**Byddwn hefyd yn archwilio cyfleoedd i sicrhau cyllid grant ychwanegol i gefnogi ein huchelgeisiau.**

**Wrth symud ymlaen, ein nod yw cyflymu'r broses o drawsnewid gwasanaethau dan arweiniad digidol trwy fanteisio ar yr offerynnau sydd ar gael, gan alluogi staff i fabwysiadu ffyrdd mwy digidol o weithio. Er mwyn dangos effaith, byddwn yn cymhwyso ein fframwaith Buddion a Gwerth yn gyson i ddal buddion trawsnewidiadau digidol a'u cyfathrebu.**

## Ein blaenoriaethau a'n heriau ar gyfer y flwyddyn i ddod

Trwy gydol yr adran hon yn ein hadroddiad, rydyn ni wedi nodi nifer o heriau yr ydyn ni’n eu hwynebu sy'n gysylltiedig â phob un o'n hamcanion llesiant. Bydd angen goresgyn y rhain arnom er mwyn i ni wireddu ein huchelgeisiau. Er mwyn symud ymlaen â'n huchelgeisiau yn y flwyddyn sydd i ddod, rydyn ni wedi cyhoeddi cynllun cyflawni ar gyfer 2025/26.

Mae ein cynllun cyflawni ar gyfer 2025/26 wedi cael ei ddatblygu gan ystyried heriau allweddol newydd a rhai sy'n bodoli yn barod, a'r cynnydd a wnaed yn erbyn ein Cynllun Cyflawni ar gyfer 2024/25.

Mabwysiadwyd ein **Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2025/26** gan y Cyngor a'i gyhoeddi ym mis Chwefror 2024. Mae'n rhoi ein huchelgeisiau ar waith wrth i ni symud i'r cam nesaf o gyflawni ein Cynllun Sirol. Mae'r dull gweithredu blynyddol hwn o Gynllunio'n Sirol yn golygu y bydd ein cynlluniau yn y dyfodol yn ailadroddus ac yn ystwyth, gan ystyried unrhyw fentrau, heriau a chyfleoedd newydd sydd wedi codi y gellir ymateb iddynt, trwy gydol oes y Cynllun Sirol.

Trwy gydol y flwyddyn, byddwn yn defnyddio ein dull o fonitro'r gwaith o gynllunio gwasanaethau i fonitro ein cynnydd yn rheolaidd a'i ddangos, er mwyn tystio lwyddiant ein huchelgeisiau. Bydd hyn yn elfen ganolog wrth i ni wireddu ein dyheadau.

## b. Torfaen: Dod yn Gyngor Rhagorol

Mae'n bwysig i'r sefydliad ein bod yn adolygu'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu ar gyfer ein trigolion a'n busnesau, a'r effaith y maent yn ei chael, ond yn fwy na hynny rhaid i ni hefyd sicrhau bod ein prosesau a'n systemau mewnol ein hunain yn gweithio'n dda, gan sicrhau ein bod yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i ni mor effeithlon ac effeithiol â phosibl, gyda mesurau rheoli, systemau a phrosesau cadarn i gefnogi pob agwedd ar weithgarwch y Cyngor.

Roedd datblygu ein Cynllun Sirol yn bwysig wrth osod ein blaenoriaethau a'n hymrwymiadau, ond heb amodau penodol wedi'u diffinio ar gyfer y sefydliad, fyddwn ni fyth mor effeithiol ag y gallwn fod wrth gyflawni'r holl ganlyniadau yr ydyn ni'n ceisio'u cyflawni.


Er mwyn cefnogi'r ymdrech hon, fe wnaethom ddatblygu fframwaith sy'n cynnwys cyfres o 8 nodwedd, a ddefnyddiwyd gennym i ddiffinio sut olwg sydd ar Gyngor rhagorol er mwyn asesu ein perfformiad yn eu herbyn (***gweler y diagram isod***). Mae'r fframwaith hwn yn darparu strwythur yr ydyn ni wedi'i ddefnyddio, ochr yn ochr â'n Cynllun Sirol, i ddarparu ffocws ar gyfer datblygiad y sefydliad ac i ddatblygu ein hunanasesiad blynyddol. Dyma'r drydedd flwyddyn o adrodd, yn erbyn ein Nodweddion sy'n Diffinio Cyngor Rhagorol.

Datblygwyd y fframwaith ar gyfer Cyngor Rhagorol gan ystyried yr hyn sy'n bwysig o'n persbectif ni ein hunain, ond rydyn ni hefyd wedi cofleidio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, gan ystyried yr egwyddor gynaliadwyedd a'r 7 maes llywodraethu corfforaethol sydd wedi'u diffinio. Bydd y nodweddion hyn, ynghyd â'n gwerthoedd fel sefydliad, yn ein helpu i greu'r amodau iawn i gymhwyso'r pum ffordd o weithio mewn ffordd gyson ac ystyrlon.

Mae pob nodwedd yn cael ei diffinio ymhellach gan set o ddatganiadau ategol, a gwnaed gwaith pellach i ddiffinio ein nodweddion yn well sydd wedi arwain at gyfres o ddisgrifyddion ar gyfer pob datganiad ategol. Mae hyn yn gymorth pellach i ni i esbonio sut olwg sydd ar rhagorol yn ein barn ni ac i'n helpu i werthuso pa feysydd y mae gofyn i ni ganolbwyntio arnynt er mwyn ein helpu i wireddu hyn. Mae hyn yn galluogi'r Cyngor i fod yn glir am y meysydd y mae'r Cyngor yn ceisio'u gwella er mwyn bod yn gyngor rhagorol. Gellir gweld **y disgrifyddion hyn yma**.

Trwy gydol y flwyddyn, rydyn ni wedi cynnal ymarferion monitro amrywiol yn erbyn y gweithgareddau yr oeddem yn eu hystyried yn feysydd i'w gwella neu eu datblygu yn adroddiad hunanasesu'r llynedd. Mae'r gweithgareddau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y Cynlluniau Gwasanaeth priodol ac yn cael eu monitro bob chwarter gan bob Cyfarwyddiaeth, ac rydyn ni'n adrodd amdanynt gerbron ein Tîm Gweithredol ddwywaith y flwyddyn. Lle mae meysydd yr ydym yn teimlo nad ydynt wedi gwella fel y bwriadwyd iddynt wella, byddwn yn parhau i fonitro'n agos yn y flwyddyn i ddod, i helpu i gyflawni ein huchelgais i ddod yn Gyngor Rhagorol.

--




Yn dilyn adolygiad, rydym wedi defnyddio ein fframwaith i gynnal hunanasesiad o'r sefydliad, gan ddod i gasgliadau a nodi'r camau y mae angen eu cymryd, wrth symud ymlaen. Mae cynnydd yn erbyn ein hymrwymiadau yn cael ei fonitro bob blwyddyn, ac rydym wedi adrodd am ein canfyddiadau allweddol yn yr adran ganlynol yn yr adroddiad hwn.

## Pethau Allweddol a Ddysgwyd wrth Hunanasesu ein Nodweddion sy'n Diffinio Cyngor Rhagorol

Mae ein hunanasesiad wedi'i ddatblygu gan ddefnyddio'r wybodaeth helaeth sydd ar gael i ni, er mwyn llunio darlun manwl o'n Cyngor. Mae trosolwg o'r dysgu a'r canfyddiadau allweddol wedi'u nodi isod:

**1. Cyngor arloesol…**
- sy'n drawsnewidiol ac yn barod i wneud pethau'n wahanol
- Un sy'n frwdfrydig i gymryd risg
- Meithrin arloesi yn y gweithle a thu allan
- Un sy'n chwilfrydig ac yn agored i dueddiadau a thechnolegau newydd

## Datblygiadau Allweddol

Mae ein ffocws wedi datblygu dros y flwyddyn ddiwethaf, yn unol â'n nodweddion, ac mae llawer o newidiadau wedi digwydd i'n helpu i ddod yn fwy arloesol, fel Cyngor. Elfen bwysig yw ein bod wedi parhau i addasu'n gyflym ac i ymateb yn gadarnhaol i heriau a mentrau newydd, gan ddangos bod parodrwydd i addasu a chyflawni mewn amgylchiadau sy'n newid drwy'r amser. Yn wir, daeth ein Hasesiad Perfformiad Panel diweddar i'r casgliad, *'Yn wyneb y galw cynyddol, yn enwedig mewn gofal cymdeithasol a heriau ariannol, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu cynllun uchelgeisiol i ffedereiddio â Blaenau Gwent, mabwysiadu egwyddorion Marmot a mynd ar drywydd Ymyrraeth Gynnar ac Atal. Nod y weledigaeth a'r strategaeth hon yw mynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd yn y sir a'r her cynaliadwyedd. Mae'r dull hwn yn arloesol ac o fudd cenedlaethol*'. Fodd bynnag, wrth i ni symud ymlaen, mae'n rhaid i ni sicrhau bod ein parodrwydd i gymryd risgiau a chyflawni prosiectau arloesol newydd yn cyd-fynd â'r pragmatiaeth sydd ei angen i ddwyn prosiectau i fwcl pan fo'n glir nad ydym yn gallu eu symud ymlaen neu na fyddant yn cyflawni'r manteision a fwriadwyd.

Ddiwedd 2023, fe wnaethom gyflwyno ffordd newydd o weithio, a frandiwyd gennym fel 'Rebel Torfaen'. Mae'r ffordd newydd hon o weithio yn galluogi ein staff i deimlo eu bod wedi'u grymuso i gyflwyno eu syniadau ar gyfer gwella gwasanaethau, trwy amrywiaeth o grwpiau dan arweiniad staff, gan ystyried rhai o'r heriau strategol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu ac adlewyrchu'r heriau y mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn eu hystyried. Y nod yw cynnig golwg ac ymateb ehangach a mwy amrywiol i'r heriau yr ydym yn eu hwynebu.

Mae cyflwyno 'diwylliant syniadau' yn galluogi ein staff i deimlo eu bod wedi'u grymuso i gyflwyno eu syniadau ar gyfer gwella gwasanaethau, trwy amrywiaeth o grwpiau dan arweiniad staff. Yn ystod 2024/25 sefydlwyd Grwpiau Rebel Torfaen a rhoddwyd hyfforddiant i hwyluswyr i gefnogi grwpiau i ymgymryd â'u gwaith. Mae'r grŵp eisoes wedi archwilio rhai meysydd gwella gwasanaethau. Mae adolygiad mewnol wedi pennu bod mwy o waith i'w wneud o hyd i ymgorffori Grwpiau Rebel Torfaen yng ngwaith y Cyngor. Bydd hyn yn rhoi ffocws ar gyfer y flwyddyn i ddod a bydd yn cael ei symud ymlaen yn rhan o'n gwaith gyda Blaenau Gwent.

Yn ystod 2024/25 rydyn ni wedi canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad ein holl staff fel eu bod yn gallu cwrdd â gofynion newidiol o ran darparu gwasanaethau a blaenoriaethau. Rydyn ni wedi datblygu a gweithredu proses recriwtio a sefydlu ar-lein yn ystod y flwyddyn, tra hefyd yn cyflwyno platfform Dysgu a Datblygu newydd o'r enw Thinkqi sy'n darparu gwybodaeth hygyrch am hyfforddi a datblygu i ddiwallu anghenion unigolion a gwasanaethau

## Gweithgareddau Gwella ar gyfer 2025/26

- Deall Gweithio mewn Seilo a'i leihau trwy: gyflwyno 'diwylliant syniadau', sy'n galluogi ein staff i deimlo eu bod wedi'u grymuso i gyflwyno'u syniadau ar gyfer gwella gwasanaethau, trwy amrywiaeth o grwpiau dan arweiniad staff.
- Ystyried atebion digidol i leihau'r amser a dreulir ar dasgau gweinyddol
- Darparu amgylchedd ffisegol i ddysgwyr sy'n hyrwyddo ymgysylltiad cadarnhaol ac yn cefnogi dysgu

**2. Cyngor ysbrydoledig a gweledigaethol sy'n…**
- Gwella bywydau drwy arweinyddiaeth wleidyddol a swyddogion effeithiol
- Adnabod a bachu cyfleoedd ar gyfer y dyfodol
- Gosod cyfeiriad clir a nodau hirdymor
- Lleihau ei ôl troed carbon

### Datblygiadau Allweddol

Rydyn ni wedi gosod cyfeiriad clir o fewn ein sefydliad ac yn rhannu ein nodau hirdymor ar gyfer gwella llesiant ar draws Torfaen. Mae ein Cynllun Sirol 5-mlynedd a'n Huwchgynllun tymor hwy yn gwneud hyn trwy nodi'n glir y canlyniadau/amcanion/gweithgareddau yr ydyn ni'n anelu at eu cyflawni ac mae'n cael ei ddeall a'i gefnogi'n dda gan wleidyddion ac ar draws y sefydliad.

Mae'r Cynllun Cyflawni blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn parhau i gael ei ddefnyddio i fonitro'n cynnydd ac adrodd amdano yn erbyn ein dyheadau ar gyfer oes y Cynllun Sirol. Rydyn ni hefyd yn parhau i weithio ochr yn ochr â'n partneriaid ym Mwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent trwy gydweithio i ddod yn rhanbarth 'Marmot' gyda'r bwriad o gymryd camau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i leihau anghydraddoldebau a mynd i'r afael â heriau allweddol i lesiant ar draws y rhanbarth, nawr ac yn y tymor hir, er mwyn lleihau'r anghydraddoldebau sy'n effeithio ar benderfynyddion ehangach iechyd.

Mabwysiadwyd ein Huwchgynllun Marmot gan y Cyngor llawn ym mis Hydref 2024 (yn rhan o Adroddiad Hunanasesu a Llesiant Blynyddol 2023-24). Ers hynny, mae gwaith pellach wedi'i wneud i sicrhau bod y fframwaith perfformiad y cytunwyd arno sy'n cefnogi ein Huwchgynllun wedi'i ymgorffori i Gynlluniau Gwasanaeth y Cyngor. Cefnogir dealltwriaeth am yr Egwyddorion Marmot sy'n sail i'n Huwchgynllun ar draws y sefydliad yn rheolaidd, trwy fwletinau trwy e-bost.

Rydyn ni wedi sicrhau buddsoddiad gwerth £5 miliwn mewn ymchwil, gyda'r nod o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a gwella canlyniadau iechyd i'n trigolion. Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, trwy'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal (NIHR), yn gwneud y buddsoddiad hwn trwy'r Cydweithrediadau Ymchwil i Benderfynyddion Iechyd (CYBIs) dros y 5 mlynedd nesaf.

Bydd CYBI Torfaen yn gweld arbenigwyr ar ymchwil a data yn gweithio ochr yn ochr â'r Cyngor a chymunedau i archwilio sut y gellir gwella canlyniadau iechyd a llesiant mewn ffordd gynaliadwy.

Dyma'r cam diweddaraf yng nghenhadaeth y Cyngor i drawsnewid anghydraddoldebau iechyd a llesiant yn Nhorfaen, gan weithio gyda'r gwasanaeth iechyd, cynghorau cymuned, cymdeithasau tai ac elusennau yn yr ardaloedd sy'n cael yr effaith fwyaf ar ganlyniadau iechyd hirdymor pobl.

Rydyn ni'n wynebu her sylweddol i wrthdroi'r anghydraddoldebau iechyd amlwg sy'n bodoli yn ein cymunedau, felly rydyn ni'n cofleidio'r her hon i sicrhau bod adnoddau yn cael eu targedu i'r mannau ble y gallant gael yr effaith fwyaf ar fywydau. Trwy wella ymchwil a chydweithio, gallwn gyrraedd yr achosion wrth wraidd anghydraddoldeb a dyfeisio ymyriadau a all gael yr effaith fwyaf ar iechyd y cyhoedd.

Mae ein CYBI yn dod ymlaen yn dda, a'r ffocws dros 2024/25 oedd datblygu strategaeth ymchwil y CYBI a rhoi tîm yn ei le i gyflawni ein huchelgeisiau. Oherwydd y cynnydd a wnaed ym mlwyddyn ddatblygu'r CYBI, mae'r NIHR (Sefydliad Cenedlaethol Ymchwil Iechyd a Gofal) wedi dyfarnu statws CYBI llawn i Dorfaen, gan gadarnhau 5 mlynedd arall o gyllid. Diolch i ymgyrch recriwtio derfynol ddiwedd 2024/25 mae pob swydd ond un wedi'i llenwi'n llwyddiannus.

### Gweithgareddau Gwella ar gyfer 2025/26

- Yn rhan o'n proses o ddatblygu a gweithredu Cytundeb Torfaen, byddwn yn
    - Dechrau ailgynllunio cymorth cynnar ac atal yn gyntaf
    - Cefnogi'r sefydliad i sefydlu egwyddorion Marmot ym mhopeth a wnawn, trwy: ddatblygu a chyfathrebu naratif cyson ar draws y sefydliad i alluogi pob rhan o'r sefydliad i ddeall sut y gallant gysylltu a chyfrannu at: amcanion llesiant ein sefydliad ac Egwyddorion Marmot.
    - Parhau i sefydlu Egwyddorion Marmot mewn trefniadau Cynllunio a Llywodraethu Gwasanaethau, trwy'r Fframwaith Rheoli Perfformiad newydd ar gyfer y Cynllun Sirol / Dangosyddion Perfformiad Marmot.
- Yn rhan o'r gwaith o ddatblygu ein model ffederal o weithio gyda Blaenau Gwent, byddwn yn
    - Lansio ein cytundeb gyda chynllun trawsnewid tair-blynedd

**3. Cyngor sy'n perfformio ar lefel uchel, sy'n…**
- Cyfleu blaenoriaethau a disgwyliadau'r Cyngor
- Un sydd bob amser yn dysgu ac am wella
- Mesur yr hyn sy'n bwysig i drigolion a chymunedau
- Un sy’n hunanwerthuso i ganolbwyntio ar effaith a chanlyniadau
- Un sy’n deall ei bwrpas ac yn cyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol

## Datblygiadau Allweddol

Mae blociau adeiladu cadarnhaol yn parhau i gael eu rhoi ar waith i'n helpu i gyflawni ein huchelgais o ddod yn gyngor sy'n perfformio ar lefel uchel. Rydyn ni wedi adolygu'r ffordd yr ydym yn cynnal ein Harolwg Trigolion ac yn dal adborth arall gan ein cwsmeriaid - er mwyn sicrhau ein bod yn cael yr adborth iawn gan y cwsmeriaid iawn ar yr adeg iawn. Ar ôl cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu arolwg cenedlaethol i drigolion ochr yn ochr ag awdurdodau lleol eraill, CLILC a Data Cymru, gwnaethom sicrhau bod yr arolwg ar gael i drigolion tua diwedd 2024 gan arwain at gyfradd ymateb ardderchog. Rydyn ni nawr yn adrodd bob 6 mis i'n Tîm Arweinyddiaeth am unrhyw waith a wneir sy'n rhoi persbectif defnyddwyr gwasanaeth i ni, sy'n rhoi mwy o fewnwelediad i ni i farn ein trigolion, gan sicrhau bod yr adborth rydyn ni'n ei gael yn cael ei ledaenu a'i ddeall yn iawn a'n bod yn gweithredu'n iawn ar ei sail.

Rydyn ni’n gwybod, er mwyn mynd â'n dyhead i ddod yn Gyngor sy'n perfformio ar lefel uchel i'r lefel nesaf, fod angen i ni gael ein gyrru'n fwy gan ddata a deallusrwydd. Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom dargedu nifer o brosiectau gyda chefnogaeth ddwys bellach lle roedd angen mwy o wybodaeth a dealltwriaeth am berfformiad. Mae'r rhain wedi cynnwys:
- Gweithio i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal yn ddiogel,
- Ailfodelu ein gwasanaethau Ymyrraeth Gynnar ac Atal,
- Datblygu systemau i ddeall y defnydd o ynni ac allyriadau carbon yn well ar draws ystâd y Cyngor, a
- Pherfformiad ein gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu.

Bydd cyflwyno Power BI yn cefnogi ein dyhead i ddod yn sefydliad sy'n cael ei yrru'n fwy gan ddata a deallusrwydd, trwy wella hygyrchedd a gwelededd data. Ar ôl ymgymryd â phrosiectau mewn meysydd gwasanaeth ar draws y Cyngor, rydyn ni nawr yn edrych ar sut y gall y prosiect hwn gael ei gyflawni'n ganolog gan y Gwasanaeth Rhannu Adnoddau (SRS), ein darparwr cymorth TG. Wrth i ni gamu i mewn i 2025/26, byddwn yn ceisio blaenoriaethu gwaith i awtomeiddio dangosfyrddau ar gyfer adrodd am Uwchgynllun Marmot y Cyngor trwy Power BI.

Yn ystod 2024/25 rydyn ni hefyd wedi bod yn y broses o ddatblygu ein Strategaeth Rheoli Asedau ar gyfer ystâd y Cyngor i sicrhau ein bod yn defnyddio ein hadeiladau yn effeithlon ac yn briodol. Mae'r broses wedi'i gohirio ychydig ond mae'r Strategaeth Rheoli Asedau newydd bellach wedi'i hamserlennu i'w chymeradwyo ym mis Gorffennaf.

## Gweithgareddau Gwella ar gyfer 2025/26

- Yn rhan o'r gwaith o ddatblygu ein model ffederal o weithio gyda Blaenau Gwent, byddwn yn…
  - Datblygu fframweithiau rheoli perfformiad a rheoli risgiau

- Archwilio ffyrdd o gael gwybodaeth well gan breswylwyr trwy: gynnal yr Arolwg Trigolion blynyddol a dal safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau mewn arolygon ac unrhyw adborth arall gan ein cwsmeriaid trwy ein sianeli cyfathrebu i sicrhau ein bod yn cael yr adborth iawn gan y cwsmeriaid iawn ar yr adeg iawn

- Nodi bylchau yn ein data trwy: nodi'r data y mae eu hangen ar bob Cyfarwyddiaeth i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth trwy fynd i'r afael â'r heriau mwyaf arwyddocaol ym mhob Cyfarwyddiaeth.

- Gwella ein gallu o ran data - parhau i weithio ar gyflwyno Power BI - i gefnogi ein huchelgais i ddod yn sefydliad sy'n cael ei yrru'n fwy gan ddata a deallusrwydd, trwy wella hygyrchedd a gweledwedd data

- Archwilio dewis o fecanweithiau i wella ymgysylltiad y cyhoedd yn y broses graffu, gan gynnwys gweithio gyda grwpiau, fel y Fforwm Ieuenctid a Phanel y Bobl Torfaen, i archwilio cyfranogiad yn y broses graffu

- Adolygu ein hystâd i sicrhau ein bod yn defnyddio ein hadeiladau'n effeithlon ac yn briodol trwy: baratoi Strategaeth Rheoli Asedau Pum Mlynedd a Chynllun Gweithredu/Buddsoddi cynhwysfawr ac integredig newydd

- Gweithio gydag Adnoddau Dynol i sicrhau ein bod yn defnyddio'r Ganolfan Ddinesig yn y ffordd fwyaf effeithiol yn weithredol

- Adolygu i weld a yw'r gyfres newydd o systemau a data am berfformiad ar gyfer y Drws Ffrynt ac Ail-alluogi ar y Cerdyn Sgorio Cytbwys yn tracio perfformiad canlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol yn effeithiol.

- Byddwn yn gyngor sydd wedi ei alluogi'n ddigidol ac sy'n ddigidol effeithlon sy'n darparu gwasanaethau cwsmeriaid rhagorol, ac yn caniatáu i fwy o drigolion gwblhau eu trafodion ar-lein. Byddwn yn digido Biniau a Gollwyd a Cheisiadau am Gasgliadau â Chymorth i'w rheoli'n llwyr ar-lein (yn gysylltiedig â Ffrwd Waith 1 - Ansawdd y Gwasanaeth)

- Gwella canlyniadau i ddysgwyr, mewn llythrennedd a rhifedd

**4. Cyngor cydweithredol a chynhwysol sy'n…**

- Meithrin natur gynhwysol a chyfartal
- Cydnabod cyfraniad eraill
- Croesawu her a chyfathrebu gan gydweithwyr, cyfoedion a phartneriaid
- Canolbwyntio ar gryfderau partneriaid a chymunedau
- Agored i rannu adnoddau gyda phartneriaid a chymunedau
- Croesawu syniadau ac yn agored i gefnogi i gyflawni ei flaenoriaethau strategol

## Datblygiadau Allweddol

Rydyn ni’n gwerthfawrogi ac yn cofleidio cynhwysiant a chydraddoldeb o fewn y sefydliad. Rydyn ni’n cofleidio ac yn dathlu ein gwahaniaethau niwrolegol o fewn ein Cyngor, oherwydd eu bod yn ein galluogi i gyflawni amrywiaeth eang o rolau swyddi a darparu gwasanaethau amrywiol, ar gyfer ein cymunedau.

Ym mis Ionawr 2025, fe wnaethom sefydlu 'Meddyliau Amrywiol', sef grŵp staff yn Nhorfaen sydd wedi'i greu gyda'r bwriad o ddarparu lle pwrpasol lle gall cydweithwyr rannu eu profiadau o gyflyrau niwrowahanol (dyslecsia, ADHD, Awtistiaeth ayb.) a thrafod yr effeithiau a'r heriau y gallant eu hwynebu mewn bywyd ac yn y gwaith. Mae'r ffocws ar sut mae pobl yn profi'r amodau hyn yn y gweithle, rhannu strategaethau i liniaru rhai o'r heriau, a chydnabod agweddau cadarnhaol y cyflyrau hyn.




Mae aelodau'r grŵp yn cael cyfle i rannu syniadau a strategaethau yn rheolaidd, mewn lleoliad anffurfiol.
Rydyn ni’n falch o'n hymrwymiad parhaus i niwroamrywiaeth trwy fentrau fel Rebel Torfaen a Meddyliau Amrywiol Torfaen. Mae'r rhaglenni hyn yn tynnu sylw at ein hymrwymiad i greu amgylchedd cynhwysol lle gall pawb ffynnu.

Mae ein 'Strategaeth Llesiant Cymunedol' a fabwysiadwyd ym mis Ebrill 2024, yn cyflwyno gweledigaeth a chenhadaeth newydd y Cyngor i roi 'cymunedau' a 'llesiant ac atal' fel conglfeini go iawn yn y ffordd yr ydyn

ni'n dylunio ein gwasanaethau. Rydyn ni wedi parhau i annog cyfranogiad cymunedol mewn newidiadau ymarferol yn y Fwrdeistref, er enghraifft hwyluso trafodaeth rhwng Cynghrair Gwirfoddol Torfaen, Bridges a Fforwm 50+ Blaenafon ynghylch heriau trafnidiaeth yn y gogledd. Roedd ein Cydlynydd Camlesydd yn croesawu cael ei gyflwyno i Fforwm Mynediad Torfaen a chefnogodd aelodau'r broses o wneud penderfyniadau ar y safle ynghylch lleoliadau meinciau ychwanegol newydd ger Dwy Loc a Pum Loc ac ystyriaethau gosod ymarferol. Mae gennym ddarn parhaus o waith ar draws y Cyngor i ddeall ein dulliau a'n harferion gwirfoddoli, i oleuo dull mwy cydgysylltiedig yn y dyfodol. Yn ogystal, mae egwyddorion y dull cymunedau yn llywio'r gwaith o ailddylunio gwasanaethau ar draws nifer o dimau mewn ffordd sy'n gysylltiedig ag ymyrraeth gynnar ac atal.




Yn ystod y flwyddyn rydyn ni wedi bod yn sefydlu ein dull cyfranogiad ar draws y Cyngor trwy sicrhau bod pob Cyfarwyddiaeth yn ein sefydliad yn sefydlu gofynion ein Strategaeth Gyfranogiad, a fydd yn rhoi cyfleoedd priodol i'n trigolion i ddweud eu dweud am y ffordd yr ydym yn gweithio a'r penderfyniadau a allai effeithio arnynt. Rydyn ni wedi ffurfio Grŵp Cyfranogol staff newydd a fydd yn helpu i sicrhau bod ymgysylltu ac ymgynghoriadau yn y dyfodol wedi'u cynllunio'n dda, yn gynhwysol ac yn hygyrch. Rydyn ni hefyd wedi parhau i weld cysylltiad clir rhwng hyrwyddo ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol ar gyfer pob ymgynghoriad, a chynnydd cyson yn y nifer sydd wedi cofrestru ar ein porth ymgysylltu ar-lein (Cymryd Rhan).

Mae Gweithio'n Agosach ym Mlaenau Gwent, yn ein galluogi i archwilio mwy o gyfleoedd i gydweithio ar draws Torfaen a Blaenau Gwent i wella effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chynaliadwyedd, gan gyflwyno opsiynau i'r ddau gyngor benderfynu ar ffyrdd ymlaen dros y tymor byr, canolig a hirach. Ym mis Ionawr 2025 cytunodd cynghorwyr ym Mlaenau Gwent a Thorfaen i weithio gyda'i gilydd fel partneriaid cyfartal, gan roi'r cyfle i rannu adnoddau ac arbenigedd i fynd i'r afael â heriau cyffredin, a gwella canlyniadau i drigolion. Roedd hyn yn cynnwys penodi Cyd-Brif Weithredwr yn ffurfiol. Mae hyn wedi arwain at sefydlu Tîm Arweinyddiaeth Weithredol ar y cyd, gyda 3 o'r cyfarwyddwyr newydd yn rhannu swyddi ar draws y ddau Gyngor. Mae'r holl gyfarwyddwyr yn edrych ar sut y bydd y strwythurau newydd yn edrych ac mae trafodaethau ac ymgysylltu pellach wedi digwydd gyda staff ac undebau llafur.

Bydd fframwaith polisi yn sefydlu'r trefniadau contract ar gyfer rolau ar y cyd, ac ar gyfer tîm trawsnewid a fydd yn cefnogi ac yn hwyluso'r gwaith o gyflawni'r cynllun trawsnewid. Mae Partneriaethau Lleol a hwylusodd yr adolygiad Darganfod cychwynnol yn datblygu achos amlinellol strategol, gan gynnwys model ariannol a meini prawf ar gyfer alinio â gwasanaethau a blaenoriaethu.

### Gweithgareddau Gwella ar gyfer 2025/26

- Yn rhan o'r gwaith o ddatblygu ein model ffederal o weithio gyda Blaenau Gwent, byddwn yn,
    - Ffurfioli ac yn trosoli rhwydweithiau Llywodraeth Cymru a CLlLC i gael cefnogaeth, rhannu'r dysgu a dylanwadu ar gyfeiriad polisi cenedlaethol

- Yn rhan o'n proses o ddatblygu a gweithredu Y Fargen Torfaen, byddwn yn
    - Sefydlu partneriaethau strategol gyda Llywodraeth Cymru, CLlLC, a phartneriaid yn y sector cyhoeddus i alinio ar Marmot, atal, tegwch a chydnerthedd

- Bwrw ymlaen â'r Dull Strategaeth Gymunedau trwy: wella'r broses o gynllunio blaenoriaethau ar lefel leol, a sicrhau bod cyflawni yn gymunedol yn egwyddor allweddol wrth ddylunio gwasanaethau, cynyddu nifer y gwirfoddolwyr yn y gymuned, a pharu gwirfoddolwyr a grwpiau cymunedol i ddarparu gwasanaethau.

- Sefydlu'r Strategaeth Gyfranogiad newydd ar draws y Cyngor trwy: sicrhau bod pob Cyfarwyddiaeth yn ein sefydliad yn sefydlu gofynion ein Strategaeth Gyfranogiad, a fydd yn rhoi cyfleoedd priodol i'n trigolion i ddweud eu dweud am: y ffordd rydyn ni'n gweithio a'r penderfyniadau y mae angen i ni eu gwneud a allai effeithio arnynt.

- Gweithio Agosach ym Mlaenau Gwent: parhau i wneud y mwyaf o gyfleoedd i gydweithio ar draws Torfaen a Blaenau Gwent, gan gryfhau integreiddio i wella effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chynaliadwyedd.

- Sicrhau bod hyfforddiant penodol yn cael ei ddarparu ar gyfer staff ar-lein ac wyneb yn wyneb a bod mecanweithiau adrodd ar waith, yn y pynciau gorfodol gofynnol, gan gynnwys Diogelu, Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

- Sefydlu llinell sylfaen o ddata am recriwtio ac asesu amrywiaeth ymgeiswyr am swyddi a derbynwyr swyddi i ddeall pa ymyriadau pellach sydd eu hangen

- Creu rhwydweithiau ymchwil, a chymryd rhan ynddynt, er mwyn rhannu syniadau ymchwil, arfer gorau, prosesau a dysgu a chyd-gynhyrchu ymchwil yn y dyfodol

**5. Cyngor wedi ei reoli'n dda, sydd yn…**
- Croesawu ei werthoedd craidd
- Gwerthfawrogi llesiant a chyfraniad staff
- Buddsoddi mewn staff a meddu ar gynlluniau ar gyfer gweithlu'r dyfodol
- Meddu ar ffordd dda o reoli i sicrhau y gwneir penderfyniadau cadarn

### Datblygiadau Allweddol

Gwerthfawrogir llesiant a chyfraniad ein staff ac mae'n sylfaenol i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydyn ni wedi ymgymryd â gwaith sylweddol i gryfhau ein dull ar gyfer Strategaeth y Gweithlu ymhellach. Mae ein strategaeth yn nodi sut y byddwn, trwy ein gweithlu, yn cyflawni nodau strategol ein Cynllun Sirol a dyletswyddau cyfreithiol allweddol ac yn darparu gwybodaeth am sut y bydd y Cyngor yn bwrw ymlaen â'n nodweddion fel cyngor rhagorol. Mae ein strategaeth yn canolbwyntio ar lesiant staff a'u datblygiad.

Mae cynllun cyflawni Strategaeth y Gweithlu wedi'i ddatblygu a'i sefydlu yn ein Cynlluniau Gwasanaeth. Adroddir yn rheolaidd am berfformiad yn ein Tîm Arweinyddiaeth. Rhai o'r gweithgareddau allweddol sydd wedi'u symud ymlaen yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yw,
- gweithredu rhaglen brentisiaeth,
- datblygu rhaglen lesiant ar gyfer staff sy'n darparu cymorth wedi'i dargedu i reolwyr lle mae materion yn dod i'r amlwg. Bydd hyn yn cynnwys cyflwyno Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl a digwyddiadau penodol wedi'u targedu ar gyfer iechyd meddwl dynion a llesiant ariannol, a
- Chyflwyno system arfarnu perfformiad newydd yn dilyn mewnbwn ein grŵp ffocws i staff, i sicrhau bod syniadau'n cael eu darparu gan ystod o staff am faterion sy'n effeithio arnyn nhw, a'u hymgorffori i'n system arfarnu. Aeth y dull newydd yn fyw yn ystod 2025.

Ym mis Chwefror 2025, yn rhan o wythnos genedlaethol Prentisiaid, fe wnaethom lansio ein grŵp diweddaraf o brentisiaid Torfaen a ymunodd â'n sefydliad. Mae ein prentisiaid yn rhan o raglen datblygu gyrfa ehangach, sydd eisoes â dros 100 o weithwyr yn gweithio tuag at gymwysterau newydd. Rydyn ni'n cydnabod y rhan bwysig y bydd ein prentisiaid yn ei chwarae wrth ein helpu i ddarparu gwasanaethau rhagorol a'n helpu i gyflawni ein blaenoriaethau, nawr ac yn y dyfodol. Byddwn yn recriwtio'r grŵp nesaf o brentisiaid ar ôl yr arholiadau ysgol, yn haf 2025.

Roedd ein harolwg staff a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2024 yn gyfle pellach i asesu'r cynnydd a wnaed fel cyflogwr. Roeddem yn falch o nodi bod gwelliannau cadarnhaol sylweddol wedi'u cofnodi ar gyfer nifer fawr o gwestiynau'r arolwg, gan gynnwys y canlynol:
- Rwy'n cael boddhad o fy swydd
- Mae naws gweithio cadarnhaol o fewn y Cyngor
- Rwy'n credu bod cyfle i ddatblygu fy ngyrfa yn Nhorfaen
- Mae fy Rheolwr/Ngoruchwyliwr yn gosod esiampl dda i eraill ei dilyn
- Mae fy rheolwr yn fy nhrin gydag urddas, cwrteisi a pharch
- Rwy'n teimlo'n hyderus y bydd materion a godwyd yn yr arolwg hwn yn sail i weithredu ac yn gwneud gwahaniaeth

- Rwy'n credu bod yr arolwg gweithwyr yn dal i fod yn ffordd bwysig o ddweud fy nweud

Ar ben hynny, ddiwedd mis Mawrth 2025, enwyd ein Cyngor yn un o'r cyflogwyr gorau gan y Financial Times. Cafodd tua 20,000 o weithwyr yn y DU eu holi gan yr FT a Statista ar gyfer rhifyn cyntaf y rhestr flynyddol hon. Gofynnwyd i weithwyr roi eu barn am ddatganiadau am eu cyflogwr presennol mewn meysydd a oedd yn cynnwys amodau gwaith, potensial ar gyfer datblygu a delwedd y cwmni. Roedd ein Cyngor yn un o bedwar awdurdod lleol yn unig ym Mhrydain Fawr i gael eu cynnwys ar y rhestr 500 uchaf.

Yn dilyn ein penderfyniad i ffurfioli ein dull o weithio'n agosach â Blaenau Gwent, mae angen sicrhau bod trefniadau rheoli a gwneud penderfyniadau yn gyson ac yn effeithiol. Mae staff Torfaen a Blaenau Gwent wedi cael eu hyfforddi i ddefnyddio offeryn diagnostig a fydd yn cael ei ddefnyddio i asesu effeithiolrwydd strwythurau'r sefydliadau, nawr ac yn y dyfodol, o fewn ac ar draws y ddau sefydliad. Mae newidiadau strwythurol i'r sefydliadau ar y gweill i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r model ffederal o weithio rhwng Blaenau Gwent a Thorfaen. Fodd bynnag, mae angen rhagor o waith o hyd trwy'r rhaglen drawsnewid i gyflawni newidiadau strwythurol o fewn gwasanaethau, wrth iddynt gael eu hadolygu.

Mae trefniadau llywodraethu yn parhau i fod yn gryf o fewn ein sefydliad - mae'r datganiad llywodraethu blynyddol yn cadarnhau bod ein dull yn parhau i fod yn gadarn, ac mae adborth o archwiliadau mewn perthynas â llywodraethu yn gadarnhaol i raddau helaeth. Mae'r dystiolaeth a gafwyd, gan gynnwys adborth cadarnhaol i raddau helaeth gan archwiliadau a'n Hasesiad Perfformiad Panel, yn dangos bod strwythurau a phrosesau llywodraethu da ar waith, sy'n cefnogi penderfyniadau cadarn.

### Gweithgareddau Gwella ar gyfer 2025/26

- Yn rhan o'r gwaith o ddatblygu ein model ffederal o weithio gyda Blaenau Gwent…
  - Gweithredu grŵp newydd yn y Tîm Gweithredol gyda'r nod o ddatblygu ac alinio strwythurau a phrosesau llywodraethu a sicrwydd ar draws cynghorau Torfaen a Blaenau Gwent.
  - Cyd-gynllunio gwerthoedd diwylliannol a chynlluniau datblygu'r gweithlu
- Yn rhan o'n proses o ddatblygu a gweithredu Y Fargen Torfaen:
  - Lansio Ein Cytundeb a'r weledigaeth sy'n cyd-fynd â Marmot, sefydlu ac integreiddio pum cenhadaeth y Fargen i waith y Cyngor a sicrhau bod staff a sefydliadau partner yn cael eu hyfforddi i ddeall beth mae'r Fargen yn ei olygu iddyn nhw.
- Adnabod bylchau yn ein data trwy: adnabod y data y mae ei hangen ar bob Cyfarwyddiaeth i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth trwy fynd i'r afael â'r heriau mwyaf arwyddocaol ym mhob Cyfarwyddiaeth
- Cryfhau ein gweithlu yn effeithiol trwy: gynnal ag ymgyrch recriwtio a datblygu rhwydwaith cymorth i brentisiaid
- Cryfhau ein gweithlu yn effeithiol trwy: ddatblygu Rhaglen Lesiant ar gyfer yr holl staff
- Cefnogi'r gwaith o gyflwyno Asesiad Perfformiad Panel statudol y Cyngor (sy'n ofynnol unwaith bob cylch etholiadol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021).
- Sicrhau bod trefniadau rheoli a gwneud penderfyniadau yn effeithiol trwy: adolygu ac addasu strwythurau sefydliadol y Cyngor a'i rychwantau a'i haenau, gyda chefnogaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a defnyddio'r Offeryn Atebolrwydd Penderfyniadau.
- Datblygu recriwtio a chadw ar gyfer pob gweithiwr yn Nhorfaen. Sicrhau bod modd cynnal gweithlu sefydlog

**6. Cyngor ysgogol a hygyrch sy'n…**

- Defnyddio ystod eang o offer i ymgysylltu â thrigolion a rhanddeiliaid
- Cynnwys staff a thrigolion ar faterion sy'n effeithio arnyn nhw
- Manteisio ar syniadau gan gwsmeriaid a staff
- Agored ac yn onest gyda staff a thrigolion
- Rhannu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad amserol ac yn dathlu llwyddiant

## Datblygiadau Allweddol

Mae manteision pwysig i ymgysylltu â'n staff, ein trigolion a'n rhanddeiliaid ac rydyn ni'n parhau i weithio gyda chymaint o grwpiau a fforymau â phosibl, i sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys ar gyfer y materion sy'n effeithio arnyn nhw. Mae gennym fforymau a rhwydweithiau da a sefydledig (Panel Dinasyddion, Fforwm Ieuenctid ayb. ) sy'n ymgysylltu'n helaeth â'r penderfyniadau a'r datblygiadau rydyn ni'n eu gwneud. Mae gennym hefyd nifer o Aelod-Hyrwyddwyr wedi'u rhannu rhwng aelodau'r cabinet ac aelodau meinciau cefn sydd hefyd yn cael eu cynnwys wrth ddod i benderfyniadau sy'n berthnasol i'r meysydd y maent yn eu cynrychioli. Mae rhai o'n Aelod-Hyrwyddwyr yn cynnwys ein Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Hyrwyddwr Gofalwyr, Hyrwyddwr Cynaliadwyedd a Hyrwyddwr Iechyd Meddwl.

Rydyn ni'n cyfathrebu'n agored ac yn onest â thrigolion ac Aelodau. Mae'r cyfathrebu hwn yn digwydd yn rheolaidd a thrwy amrywiaeth o gyfryngau, ac wedi profi i fod yn hynod gynhyrchiol, gyda llawer iawn o ryngweithiadau ac adborth. Rydyn ni'n dathlu ein llwyddiannau yn dda ac yn agored ac yn onest mewn meysydd lle nad yw ein cynlluniau wedi'u cyflawni fel y bwriadwyd.

Mae'r heriau yr ydyn ni'n eu hwynebu yn gymhleth. Maen nhw'n cynnwys ffactorau lluosog, rhyng-ddibyniaethau, ac amrywiaeth o elfennau lle mae yna ansicrwydd, a bydd ein llwyddiant wrth fynd i'r afael â nhw yn gofyn am fwy na gwaith caled unigol, cymhelliant, neu hyd yn oed dalent.

### Ymgysylltu â'n trigolion i oleuo gwasanaethau'r Cyngor….




Ddechrau mis Rhagfyr 2024, fe wnaethom lansio arolwg trigolion, yn rhan o ymarfer gwrando ledled Cymru.

Roedd 'Dewch i ni Siarad am: Fyw yn Nhorfaen' yn gyfle i'n trigolion rannu eu barn am fywyd yn y Fwrdeistref a'u profiadau o ddefnyddio gwasanaethau ein Cyngor

Roedden ni'n un o nifer o gynghorau ledled Cymru a gynhaliodd yr arolwg a gynhyrchwyd gan Data Cymru, ar ran Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Mae barn ein trigolion yn bwysig i ni, gan y byddant yn ein helpu i lunio gwasanaethau lleol a sut yr ydym yn eu darparu. Mae'r cwestiynau a holir yn yr arolwg hefyd yn cael eu holi ledled Cymru, gan lawer o gynghorau lleol eraill, sydd hefyd yn cynnal yr arolwg cenedlaethol hwn.

### Ein Panel y Bobl….

Ym mis Medi 2024, gwahoddwyd ein trigolion i gymryd rhan mewn trafodaethau, cyn pennu cyllideb y Cyngor ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Roedd trigolion yn gallu cynnig sylwadau am ein cyllideb ddrafft ar gyfer 2025/26 a chawsant eu gwahodd i ddychwelyd eto yn y Flwyddyn Newydd, ar ôl cyhoeddi setliad cyllideb Llywodraeth Cymru.



Yn y cyfarfod cyhoeddus hwn, amlinellodd ein Pennaeth Gwasanaethau Ariannol sut rydyn ni'n gosod ein cyllideb flynyddol, gan ystyried y cyllid disgwyliedig, y cynnydd a ragwelir mewn costau a'r galw disgwyliedig am wasanaethau.

Cafodd ein Panel y Bobl gyfle hefyd i drafod a chyflwyno syniadau am sut y gellid gwneud gwelliannau i Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu ein Cyngor, i'w gwneud hi'n haws i drigolion gymryd rhan.

### Ein Fforwm Ieuenctid….

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydyn ni wedi cyflwyno mecanweithiau newydd er mwyn i'r Cyngor ymgysylltu â mwy o bobl ifanc. Mae'r rhain yn cynnwys Fforwm Ieuenctid newydd a mwy o faint sy'n cynnwys disgyblion o chwe ysgol uwchradd y Fwrdeistref, ffurfio Cynghrair Ieuenctid Torfaen newydd, sy'n cynnwys

cynrychiolwyr o ystod eang o sefydliadau pobl ifanc, a pherthnasoedd gwaith agosach â swyddogion cyfranogiad ysgolion.

Nod ein Cynghrair Ieuenctid yw rhoi fforwm i bobl ifanc i ddod at ei gilydd i drafod materion, fel iechyd a llesiant, ac unrhyw faterion eraill sy'n bwysig iddyn nhw. Maen nhw’n gallu rhannu eu barn a chydweithio â’i gilydd i roi llais clir a chryf yn ôl i'n Cyngor, a sefydliadau partner eraill, i helpu i sicrhau bod eu barn a'u hanghenion yn cael eu clywed.

Mae ein Fforwm Ieuenctid yn agored i bobl ifanc rhwng 11 a 18 oed.

Ddiwedd mis Hydref 2024, etholodd ein Fforwm Ieuenctid Torfaen gadeirydd newydd a dau ddirprwy gadeirydd ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Etholwyd disgybl blwyddyn 11 o Ysgol Gymraeg Gwynllyw yn gadeirydd, ar ôl addo blaenoriaethu llesiant meddyliol pobl ifanc a chefnogi aelodau'r Fforwm i lobïo eu hysgolion am newid cadarnhaol, a phleidleisiwyd disgyblion o Barth Dysgu Torfaen ac Ysgol Gorllewin Mynwy yn ddirprwy gadeiryddion.

Ar ôl yr etholiad, trafododd ein 15 aelod o'r Fforwm Ieuenctid heriau iechyd a llesiant y mae pobl ifanc yn Nhorfaen yn eu hwynebu ac adolygwyd Strategaeth Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc ddrafft y Cyngor.

Disgwylir i'r Strategaeth hon fynd gerbron y Cabinet yn ddiweddarach yn y flwyddyn ac, os caiff ei chymeradwyo, bydd yn gosod y safon ar gyfer sut y bydd holl wasanaethau'r Cyngor yn ymgynghori â phobl ifanc ac yn ystyried eu barn yn y dyfodol.



Cytunodd y Fforwm hefyd ar ei raglen waith ar gyfer y flwyddyn nesaf. Cytunwyd i ganolbwyntio ar sbwriel, bwlio a'r risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â fêpio.

Mae fforwm iau ar wahân yn cael ei ddatblygu hefyd i ddisgyblion ysgolion cynradd.

Byddwn yn adrodd am ganlyniad cyfarfod cyntaf ein cynghrair ieuenctid gerbron y Cyngor, a fydd wedyn yn dilyn ymlaen gyda'r gynghrair ieuenctid, yn ei gyfarfod nesaf yn gynnar yn 2025.

Mae ein Tîm Uwch-arweinwyr ac Arweinwyr Addysg wedi gwneud gwrando ar bobl ifanc yn flaenoriaeth gorfforaethol. Yn gynharach eleni, gwahoddodd y tîm uwch-arweinwyr bobl ifanc i gymryd sawl rôl uwch gyda'r Cyngor am y dydd a gwneud penderfyniadau am faterion gan gynnwys ymddygiad mewn ysgolion a'r amgylchedd. Yn y Flwyddyn Newydd, bydd menter Rebel Torfaen i gynyddu amrywiaeth wybyddol yn y broses o wneud penderfyniadau hefyd yn cael ei hehangu i gynnwys grŵp Rebel Ieuenctid newydd.

Cytunodd cynrychiolwyr o fforymau ieuenctid ledled Gwent hefyd i weithio'n agosach gyda'i gilydd mewn menter newydd.

Cynhaliodd Dirprwy Gadeiryddion Fforwm Ieuenctid Torfaen y cyfarfod rhanbarthol cyntaf yn y Ganolfan Ddinesig, ym Mhont-y-pŵl, ym mis Rhagfyr 2024, gan groesawu cynrychiolwyr o fforymau ieuenctid Blaenau Gwent a Chaerffili a thrafod y pynciau yr oedd gan eu fforymau ddiddordeb ynddynt, fel bwlio, iechyd meddwl, fêpio a gollwng sbwriel.

Fe fuon nhw'n rhannu enghreifftiau o waith eu fforymau ac yn trafod sut i gyrraedd mwy o bobl ifanc, er enghraifft trwy gynghorau ysgol, fforymau iau a'r cyfryngau cymdeithasol.

Mae'r fforwm ieuenctid rhanbarthol yn ffordd wych i fforymau ieuenctid lleol drafod materion sy'n gyffredin i bobl ifanc yn eu hardaloedd ac i rannu syniadau. Mae hefyd yn blatfform da ar gyfer deall sut mae pobl ifanc yn gallu cael eu lleisiau wedi'u clywed ar lefel genedlaethol, er enghraifft trwy Senedd Ieuenctid Cymru neu Senedd Ieuenctid y DU.

Mae'r grŵp wedi cytuno i gyfarfod bedair gwaith y flwyddyn. Bydd y cyfarfod rhanbarthol nesaf, a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o Gasnewydd a Sir Fynwy, yn cyfarfod yn y gwanwyn.

Yn ddiweddarach ym mis Rhagfyr, trafodwyd Strategaeth Gyfranogiad Ddrafft Plant a Phobl Ifanc hefyd gan Aelodau o'n Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Trawsbynciol Adnoddau a Busnes. Daeth aelodau o'r fforwm ieuenctid i'r cyfarfod.

### Diwrnod Meddiannu'r bobl ifanc….

Ddiwedd mis Mai 2024, gadawodd grŵp o'n disgyblion ysgol uwchradd eu hystafelloedd dosbarth ar gyfer ystafell fwrdd ein Cyngor, yn rhan o Ddiwrnod Meddiannu cyntaf erioed y Cyngor i Bobl Ifanc .

Fe fu 14 o ddisgyblion o Ysgol Croesyceiliog, Ysgol Uwchradd Cwmbrân ac Ysgol Gorllewin Mynwy yn cyflwyno cais i gymryd pum rôl arwain, sef y Prif Weithredwr, y Dirprwy Brif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Plant a Theuluoedd, y Cyfarwyddwr Oedolion a Chymunedau a'r Pennaeth Cyfathrebu, Ymgysylltu ac Argyfyngau Sifil Posibl.

Dechreuodd y diwrnod gyda chyfarfod y Tîm Arweinyddiaeth lle cytunwyd ar gyfres o gamau gweithredu ynghylch presenoldeb/ymddygiad yn yr ysgol a'n hymgyrch ailgylchu gwastraff "Codi'r Gyfradd".

Cyfarfu disgyblion hefyd â'n Tîm Adnoddau Dynol i helpu i lunio rhaglen profiad gwaith a phrentisiaeth ein Cyngor a chael cyfle i holi ein Prif Weithredwr am yr hyn sy'n cael ei wneud i gefnogi ysgolion a disgyblion, yn enwedig y rheiny sydd â phroblemau meddyliol neu emosiynol.

Daeth y diwrnod i ben gyda Fforwm Datblygu Polisi lle fuont yn cyfarfod ac yn gwneud argymhellion i'n Haelodau Cabinet.

Mae'n hanfodol ein bod yn ystyried barn pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau ac rydyn ni’n gobeithio y bydd hwn yn dod yn ddigwyddiad blynyddol ac yn rhan o gyfres o fesurau i ymgysylltu â'n pobl ifanc, gan gynnwys trwy ein Fforwm Ieuenctid a'n Cynghrair Ieuenctid newydd.

### Gweithgareddau Gwella ar gyfer 2025/26

- Yn rhan o'n proses o ddatblygu a gweithredu Y Fargen Torfaen:
    - Datblygu Bargen Torfaen yn dilyn ymgysylltiad manwl â rhanddeiliaid ac ymgynghoriad ac ymgysylltu â'r cyhoedd.
    - Dechrau'r broses o drawsnewid y sefydliad trwy Ddiwylliant Rebel.
    - Sefydlu perthynas â'r cymunedau i gyfathrebu ac ymgysylltu
- Darparu sesiynau hyfforddi ym mhob cyfarwyddiaeth am strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd a strategaeth Cyfranogiad Plant trwy: roi hyfforddiant a deunyddiau cyfeirio ar-lein y gall timau eu defnyddio cyn ymgysylltu â'r cyhoedd a phobl ifanc. Cefnogir hyn gyda gweithdai gyda phob cyfarwyddiaeth.
- Bydd Rebel BGT yn alinio gweithgarwch â rhaglen waith strategol BGT. Bydd grwpiau staff 'Rebel BGT' yn cael eu ffurfio i fynd i'r afael â heriau corfforaethol gan gynnwys pynciau a awgrymir fel Buddsoddi mewn Pobl, y defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial a Rhannu Pŵer gyda chymunedau.
- Bydd ymgyrch gyfathrebu yn goleuo rhanddeiliaid am fuddion gwaith Rebel BGT. Mae hyn yn cynnwys sefydlu mecanwaith adborth i gasglu mewnbwn gan randdeiliaid am effeithiolrwydd a meysydd i'w gwella a thrwy ddathlu llwyddiannau a dysgu o heriau.
- Rebel Ieuenctid - Sicrhau bod Rebel BGT yn ymgorffori penderfyniadau grwpiau iau trwy Rebel Ieuenctid
    - ‘Bydd 'Rebel Ieuenctid BGT' yn anelu at ddod â phobl ifanc at ei gilydd i fynd i'r afael â'r materion y mae pobl ifanc yn eu hwynebu yn y ddau awdurdod.
- Gweithio gyda meysydd gwasanaeth ar draws y Cyngor a chymunedau lleol i nodi ymchwil a'i gyflawni

**7. Cyngor sy'n graff o ran materion ariannol, sy'n…**

- Meddu ar ddulliau llywodraethu ariannol cadarn
- Rheoli adnoddau'n llwyddiannus ac yn ceisio gwerth am arian
- Cynhyrchu incwm lle bo hynny'n briodol
- Hyrwyddo mewnfuddsoddi i'r eithaf
- Buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol

## Datblygiadau Allweddol

Rydyn ni'n sefydliad sy'n cael ei lywodraethu'n dda yn ariannol, ac mae adnoddau yn cael eu rheoli'n dda yn gyffredinol gyda phrosesau ariannol da; cyllidebau cadarn; systemau da, sy'n fyw i heriau ariannol ac mae hyn yn cael ei weld fel rhywbeth cadarnhaol gan ein rheoleiddwyr.

Daeth ein hastudiaeth 'Cynaliadwyedd Ariannol' ddiweddaraf gan Archwilio Cymru i gasgliad cadarnhaol heb unrhyw argymhellion, a chasgliad cyffredinol fod gan y '*Cyngor drefniadau priodol ar waith i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol ac mae ei ffocws ar ddatblygu a gweithredu camau gweithredu a fydd yn creu digon o arbedion i fynd i'r afael â'r bwlch cyllid y mae wedi ei nodi yn y gyllideb mewn ffordd amserol a chynaliadwy'.*

Mae gennym fframwaith effeithiol o atebolrwydd ariannol y gellir ei weld yn ein trefniadau cadarn ar gyfer mesurau rheoli ariannol, trwy weithdrefnau cyfrifyddu a Rheoliadau Ariannol yr Awdurdod. Rydyn ni'n sicrhau, trwy ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol, fod busnes ein Cyngor yn cael ei gynnal, yn unol â'r gyfraith ac i safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrif yn briodol a'i ddefnyddio yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Mae gwaith y tîm Archwilio Mewnol wrth gyflwyno'r cynllun archwilio blynyddol yn sicrhau y gellir ffurfio barn flynyddol am y systemau llywodraethu sydd ar waith o fewn y Cyngor ac adrodd amdani i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae'r farn wedi'i chynnwys yn adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol sy'n bwydo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Adolygwyd trefniadau Gwrth-dwyll y Cyngor yn ystod y flwyddyn gan Archwilio Cymru, a ddaeth i'r casgliad fod ffocws y Cyngor ar fesurau llywodraethu a rheoli cadarn yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer atal a chanfod twyll, ond mae lle i gryfhau rhai agweddau ar ei drefniadau.

Mae ein trefniadau yn cynnwys gweithdrefnau wedi'u sefydlu ar gyfer cynllunio cyllidebau cyfalaf a refeniw. Rhoddir adroddiad ariannol rheolaidd i'n Cynghorwyr sy'n cymharu gwariant / incwm refeniw a chyfalaf gwirioneddol â chyllidebau blynyddol, tra bod Cynllun Ariannol Tymor Canolig yr Awdurdod yn amlinellu'r rhagolygon ariannol ac unrhyw ddiffyg a amcangyfrifir.

Fe wnaethom gefnogi ein prosesau ariannol trwy ddatganoli cyfrifoldeb i unigolion o fewn ein sefydliad, gan eu gwneud yn gwbl gyfrifol ac atebol am eu cyllidebau a'r prosesau ariannol (gan gynnwys cadw at brosesau ariannol corfforaethol) a ddefnyddir wrth ddarparu'r gwasanaeth. Fodd bynnag, mae staff yn cael eu cefnogi gan Swyddogion Cyllid effeithiol, uchel eu parch, sy'n dibynnu arnynt am gyngor ac arweiniad arbenigol.

Mae 'Prosiect Apollo' yn parhau fel ein dull Cyngor-cyfan i fynd i'r afael â'r diffyg yn ein cynllun ariannol tymor canolig, ac mae wedi'i ddatblygu o dan 8 ffrwd waith ar wahân. Mae'r dull yn cynrychioli dull llawer mwy strategol o gyflawni arbedion sy'n gysylltiedig â'r cyfeiriad yr ydym yn mynd iddo h.y. y dull cymunedau, ymyrraeth gynnar ac atal a'n model ffederal newydd, yn hytrach na'r model traddodiadol o dorri gwasanaethau i arbed arian.

Mae ein Swyddfa Rheoli Portffolios yn gweithio gyda thimau ar draws y Cyngor i gefnogi'r gwaith o gynllunio rhaglenni, prosiectau, gwelliannau i wasanaethau a thrawsnewidiadau strategol ar raddfa fwy, eu cychwyn a'u cyflawni, gan sicrhau ein bod yn buddsoddi yn y pethau iawn ac yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel i uchafu'r canlyniadau i bobl a chymunedau Torfaen. Mae gennym broses mandad yn yr arfaeth / prosiect sydd wedi sefydlu proses ar gyfer asesu prosiectau a'u profi, i roi sicrwydd y bydd pob prosiect yn cael yr effaith a ddymunir. Mae'r broses felly yn gwella'r ffordd yr ydyn ni'n blaenoriaethu buddsoddiad cyfalaf ac yn sicrhau gwerth am arian o'r gwariant hwnnw. Yn ystod y flwyddyn rydyn ni wedi ceisio gwella

sut yr ydyn ni’n blaenoriaethu buddsoddiad cyfalaf trwy gysylltu rhaglen waith y Swyddfa Rheoli Portffolios gyda chynlluniau gwasanaethau a mandadau prosiectau. Mae hyn wedi arwain at sefydlu strwythurau llywodraethu, gan sicrhau bod prosiectau a rhaglenni yn cyd-fynd ag amcanion corfforaethol a bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn unol â pholisïau a gweithdrefnau a sefydlwyd.

Rydyn ni wedi ychwanegu mwy o gydnerthedd a sefydlogrwydd at ein swyddogaeth gaffael, yn ganlyniad i'n cytundeb cydweithio â Chyngor Dinas Caerdydd. Yn ystod y flwyddyn rydyn ni wedi bod yn gweithio gydag Ardal (gwasanaeth caffael Cyngor Caerdydd), i gyflwyno Polisi Caffael sy'n Gyfrifol yn Gymdeithasol sy'n hyrwyddo caffael ar nwyddau a gwasanaethau yn unol â Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2024, gan wella llesiant trwy gefnogi'r gwaith o gyflawni'r dyheadau yn ein Cynllun Sirol. Er bod y polisi Cyffredin ar draws partneriaid Ardal wedi'i ohirio ychydig, disgwylir ei weithredu erbyn mis Awst 2025

Mae Archwilio Cymru wedi adolygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer comisiynu gwasanaethau gan asesu a oes gennym drefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ein hadnoddau. Yn gyffredinol, daeth Archwilio Cymru i'r casgliad bod diffyg trefniadau comisiynu corfforaethol wedi cyfyngu ar ein gallu i gael sicrwydd ein bod yn sicrhau gwerth am arian. Mae peidio â chael trefniadau comisiynu corfforaethol wedi cyfyngu ar ein sicrwydd bod pob maes gwasanaeth yn ystyried ffactorau allweddol i'n helpu i ddarparu gwerth am arian yn gyson. Mae fframwaith comisiynu yn cael ei ddatblygu ar gyfer Torfaen a bydd yr argymhellion o'n hadolygiad gan Archwilio Cymru yn cael eu defnyddio i wella ein dull ymhellach. Byddwn yn bwrw ymlaen â hyn fel blaenoriaeth yn 2025/26, er mwyn sicrhau bod trefniadau ar gyfer comisiynu gwasanaethau yn dod yn fwy cadarn.

Rydyn ni’n dal i fod yn gryf wrth ddenu mewnfuddsoddiad, gan gynnwys ceisiadau llwyddiannus am gyllid allanol, gan arwain at gyllid grant newydd a fydd yn dod â buddsoddiad i mewn i'n cymunedau.

### Gweithgareddau Gwella ar gyfer 2025/26

- Yn rhan o'r gwaith o ddatblygu ein model ffederal o weithio gyda Blaenau Gwent, byddwn yn
    - Dechrau strategaethau modelu ariannol a chyfuno adnoddau
- Adolygu a gweithredu trefniadau rheoli a llywodraethu rhaglenni cyfalaf diwygiedig, ac ymgorffori prosesau ar gyfer blaenoriaethu adnoddau cyfalaf.
- Datblygu strategaeth ar gyfer sicrhau cydbwysedd yn y sefyllfa ariannol tymor canolig sy'n nodi'r camau gweithredu sy'n ofynnol mewn blynyddoedd unigol, trwy Brosiect Apollo a meysydd gwasanaeth penodol, i fynd i'r afael â'r her ariannol.
- Monitro cyllidebau ysgolion yn rheolaidd ymlaen llaw i leihau'r risg o ddiffygion a rhoi cymorth i adfer diffyg, lle bo angen.
- Cyflwyno dull corfforaethol o gomisiynu gwasanaethau, er mwyn galluogi'r Cyngor i asesu gwerth am arian y gwasanaethau hynny
- Gweithredu canllawiau newydd y fframwaith comisiynu cenedlaethol i sicrhau bod ein gwasanaethau comisiynu yn dangos canlyniadau o ansawdd uchel a gwerth am arian.
- Caffael sy'n Gyfrifol yn Gymdeithasol: Gweithio gydag Ardal (gwasanaeth caffael Cyngor Caerdydd), i gyflwyno Polisi Caffael sy'n Gyfrifol yn Gymdeithasol sy'n hyrwyddo caffaeliad nwyddau a gwasanaethau yn unol â Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2024, gan wella llesiant trwy gefnogi'r gwaith o gyflawni'r dyheadau yn ein Cynllun Sirol.

**8. Cyngor sy'n ddigidol, sy'n cael ei arwain gan ddata ac sy'n…**

- Defnyddio data i ragweld anghenion
- Creu proffiliau digidol i ddeall siwrneiau cwsmeriaid yn well
- Bob amser ymlaen – galluogi trigolion i gael mynediad at ystod eang o wasanaethau digidol
- Cynnwys trigolion drwy gynhwysiant digidol a llwyfannau digidol

### Datblygiadau Allweddol

Er ein bod wedi datblygu'n sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydyn ni’n gwybod bod gennym lawer iawn o waith i'w wneud o hyd i gyflawni ein huchelgais o fod yn gyngor digidol sy'n cael ei arwain gan ddata.

Mae ein Tîm Digidol a Data wedi arwain datblygiad ein Strategaeth Cwsmeriaid Digidol yn Gyntaf. Mae ein strategaeth yn ein helpu ar ein taith i ddod yn ddigidol ac i gael ein harwain gan ddata, ac mae gennym weledigaeth strategol glir erbyn hyn. Rhan hanfodol o gyflawni ein Strategaeth Ddigidol yw sicrhau bod ein staff yn gallu manteisio i'r eithaf ar yr offerynnau digidol sydd ar gael iddynt a'u bod wedi'u harfogi i wneud hynny. Mae'r prosiect hwn wedi bod yn brawf da i'n grŵp Rebel Torfaen newydd gyda staff yn rhoi eu mewnbwn i'r rhaglen llifogydd digidol. Mae adborth staff wedi arwain at ddatblygu lle arloesi er mwyn i staff gyflwyno ac ystyried syniadau, ac adolygu ein Ap Cwsmeriaid.

Rydyn ni hefyd wedi bwrw ymlaen â'r gwaith o ddylunio rhaglen sgiliau digidol, a chytuno arni, i gynyddu capasiti ein gwaith i dargedu'r gweithlu. Mae ffocws y gwaith hwn ar y sgiliau a ddylai fod gan bob aelod o staff, yr Isafswm Galluoedd Hyfyw sydd eu hangen arnom fel sefydliad a maes gwasanaeth er mwyn cyflawni trawsnewid digidol, a'r sgiliau sydd eu hangen ar ein rheolwyr a'n harweinwyr i ddeall posibiliadau digidol yn well a'u cymhwyso i broblemau/cyfleoedd busnes. Mae gweithgor o staff o gynrychiolwyr Adnoddau Dynol, Datblygu'r Sefydliad a Digidol, Data a Thechnoleg wedi'i sefydlu i fwrw ymlaen â'r gweithgaredd hwn. Mae deunydd hyfforddi yn cael ei ddatblygu a bydd ar gael trwy ein platfform hyfforddi ar-lein (Thinqi).

Mae ein Strategaeth Cwsmeriaid Digidol yn Gyntaf yn golygu ein bod yn canolbwyntio ar gynyddu cyfran y trafodion a gwblheir ar-lein, gan ddefnyddio adborth cwsmeriaid i yrru gwelliannau pellach. Mae dros 300 o ffurflenni ar-lein (76% o'r ffurflenni) bellach ar gael ar-lein ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu a gwella profiad y defnyddiwr (fel archebu slot ar gyfer Gwastraff Swmpus). Mae'r mewnwelediad a gafwyd o arolygon boddhad cwsmeriaid ac ymdrech yn cael eu defnyddio i oleuo meysydd blaenoriaeth i'w gwella wrth fwrw ymlaen. Mae hyn wedi cynnwys adolygu a gwella 23 o'n ffurflenni Strydlun tuag at ddiwedd 2024/25.

Rydyn ni hefyd yn bwrw ymlaen â datblygu atebion i awtomeiddio a symleiddio prosesau busnes gan gyfrannu at gynhyrchiant uwch a chanlyniadau gwell i'n cwsmeriaid. Mae cynnydd cadarnhaol yn cael ei wneud mewn perthynas â'r gweithgaredd hwn gyda nifer o brosiectau ar y gweill neu wedi'u cwblhau. Er enghraifft, defnyddio Copilot i awtomeiddio cofnodion cyfarfodydd; awtomeiddio ceisiadau am Gyfieithu i'r Gymraeg; defnyddio Gov.Notify i awtomeiddio a symleiddio cyfathrebu ac ymgysylltu â chyfranogwyr cyrsiau ym maes Dysgu Oedolion yn y Gymuned; defnyddio Microsoft Forms a Power Platform i awtomeiddio'r broses sefydlu ar gyfer dechreuwyr newydd ym maes Gwastraff a lleihau gofynion gweinyddol. Mae Copilot bellach hefyd yn cael ei ddefnyddio i arbed llawer o amser i weithwyr cymdeithasol sy'n cyflawni tasgau gweinyddu arferol, ac anfon tasgau'n awtomataidd i swyddogion Strydlun sydd wedi cael gwared ar dasgau â llaw, argraffu a theithio diangen i godi taflenni gwaith.

### Gweithgareddau Gwella ar gyfer 2025/26

- Yn rhan o'r gwaith o ddatblygu ein model ffederal o weithio gyda Blaenau Gwent, byddwn yn
    - Datblygu atebion ar gyfer systemau gweithredu i'n galluogi i weithio fel Ffederasiwn
- Yn rhan o'n proses o ddatblygu a gweithredu Y Fargen Torfaen, byddwn yn
    - Dechrau uwchraddio seilwaith digidol a data.
- Archwilio ffyrdd o fynd â staff a phreswylwyr gyda ni ar ein taith ddigidol drwy: ddeall ac asesu pa dechnoleg sydd eisoes ar gael i ni a'r hyn sydd ei angen.
- Archwilio ffyrdd o fynd â staff a phreswylwyr gyda ni ar ein taith ddigidol trwy: weithio gyda'n Grŵp Ffocws i Staff i sicrhau bod y diwylliant iawn yn ei le i wella'n ddigidol a sicrhau ein bod yn hyfforddi staff y iawn ac yn ymgysylltu'n iawn â nhw.
- Adnabod bylchau yn ein data trwy: adnabod y data y mae eu hangen ar bob Cyfarwyddiaeth i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth trwy fynd i'r afael â'r heriau mwyaf arwyddocaol ym mhob Cyfarwyddiaeth
- Dylunio rhaglen sgiliau digidol a chytuno arni, i gynyddu galluoedd ein proses o dargedu'r gweithlu:
    - Sgiliau a ddylai fod gan bob aelod o staff,
    - Yr Isafswm Galluoedd Hyfyw sydd eu hangen arnom fel sefydliad a maes gwasanaeth er mwyn cyflawni trawsnewid digidol, a
- Sgiliau sydd eu hangen ar ein rheolwyr a'n harweinwyr i ddeall posibiliadau digidol yn well a'u cymhwyso i broblemau/cyfleoedd busnes.
- Dylunio rhaglen sgiliau digidol a chytuno arni i gynyddu galluoedd ein proses o dargedu'r gweithlu:
    - Sgiliau a ddylai fod gan bob aelod o staff,

  - Yr Isafswm Galluoedd Hyfyw sydd eu hangen arnom fel sefydliad a maes gwasanaeth er mwyn cyflawni trawsnewid digidol, a
- Sgiliau sydd eu hangen ar ein rheolwyr a'n harweinwyr i ddeall posibiliadau digidol yn well a'u cymhwyso i broblemau/cyfleoedd busnes.
- Defnyddio atebion sydd ar gael i ni i awtomeiddio a symleiddio prosesau busnes sy'n cyfrannu at fwy o gynhyrchiant a chanlyniadau gwell i'n cwsmeriaid.
- Darparu mewnwelediad i Ofal Cwsmeriaid ynglŷn â: meysydd lle mae yna alw uchel i oleuo lle mae angen ailgynllunio gwasanaethau/prosesau a blaenoriaethu eu cyflawni.
- Cynyddu nifer y Ceisiadau am Wasanaethau a godir yn MCS yn uniongyrchol gan y cwsmer (h.y. hunanwasanaeth ar-lein)

## c. Asesiad Perfformiad Panel

Mae gofynion statudol Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau gynnal adolygiad gan gymheiriaid o'r enw Asesiad Perfformiad Panel unwaith bob cylch etholiadol (bob 5 mlynedd). Ddiwedd Ebrill 2025, fe wnaethom gefnogi ein Hasesiad Perfformiad Panel cyntaf erioed, dan arweiniad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC).

Roedd y panel yn cynnwys tîm o gymheiriaid arbenigol, diduedd a ddewiswyd i roi eu safbwyntiau amgen trwy her annibynnol, wrthrychol er mwyn; helpu i lywio ein siwrnai wella; adeiladu ar ein hunanasesiad blynyddol; a'n cefnogi i edrych i'r dyfodol, trwy lens wahanol. Treuliodd y tîm 4 diwrnod ar y safle yn siarad ag amrywiaeth o aelodau o staff, aelodau, partneriaid, trigolion, undebau a phobl sy'n cael gwasanaethau yn y gymuned.

Nodir casgliadau cyffredinol yr adroddiad isod:

- Mae Torfaen yn Gyngor a arweinir yn dda sy'n elwa ar gefnogaeth eang eithriadol o dda ar gyfer ei Arweinydd a'i Brif Weithredwr. Mae perthnasoedd cadarnhaol rhwng aelodau a swyddogion wedi'u hadeiladu ar ddealltwriaeth glir am rolau a chyfrifoldebau. O ystyried yr agenda uchelgeisiol, mae hyn yn hanfodol i sicrhau bod aelodau'n gosod fframwaith polisi clir sy'n caniatáu ac yn awdurdodi'r Prif Weithredwr i weithredu'n gyflym.
- Mae'r Cyngor wedi sefydlu systemau llywodraethu priodol ac effeithiol ac yn gweithredu gyda "llinyn aur o bositifrwydd" sy'n nodedig.
- Mae wedi mynegi gweledigaeth ddewr, glir, uchelgeisiol ac arloesol i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd a her cynaliadwyedd Cymru gyfan, gan gyflwyno adeg addas i symud ymlaen â'r model ffederal.
- Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, mae angen i'r Cyngor drosi egwyddorion Marmot a'i raglen Ymyrraeth Gynnar ac Atal yn fanylion, a hynny'n gyflym. Dylai'r gwaith rheoli risgiau ganolbwyntio nawr ar weithredu'r strategaeth a osodwyd yn hytrach na risgiau diffyg gweithredu. Mae'r risgiau cynhenid sy'n gysylltiedig â'r weledigaeth uchelgeisiol yn cael eu lliniaru i raddau gan swyddogaeth reoli perfformiad cryf sy'n gallu addasu i ganiatáu addasiadau angenrheidiol i'r rhaglen.
- Mae yna gyfle i drosoli 'Model Apollo' i gyflawni'r rhaglen drawsnewid a delio â materion trafferthus.
- Er bod yr arweinyddiaeth gref yn cael cefnogaeth sylweddol, bydd yn bwysig cofio am y potensial i ddibynnu'n ormodol ar unigolion allweddol. Mae angen mynd ar drywydd rhaglen datblygu arweinyddiaeth nad yw'n hierarchaidd sy'n ceisio creu cadre o arweinwyr ar draws yr awdurdod, gan leihau dibyniaeth ar nifer o unigolion.

Mae'r adroddiad Asesiad Perfformiad Panel yn gwneud 5 argymhelliad i'r Cyngor gyda ffocws ar fireinio a gwella dull y Cyngor o symud ymlaen â'r mentrau hyn. Mae'r argymhellion wedi'u nodi isod:

1. **Ffedereiddio…**
    - Dylai'r model ffederal gael ei gyflymu a'i gyflwyno'n gyflymach ac yn ddyfnach.
    - Dylid ymestyn y Gofrestr Risg Gorfforaethol i gynnwys risgiau hysbys, a'r ffordd bennaf o'u lliniaru yw gweithredu'n brydlon.
    - Mynd eto at Lywodraeth Cymru i geisio cytundeb ar gyfer cyllid ymlaen llaw a hefyd i roi hyblygrwydd i ganiatáu modelau newydd ar gyfer ein gwasanaethau.

2. **Marmot a Chymunedau…**

- Datblygu cynllun cyflawni yn gyflym sy'n ategu at yr egwyddor sy'n "arwain popeth a wnawn". Sef,
- Nodi camau gweithredu sydd eisoes wedi'u sefydlu mewn cynlluniau sy'n cyfrannu.
- Penderfynu pa egwyddorion sy'n mewnbynnu'r fwyaf ar lefel leol, a'u blaenoriaethu.
- Gosod cynlluniau gweithgareddau a thargedau clir ar gyfer canlyniadau penodol.

Yn unol â'r argymhelliad diweddarach ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu:

- Egluro i ddefnyddwyr a thrigolion y newidiadau sy'n deillio o'r egwyddorion.
- Creu naratif wedi'i deilwra i randdeiliaid, yn enwedig staff, sy'n manylu ar y newidiadau penodol i weithredu.

### 3. Ymyrraeth gynnar ac atal…

Argymhellir:

- Bod y fframwaith drafft sy'n datblygu yn cael ei amlygu ar draws y sefydliad wrth iddo esblygu.
- Angen sicrhau yn gyflym bod y systemau a'r data sydd eu hangen i gefnogi'r rhaglen hon yn llawn yn eu lle yn llwyr cyn gynted â phosibl.
- Bod y Fframwaith Perfformiad yn ymgorffori gweithgareddau a chanlyniadau penodol.
- Er mwyn hysbysu'r holl randdeiliaid, mae naratif wedi'i deilwra yn cael ei ddatblygu a'i gefnogi gan 'straeon' sy'n ymwneud ag effeithiau ar fywyd go iawn.

### 4. Cyfathrebu ac Ymgysylltu…

Mae'r Cyngor wedi buddsoddi amser ac ymdrech sylweddol i ymgysylltu â rhanddeiliaid a staff. Fodd bynnag, mae graddfa'r uchelgais a'r newid yn Nhorfaen yn hynod arwyddocaol ac mae angen cynyddu'r ymdrech i oleuo ac ymgysylltu ymhellach.

- Mae'n hanfodol fod y naratif o amgylch y newid yn cael ei deilwra i'r grwpiau rhanddeiliaid gwahanol, a'i dargedu i ddiwallu'r anghenion a'r diddordebau gan ddefnyddio iaith ac arddull addas.
- Mae'n amlwg fod egwyddorion yn cael eu deall yn eang ar draws rhanddeiliaid. Mewn meysydd allweddol (gweler isod) nid yw'r manylion yn glir eto.
- Mae'r ymrwymiad i ddiffinio 'Y Fargen Torfaen' yn elfen hanfodol y dylid ei chwblhau cyn gynted â phosibl.

### 5. Datblygu'r Sefydliad a Llesiant y Gweithlu

Mae graddfa'r newid y mae pawb yn Nhorfaen yn ei wynebu, a'i gyflymder, yn sylweddol, ac mae hynny'n anochel. Mae angen ailedrych ar gynllun datblygu'r gweithlu i sicrhau ei fod yn cefnogi staff yn ddigonol yn y meysydd canlynol, a, heb amheuaeth, mwy.

- Delio ag ansicrwydd / cydnerthedd personol.
- Rheoli newid.
- Dadansoddi sgiliau a chaffael arnynt.
- Digidol/data a gwybodaeth.
- Datblygu cynllun olyniaeth, gan gynnwys ar gyfer uwch-arweinwyr.
- Mae angen mynd ar drywydd rhaglen i ddatblygu arweinyddiaeth nad yw'n hierarchaidd, sy'n ceisio creu cadre o arweinwyr ar draws yr awdurdod a lleihau dibyniaeth ar nifer o unigolion.

Mae Adroddiad llawn yr Asesiad Perfformiad Panel ar gael i'w **lawrlwytho yma**.

## 6. Cyd-gysylltu ein Gofynion Deddfwriaethol

Mae'r darpariaethau a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) a Deddf Etholiadau Llywodraeth Leol (2021) hefyd yn cyd-fynd â dyletswyddau eraill a osodir ar gynghorau, er enghraifft Deddf Cydraddoldeb (2010), Mesur y Gymraeg (Cymru) (2011) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016).

Felly, bydd yr adran nesaf hon yn yr adroddiad yn darparu manylion am sut rydyn ni wedi bod yn gweithio tuag at y gofynion deddfwriaethol eraill hyn.

## Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023

Mae'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol yng Nghymru, a gyflwynwyd o dan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, yn gosod rhwymedigaeth statudol ar gyrff cyhoeddus penodol—gan gynnwys awdurdodau lleol—i ymgysylltu'n ystyrlon ag undebau llafur cydnabyddedig, neu gynrychiolwyr staff eraill, wrth osod amcanion llesiant a gwneud penderfyniadau strategol. Daeth y ddyletswydd hon i rym ar 1 Ebrill 2024 ac mae'n ategu at y rhwymedigaethau presennol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ei nod craidd yw ymgorffori arferion gweithio cydweithredol yn y sector cyhoeddus, gan sicrhau bod gan y rheiny sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus lais wrth lunio'r polisïau a'r camau gweithredu sy'n effeithio arnynt.

Rhaid i awdurdodau lleol nawr, "i'r graddau y mae'n rhesymol," geisio consensws neu gyfaddawdu gyda chynrychiolwyr staff ar gamau ffurfiannol, wrth ddatblygu polisi. Mae hyn yn cynnwys rhoi digon o wybodaeth ac amser i'w hystyried yn iawn ac ymateb. Mae'r ddyletswydd hefyd yn gofyn am adroddiadau blynyddol: rhaid i bob awdurdod gyhoeddi adroddiad sy'n manylu ar sut y mae wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd, cytuno ag undebau llafur lle bo hynny'n bosibl, neu yn esbonio pam na ddaeth i gytundeb.

Mae'r Cyngor yn bwriadu adrodd yn flynyddol am sut y mae wedi cyflawni ei gyfrifoldebau o dan y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol trwy'r adroddiad blynyddol hwn.

Mae gan y Cyngor fforymau ymgynghorol wedi eu sefydlu'n dda gyda'r Undebau Llafur cydnabyddedig sy'n cyfarfod yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn. Mae'r fforymau yn gyfle ffurfiol i Aelodau, Swyddogion a chynrychiolwyr Undebau Llafur ymgysylltu â'i gilydd am faterion strategol a pholisi pwysig sy'n effeithio ar y Cyngor a'i weithwyr.

Eleni, mae'r ymgynghoriad a'r ymgysylltu wedi canolbwyntio ar ddatblygu'r model ffederal rhwng Cynghorau Torfaen a Blaenau Gwent, datblygu rolau ar y cyd ar draws y ddau gyngor a datblygu'r cynlluniau trawsnewid i ddatblygu ffordd gydweithredol o ddarparu gwasanaethau. Mae hefyd wedi rhoi cyfle i ymgysylltu'n gynnar â chynlluniau i drawsnewid gwasanaethau, ac, eleni, mae'r ymgysylltiad hwnnw wedi cynnwys rhaglen drawsnewid fawr ynghylch ymyrraeth gynnar ac atal o fewn gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Ymgynghorwyd â Chynrychiolwyr Undebau Llafur hefyd, trwy'r fforwm, ar newidiadau i'r Cynllun Sirol a ddaeth yn sgil newidiadau i'r diffiniadau ar gyfer nodau llesiant sy'n gysylltiedig â gwaith yn Neddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Yn ogystal â'r fforymau ymgynghorol ffurfiol sy'n cael eu cynnal bob chwarter, mae'r Prif Weithredwr yn cwrdd â Chynrychiolwyr Undebau Llafur bob deufis i drafod datblygiadau strategol a pholisi sy'n effeithio ar y Cyngor a'i weithwyr, yn ogystal ag unrhyw faterion gweithredol a allai fod yn berthnasol ar y pryd. Mae'r Pennaeth Adnoddau Dynol hefyd yn cwrdd â Chynrychiolwyr Undebau Llafur yn fisol i drafod unrhyw faterion gweithredol sy'n effeithio ar weithwyr a'r gweithle.

## Cydraddoldeb ac Amrywiaeth



Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd benodol ar gynghorau i ddatblygu a chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol bob pedair blynedd, ynghyd ag Adroddiad Blynyddol am Gydraddoldeb sy'n nodi'r cynnydd yn erbyn yr Amcanion Cydraddoldeb a gyflwynwyd yn y Cynllun.

Datblygwyd **Cynllun Cydraddoldeb Strategol ein Cyngor ar gyfer 2024 i 2028** i lywio ymdrechion y Cyngor i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ac i ddangos ein hymrwymiad parhaus i fodloni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, y dyletswyddau ychwanegol sy'n benodol i Gymru a Deddf Cydraddoldeb 2010.

Fel Cyngor Marmot, rydyn ni wedi ymrwymo i egwyddorion cynhwysiant, tegwch, canlyniadau teg a chyfiawnder cymdeithasol ac rydyn ni’n ymdrechu i sicrhau bod hyn yn cael ei ddangos yn ein harferion

cyflogaeth, ein hagwedd ac ymddygiad ein staff ac yn y ffordd yr ydyn ni’n darparu ein gwasanaethau.

Er gwaethaf heriau ariannol sydd wedi lleihau capasiti staff mewn cydraddoldeb yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac sydd wedi cynyddu'r pwysau ar staff yn sylweddol, rydyn ni’n parhau i ymdrechu i gynnal ein gwasanaethau a'u gwella, fel eu bod yn gweithio i'r bobl a'r grwpiau a gwmpesir sy'n dod o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, ac yn amddiffyn hawliau.

Dylid nodi bod y buddsoddiad bach iawn mewn gwaith ataliol ym maes cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn arbed costau. Waeth a ydyw'n sicrhau cydymffurfiaeth ac yn osgoi gwahaniaethu a heriau cyfreithiol costus, datblygu polisi mewn ffordd sy'n osgoi problemau yn y dyfodol, neu harneisio profiad bywyd grwpiau gwarchodedig fel ein Fforwm Mynediad Torfaen – gan ddarparu ymgynghoriaeth am ddim mewn gwirionedd – nid ideoleg yw ein gwaith Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ond yn hytrach ein gallu i gwrdd â'n cyfrifoldebau cyfreithiol amrywiol yn effeithiol ac, yn aml, gwneud pethau'n iawn, y tro cyntaf.

Nid oes disgwyl i'n Hadroddiad Blynyddol am Gydraddoldeb gael ei gyhoeddi tan 31 Mawrth 2026. Fodd bynnag, mae'r cynnwys wedi'i goladu a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor erbyn diwedd 2025. Gosodir camau gweithredu yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028 i mewn i Gynlluniau Gwasanaeth ac felly mae'r cynnydd yn destun monitro perfformiad rheolaidd.

Pwyntiau allweddol ynglŷn â pherfformiad ein sefydliad a rhai o effeithiau'r gwaith hwn:

- Fe wnaethom gyrraedd y dyddiad terfyn statudol o 31 Mawrth 2025 ar gyfer cyhoeddi ein Hadroddiad Blynyddol am Gydraddoldeb ar gyfer 2023-2024
- Gwnaethom gynnydd da yn erbyn nifer o gamau gweithredu a gyhoeddwyd yn y cynllun gweithredu sy'n eistedd o dan ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer 2024-2028.
- Cafwyd adborth gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol am gydymffurfiaeth y Cyngor a chydymffurfiaeth llywodraeth leol yn ehangach â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ym mis Gorffennaf 2025. Roedd ein hadborth yn gadarnhaol ar y cyfan ond tynnodd sylw at rai mân ddiffygion i'w datrys a'r angen i'r Cyngor nodi Amcan Cydraddoldeb penodol ynghylch y Ddyletswydd economaidd-gymdeithasol.
- Fe wnaethom ddatblygu'r Grŵp Cyfranogol mewnol i sicrhau'r disgwyliadau o ymgysylltu â grwpiau gwarchodedig, fel y rhestrir yn Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus y Cyngor. Mae 45 o swyddogion o sawl cyfarwyddiaeth wedi bod yn y cyfarfodydd, gan gael arweiniad ynghylch ymgynghori cynhwysol a chefnogaeth, i sicrhau bod lleisiau cymunedol amrywiol yn cael eu clywed.
- Ganwyd rhwydwaith staff ac aelodau Meddyliau Amrywiol, sy'n datblygu ein dealltwriaeth am niwroamrywiaeth. Mae pecyn cymorth yn cael ei ddatblygu i gefnogi staff a rheolwyr, a fydd yn cynyddu effeithlonrwydd a llesiant staff niwrowahanol a niwronodweddiadol. Mae cyfarfodydd hefyd wedi sbarduno trafodaeth ar sut y gellir dosbarthu technoleg i wneud y mwyaf o'i buddion posibl, wedi ei hariannu o bosibl gan gyllid Mynediad at Waith.
- Tynnodd adolygiad o ddata am recriwtio mewn perthynas ag ethnigrwydd sylw at ganfyddiadau cadarnhaol, gan nodi diffyg gwahaniaethu.
- Ar ôl adolygu ein prosesau a'u newid, fel bod y Swyddog Cydraddoldeb yn cael ei hysbysu'n fwy prydlon am gŵynion corfforaethol sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb, mae staff yn cael eu cefnogi'n well i ddeall goblygiadau unrhyw gŵynion ac ymateb yn unol â hynny, gan gynnwys addasu arferion lle bo angen.
- Fe wnaethom ymateb yn brydlon i nifer cynyddol o gŵynion a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth (manylir ar y cyntaf yn yr Adroddiad Blynyddol am Gydraddoldeb).

- Mae Hwb Cyn-filwyr Torfaen wedi'i ddatblygu, wedi cael cyfansoddiad ac wedi sicrhau cyllid. Ar hyn o bryd mae'n cefnogi hyd at 50 o gyn-filwyr bob wythnos
- Wedi'i oleuo gan adolygiadau llofruddiaethau domestig lleol sy'n ymwneud â phobl 60+ oed, gweithiodd ein swyddog Cymunedau Oed-gyfeillgar gyda Chyngor Dinas Casnewydd a Thîm VAWDASV Rhanbarthol Gwent i gyfrannu at gynhyrchu fideo Ymwybyddiaeth am Gam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn erbyn Pobl Hŷn.

Cydweithio ar draws Gwent a thu hwnt - mae ein gwaith ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael ei oleuo gan y Ffyrdd o Weithio a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac egwyddorion cydweithio a chyd-gynhyrchu. Parhaodd staff i fynd i gyfarfodydd swyddogion cydraddoldeb a gydlynwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i gefnogi arfer da ledled Cymru, gweithio'n agos gyda Thîm Cydlyniant Gorllewin Gwent a swyddogion cydraddoldeb ar draws Gwent a chymryd rhan yng ngweithgareddau'r rhwydwaith Cynghorau Balch i ddangos yn allanol bod Torfaen yn lle i bawb, lle nad yw gwahaniaethu yn cael ei oddef.

## Y Gymraeg

Yn rhan o'n rhwymedigaethau o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, rhaid inni gyhoeddi strategaeth bum-mlynedd sy'n dangos sut y byddwn yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ehangach yn y Fwrdeistref.



Cymeradwywyd Strategaeth y Gymraeg gan y Cyngor ar 27 Chwefror 2024, ac mae'n amlinellu ein cyfeiriad strategol yn ystod 2024 – 2029, a fydd yn cynorthwyo twf y Gymraeg yn y Fwrdeistref, yn cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o un miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a Chynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg (WESP) y Cyngor. Rydyn ni'n adrodd am ein cynnydd yn erbyn y strategaeth hon gerbron y Cyngor bob blwyddyn, yn ein **Hadroddiad Blynyddol am Safonau'r Gymraeg**.

Yn ystod 2024/25 mae gennym ni:

- **Strategaeth Hyrwyddo 5-Mlynedd –** Rydyn ni'n parhau i weithio gyda Menter Blaenau Gwent, Torfaen a Mynwy, a sefydliadau partner eraill i gyflawni canlyniadau ein strategaeth 5-mlynedd (2024 – 2029). Mae'r Strategaeth yn cwmpasu 5 maes allweddol: 1) Deddfwriaeth a Pholisi 2) Addysg 3) Y Gymuned 4) Darparu Gwasanaethau 5) Y Gweithle.
  Mae'r Strategaeth wedi'i halinio'n agos â'n Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg (WESP) a Strategaeth Llywodraeth Cymru – Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn cynnal adolygiad o Strategaethau Hyrwyddo ledled Cymru yn ystod 2025/2026.
  .
- **Archwiliad Sgiliau Staff -** Mae gennym lawer o staff sydd wedi mynd trwy addysg cyfrwng Cymraeg yn y Fwrdeistref, ond gwyddom fod sgiliau yn aml yn cael eu hanghofio, a hyder yn cael ei golli. Hoffem gefnogi ein staff i barhau i ddefnyddio'r sgiliau bywyd hynod werthfawr hynny. Bydd hyn hefyd yn ein galluogi i ddeall ble mae gennym fylchau sgiliau fel y gallwn fynd ati i geisio llenwi'r rhain trwy recriwtio a/neu hyfforddi yn y dyfodol.
  Ddechrau 2024, lansiwyd ymgyrch newydd i annog ein staff i gofnodi eu sgiliau iaith ar iFOR (ein system Adnoddau Dynol) gan ddefnyddio'r lefelau CEFR. Mae'r 7 lefel sgiliau sy'n amrywio o ddechreuwr llwyr (A1) i 'rhugl' (C2) yn gysylltiedig â chymhwyster cydnabyddedig a fframweithiau asesu eraill, er mwyn ein halinio â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus.

- **Cael Gwared ar Rwystrau -** Ym mis Ebrill 2024, cafodd ein harfer o godi tâl mewnol ar bob cyfarwyddiaeth am waith cyfieithu, ei ddileu, gan leddfu'r rhwystrau yr oedd rheolwyr yn eu hwynebu wrth geisio sicrhau cydbwysedd rhwng straen ar y gyllideb a chydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Yn ogystal, fe wnaethom symud draw at system electronig ar gyfer gofyn am gyfieithiadau a thracio gwaith cyfieithu, gan symleiddio'r broses i staff a chyfieithwyr. Mae'r newidiadau hyn wedi ein galluogi i roi mwy o bwyslais ar hyrwyddo'r Gymraeg a gwella ein gwasanaethau Cymraeg ar gyfer ein trigolion. Yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf mae'r Cyngor wedi bod yn rhan o gynllun peilot Llywodraeth Cymru. Ymgyrch sy'n anelu at annog pobl o bob cefndir i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu plant. Mae'r bartneriaeth 'Cymraeg i Bawb' wedi bod mor llwyddiannus fel ei bod bellach yn cael ei gwthio

Iedled Cymru gyda chymorth Mentrau Iaith Cymru.

- **Digwyddiadau Diwylliannol -** I ddathlu diwylliant Cymru mewn partneriaeth â Menter Iaith Blaenau Gwent, Torfaen a Mynwy, mae'r Cyngor yn parhau i gefnogi'r ŵyl 'Torf-hwyl'. Digwyddiad sy'n llawn cerddoriaeth, storïa a gweithgareddau sy'n anelu at hyrwyddo diwylliant Cymru ymhlith plant a phobl ifanc, waeth beth fo'u cefndir.
  Cynhaliwyd y digwyddiad yn Ysgol Panteg yn 2024/2025. Fe fu'r Cyngor hefyd yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o Ddydd Gŵyl Dewi, Dydd Santes Dwynwen, a'r Eisteddfod trwy gydol y flwyddyn. Cyflawnwyd hyn yn bennaf trwy gyfathrebu'n fewnol gyda staff, bwydlenni thematig yn y Caffi Ysbrydoli, ac arddangos baneri amrywiol y tu allan i'r Ganolfan Ddinesig.

- **Datblygu Polisi –** Mae'r Cyngor wedi cryfhau ei Asesiad Effaith Integredig yn dilyn cyngor gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'r asesiad bellach yn cyfeirio at yr "ymdrech gydwybodol" sydd ei hangen ar gyfer pob penderfyniad polisi. Mae modiwl hyfforddi ar-lein newydd wedi'i datblygu i eistedd ochr yn ochr â'r Asesiad Effaith Integredig ac yn cynorthwyo rheolwyr ac uwch-swyddogion i wneud "ymdrech gydwybodol" wrth asesu effeithiau cadarnhaol ac andwyol y polisi, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, ar y Gymraeg. Mae'r angen i asesu effeithiau yn gynharach yn y broses o ddatblygu polisïau yn parhau i fod yn rhan allweddol o'r broses. Rydyn ni wedi gweithio gyda chydweithwyr yn yr adran Datblygu Corfforaethol i sicrhau bod hyn yn cael ei nodi'n glir wrth yr holl swyddogion sy'n gysylltiedig â chwblhau'r Asesiad Effaith Integredig.

## Bioamrywiaeth



Mae bioamrywiaeth yn thema drawsbynciol i lywodraeth leol ac mae yna gysylltiadau cryf â phob mater datblygu cynaliadwy arall. Mae yna nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth gan gynnwys Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sy'n gosod dyletswydd ar bob adran awdurdod lleol i ystyried bioamrywiaeth. Rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn bodloni ein rhwymedigaethau i warchod a gwella bioamrywiaeth yn Nhorfaen trwy gamau gweithredu a gyflwynwyd yn ein Cynllun Bioamrywiaeth a chydnerthedd Ecosystemau, a'n Cynllun Gweithredu ar gyfer yr Argyfwng Hinsawdd a Natur.

Yn Nhorfaen mae yna gynefinoedd naturiol o ansawdd uchel ac mae'n cynnwys ardaloedd sydd o bwysigrwydd cenedlaethol a lleol o ran cadwraeth. Mae pedwar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, tua 200 o Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur ac wyth Gwarchodfa Natur Leol. Mae Afon Llwyd yn goridor ecolegol pwysig yn Nhorfaen ochr yn ochr â chamlas Sir Fynwy ac Aberhonddu.

Mae'r cynefinoedd allweddol yn cynnwys coetiroedd collddail hynafol, coetiroedd hynafol, gwlyptiroedd, glaswelltir sy'n gyfoeth o rywogaethau a rhostir yr ucheldir sy'n cael ei ddominyddu gan grug. Mae coetiroedd yn gyffredinol yn cynnwys tua 5% o gyfanswm yr arwynebedd yn Nhorfaen, ac mae yna lawer o enghreifftiau o goetiroedd hynafol yng Nghwmbrân sydd dros 400 mlwydd oed.

Mae Cynllun Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Torfaen a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Torfaen yn nodi sut y byddwn yn gwarchod ac yn gwella bioamrywiaeth gyfoethog ac amrywiol y Fwrdeistref yn unol â'n dyletswydd statudol a nodir yn Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r cynllun, a hwylusir gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Torfaen, yn cynnwys cynllun gweithredu i sicrhau ein bod yn bodloni ein rhwymedigaethau statudol penodol.

Mae gennym rôl statudol allweddol ym maes rheoli datblygu i ddarparu arbenigedd a chyngor ecolegol trwy'r broses gynllunio, i sicrhau bod ein rhwymedigaethau fel Awdurdod Lleol fel y nodir ym mholisi Cynllunio Cymru 12, yn cael eu bodloni'n llawn.

Yn ystod 2024/25 rydyn ni wedi:

- Dynodi Gwarchodfa Natur newydd – Gwarchodfa Natur Leol Blaenserchan – agoriad swyddogol ar 5 Gorffennaf gyda digwyddiad Bioblitz.
- Rheoli 8 Gwarchodfa Natur Leol er budd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecolegol, yn ogystal â phobl a chymunedau.

- Trwy Bartneriaeth Natur Leol Blaenau Gwent a Thorfaen, dechreuwyd paratoadau ar gyfer prosiectau trawsffiniol yn unol â'r amcanion yn ein NRAP..
- Cyflwynwyd hyfforddiant wedi'i deilwra'n arbennig i'r Tîm Eiddo – 'Ystlumod a'r Amgylchedd Adeiledig' i leihau unrhyw achosion posibl o dorri deddfwriaeth rhywogaethau gwarchodedig mewn gwaith prosiect.
- Dechreuodd y broses o gynnal adolygiad o'n Cynllun Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau – sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd.
- Cefnogwyd y gwaith o gyflawni Strategaeth a Chynllun Gweithredu Argyfwng Hinsawdd a Natur Torfaen.
- Trwy brosiectau Gwent Gydnerth a Lleoedd Lleol ar gyfer Natur a ariennir gan LIC, gweithiom mewn partneriaeth i gyflawni prosiectau gwella bioamrywiaeth a llesiant yn y gymuned – gan gynnwys pyllau newydd, plannu coed, adfer glaswelltir a pherllannau a gerddi cymunedol.
- Plannwyd 9700 o goed
- Parhawyd â rhaglen bori er budd cadwraeth ar draws sawl safle gan gynnwys Gwarchodfa Natur Leol Llwyn Celyn, Gwarchodfa Natur Leol Llynnoedd y Garn, safle Dôl Abaty Llantarnam, Perllan y Llyn Cychod, Cae Pentwyn, Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur Llantarnam, Glaswelltiroedd Tŷ Coch a Maenor Llanyrafon.
- Gwaith parhaus i adfer a rheoli glaswelltir ar gyfer bioamrywiaeth.
- Trefnu digwyddiadau cyhoeddus i ddathlu Wythnos Natur Cymru, gan gynnwys Digwyddiad Ewch yn Wyllt ym Mharc Pont-y-pŵl
- Gweithio'n agos gyda'n Tîm Cyfathrebu i ryddhau gwybodaeth i'n trigolion am straeon / newyddion sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth
- Rhoi cyngor parhaus i'r broses o gynllunio defnydd tir o ran y gofyniad statudol i warchod a gwella bioamrywiaeth trwy benderfyniadau am gynllunio.
- Adolygu'r meini prawf a ddefnyddir i ddynodi Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur.
- Prynu Coed Meyric Moel, sef ardal o goetir a glaswelltir ger Gwarchodfa Natur Leol Henllys
- Mapio Rhywogaethau Estron Goresgynnol
- Cynhaliwyd Gŵyl Natur mewn ysgol gynradd gyda chefnogaeth ein swyddog Atal Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon
- Gwaith partneriaeth gyda chynghorau cymuned, e.e. gosod blychau ar gyfer gwenoliaid du yng Nghanol Tref Pont-y-pŵl
- Cynhyrchu ffilm ar gyfer prosiect Parc Rhanbarthol y Cymoedd sy'n hyrwyddo'r gwaith rydyn ni'n ei wneud dros fioamrywiaeth ar draws ein Bwrdeistref.
- Ffilmiau/fideos byrion eraill
- Cynhyrchu ffilm am werth gwlyptiroedd
- Mae Pwyllgor Craffu Yr Economi a'r Amgylchedd y Cyngor wedi adolygu ein ffordd o reoli mannau gwyrdd, gan ystyried dyletswydd bioamrywiaeth y Cyngor.

## 7. Cost ein Gwasanaethau (ein cyllideb ar gyfer 2024/25)

### Ein Cyllideb Refeniw

Mae ein perfformiad ariannol ar gyfer 2024/25 wedi'i gynnwys yn ein Datganiad Cyfrifon drafft | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen



Cymeradwywyd cyllideb refeniw 2024/25 gan y Cyngor ym mis Chwefror 2024, gyda chyllideb refeniw gros o £342.2 miliwn a ariannwyd o £110.3 miliwn o grantiau gan y llywodraeth sy'n benodol i wasanaethau, ffioedd a thaliadau am wasanaethau a chyllid a chyfraniadau eraill. Ariannwyd y gyllideb net o £232 miliwn o £178.4 miliwn o gyllid heb ei neilltuo gan Lywodraeth Cymru a £53.4 miliwn o'r Dreth Gyngor.

Cynhyrchodd alldro refeniw 2024/25 sefyllfa net ffafriol, ar ôl cyfraniadau i gronfeydd wrth gefn penodol, o £834,000 yn erbyn ei gyllideb o £232 miliwn. Cyflawnwyd hyn heb dynnu cyfraniadau o Weddill y Gronfa Gyffredinol i gefnogi straen amrywiol, mewn Gwasanaethau Oedolion ac Addysg. Wrth ddarparu ei wasanaethau bob-dydd, gwariodd y Cyngor (gan gynnwys ei ysgolion) wariant gwirioneddol gros o £359.9 miliwn, gan gynnwys costau cyflogeion o £173.0 miliwn, costau rhedeg o £177.1 miliwn a chostau cyfalaf o £9.8 miliwn.

Dyma grynodeb o'r prif resymau ffafriol dros y sefyllfa alldro:

- Arbediad ffafriol o swyddi gwag staff / trosiant ar draws pob maes gwasanaeth.
- Dau grant mawr gan Lywodraeth Cymru ar gyfer straen cyffredinol.
- Cyllid grant penodol ychwanegol yn fwy na'r hyn y cyllidebwyd ar ei gyfer.
- Incwm o log mewn cysylltiad â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.
- Gwarged cyffredinol o'r Dreth Gyngor o gymharu â'r hyn y cyllidebwyd ar ei gyfer.
- Galw is na'r hyn y cyllidebwyd ar ei gyfer mewn perthynas â Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.
- Arbediad yn y flwyddyn yn erbyn y gyllideb ar gyfer y cynllun ymadawyr ysgol.
- Cwblhau adolygiad o'r fantolen ac adfer eitemau priodol.

Er gwaethaf y sefyllfa gadarnhaol gyffredinol, roedd straen yn ymwneud â:

- Nifer y lleoliadau gofal cymdeithasol i blant a'u cost.
- Nifer y lleoliadau gofal cymdeithasol trydydd parti i oedolion a'u cost.
- Costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu.
- Diffyg Cymhorthdal Budd-dal Tai sy'n deillio o'r defnydd o lety gwely a brecwast dros dro i gefnogi achosion o ddigartrefedd.

### Ein Cyllideb Cyfalaf

Yn ogystal â'r gwariant refeniw, gwariodd y Cyngor £41 miliwn hefyd ar ei asedau trwy ei raglen gyfalaf ar gyfer 2024/25, a oedd yn cynnwys gwariant ar y cynlluniau canlynol:

Gweithredu'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy trwy:

- ehangu ysgol Crownbridge ac adeiladu ysgol gynradd newydd Maendy.
- cyflwyno cynlluniau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, gan gynnwys meysydd 3G newydd.
- cwblhau'r cyfleuster parcio a theithio yng ngorsaf drenau Pont-y-pŵl a'r Dafarn Newydd.
- adnewyddu Fferm Gymunedol Greenmeadow.
- buddsoddiad parhaus yn y seilwaith priffyrdd ac ystadau adeiladu.
- buddsoddi mewn mesurau effeithlonrwydd ynni.
- buddsoddiad parhaus mewn grantiau cyfleusterau i'r anabl i gefnogi'r dinasyddion mwyaf agored i niwed.

## 8. Ymgynghori ynghylch ein Perfformiad

### Cyfranogiad y Cyhoedd

Cymeradwywyd strategaeth gyfranogi ar gyfer Plant a Phobl Ifanc gan ein Haelodau Cabinet, ar ôl mabwysiadu Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd yn 2022.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, cafwyd 28,726 o ymweliadau â thudalennau ein hwb ymgysylltu ar-lein, Cymryd Rhan Torfaen. Roedd 205 o gofrestriadau newydd, gan ddod â'r cyfanswm i 902 o danysgrifwyr. Mae'r tanysgrifwyr hyn yn cael cylchlythyrau rheolaidd yn dweud wrthynt am ymgynghoriadau newydd a diweddariadau am y rhai sydd wedi cau.

Rydyn ni wedi cyhoeddi 27 o ymgynghoriadau, a ddenodd gyfanswm o 6,858 o gyfraniadau. Roedd yr uchafbwyntiau'n cynnwys:

- Digonolrwydd Chwarae – 1,902 ymweliad – 1,165 arolwg
- Cyllideb 2025/26 – 754 ymweliad – 233 arolwg
- Rheoli Parciau – 797 ymweliad 438 arolwg
- Hawliau Tramwy – 500 ymweliad – 311 arolwg
- Marchnad Pont-y-pŵl – 371 ymweliad – 164 arolwg
- Strategaeth Fwyd – 207 ymweliad – 86 arolwg
- Mynwentydd – 519 ymweliad – 258 arolwg

- Chwaraeon a Hamdden – 348 ymweliad – 227 arolwg
- Campfa Awyr Agored Cwmbrân – 383 ymweliad – 178 arolwg
- Adolygiad 20mya – 680 ymweliad – 256 arolwg
- Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus – 438 ymweliad – 255 arolwg

Rhwng mis Tachwedd a mis Ionawr 2024, ail-lansiwyd ein harolwg newydd i drigolion ar ôl bwlch o ddwy flynedd. Roedd yr arolwg yn seiliedig ar arolwg newydd Data Cymru CLILC sy'n galluogi awdurdodau lleol i feincnodi eu canlyniadau yn erbyn cynghorau eraill yng Nghymru. Cafodd yr arolwg 3,300 o ymweliadau ac fe'i llenwyd 2,049 o weithiau.

Aeth yr holl ymgynghoriadau i 3,700 o gysylltiadau ar y rhestr bostio ar gyfer datganiadau i'r cyfryngau, gan gynnwys y wasg ranbarthol a lleol. Yn ogystal, cawsant eu hyrwyddo mewn bwletinau Newyddion Wythnosol i ychydig o dan 15,000 o drigolion bob tro. Mae'r rhain hefyd wedi'u hanfon at ein holl Aelodau Ward.

Ar gyfer pob ymgynghoriad, ymgysylltodd timau gwasanaethau â rhanddeiliaid sylfaenol eraill mewn 39 o ddigwyddiadau ymgysylltu wyneb yn wyneb.

Mae ein Tîm Ymgysylltu Corfforaethol yn ymgysylltu'n rheolaidd â'n fforymau dinasyddion, gan gynnwys y fforwm ieuenctid, y gynghrair ieuenctid a thri fforwm 50+, a grwpiau diddordeb arbennig, gan gynnwys Fforwm Mynediad Torfaen, sy'n cefnogi pobl ag anableddau a grŵp gwirfoddolwyr y gamlas, Bridge 46.

Ym mis Medi 2024, sefydlwyd Panel y Bobl Torfaen yn rhan o swyddogaeth 'Cymryd Rhan' y Cyngor ar ei newydd wedd. Ar ôl lefel isel o gyfranogwyr, estynnwyd y panel i gynnwys yr holl fforymau dinasyddion a grwpiau cymunedol. Erbyn hyn mae ganddo 73 aelod sy'n barod i gymryd rhan mewn ymgynghoriadau mwy manwl.

Sefydlwyd Grŵp Cyfranogol hefyd i wella ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd, gan roi pwyslais ar oleuo'r cyhoedd ynghylch sut mae eu cyfraniadau wedi dylanwadu ar bolisïau neu strategaethau neu eu newid.

Cynhelir cyfarfodydd bob chwe wythnos ac maent wedi cynnwys trafodaethau am ddiogelu data, hygyrchedd ac arfer gorau ar gyfer ymgynghoriadau.

Bob chwarter, rydyn ni hefyd yn estyn allan at feysydd gwasanaeth allweddol i gael adborth am safbwyntiau defnyddwyr eu gwasanaethau, gan gynnwys adborth busnes-yn-ôl-yr-arfer ac arolygon blynyddol o ddefnyddwyr gwasanaethau.

Yn ystod 2024/25, cynyddodd nifer y tanysgrifwyr i'n datganiadau i'r wasg a'n cylchlythyrau digidol 578, ond gostyngodd nifer y tanysgrifiadau. Ar y cyfan mae gennym 25,239 o danysgrifwyr a 75,675 o danysgrifiadau. Fe wnaethom anfon 506 bwletin, a oedd â chyfradd agor cyfartalog o 38% a chyfradd glicio o 3.9% i bob bwletin.

Mae ein datganiadau i'r wasg yn cyrraedd y papurau newydd lleol yn rheolaidd (South Wales Argus a Pontypool Free Press) ac weithiau BBC Cymru ac ITV Cymru. Mae hyn yn helpu i gyfleu enghreifftiau o'n perfformiad at gynulleidfa ehangach.

Y cyfryngau cymdeithasol yw prif ffordd ein Tîm Cyfathrebu o ymgysylltu'n uniongyrchol â'n trigolion.

Mae gennym:

- Bron i 43,000 o ddilynwyr ar ein 3 phrif safle cyfryngau cymdeithasol – Facebook, 23k, X 15.6k, Instagram 3.1k (70% benywaidd / 30% gwrywaidd).
- Cafodd ein negeseuon 8.5m o argraffiadau a chyrraedd 7.5m.
- Sianel WhatsApp y Cyngor sy'n tyfu.

Fe wnaethom gynhyrchu dau rifyn o Llais Torfaen yn ystod 2024/25 sy'n boblogaidd iawn ymhlith trigolion hŷn a'r rheiny sydd ddim yn ein dilyn ni ar-lein.

Ym mis Medi, fe wnaethom gyflwyno cylchgrawn Yr Eco newydd i ysgolion. Nod y cylchgrawn, a gyhoeddir bob tymor, yw hyrwyddo ailgylchu ac arferion sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd mewn ysgolion, a'u hannog.

## Ymateb i Gŵynion

Byddwn bob amser yn anelu at ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf ar gyfer ein trigolion a'n busnesau yn Nhorfaen, ond weithiau fyddwn ni ddim yn cael popeth yn iawn. Pan na fyddwn yn cael pethau'n iawn, rydyn ni'n annog pobl i ddweud wrthym trwy gŵyn ac i roi gwybod i ni os ydyn nhw'n teimlo ein bod wedi eu gadael i lawr mewn unrhyw ffordd. Os nad ydyn ni wedi gallu datrys cwyn yn anffurfiol ar y pwynt y caiff ei mynegi, gellir cyflwyno cwyn ffurfiol i ymchwilio iddi. Mae ein proses gwyno wedi'i chynllunio i'n helpu i:

- Gael pethau'n iawn i'r achwynydd.
- Gwneud yn siŵr nad ydyn ni'n gwneud yr un camgymeriad eto, a
- Gwella ein gwasanaethau i bawb.

Rydyn ni'n adolygu ein proses gŵynion, yn ei monitro ac yn adrodd amdani'n rheolaidd trwy gydol y flwyddyn. Mae'r gwaith adolygu hwn yn cynnwys edrych ar nifer y cwynion sy'n dod i law ar draws ein gwasanaethau ac adolygu pa mor effeithlon ac effeithiol y maent yn cael eu datrys. Rydyn ni'n asesu'r wybodaeth hon yn gyson ac yn defnyddio canlyniadau cwynion i edrych i weld lle gellid gwneud gwelliannau i'n polisïau a'n gweithdrefnau.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd archwiliad mewnol o Gŵynion Corfforaethol a Gofal Cymdeithasol a chafwyd sicrwydd llwyr.

Bob blwyddyn, mae **Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r** Cyngor yn cael adroddiad blynyddol am gŵynion ac yn ei adolygu cyn i'r Cabinet ei gymeradwyo. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn chwarae rhan statudol hanfodol wrth herio effeithiolrwydd proses gŵynion y Cyngor gan sicrhau ei bod yn cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd.

Ceir trosolwg o'n perfformiad isod:

| Cwynion a ddaeth i law ac yr ymatebwyd iddynt | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn Ariannol | Cam 1 | Ateb Hwyr | % ar amser | Cam 2 | Ateb Hwyr | % ar amser | OGCC* | Ymchwiliad gan OGCC |
| 2022/23 | 135 | 4 | 97.04% | 3 | 0 | 100% | 18 | 0 |
| 2023/24 | 224 | 6 | 97.3% | 10 | 3 | 70% | 14 | 0 |
| 2024/25 | 166 | 2 | 98.8% | 20 | 3 | 85% | 18 | 0 |

Bu gostyngiad mewn cwynion cam un yn 2024/25, gyda gostyngiad sylweddol ar gyfer gwasanaethau Gwastraff yn dilyn diweddariadau i drefniadau casglu. Roedd gwelliannau sylweddol hefyd mewn cyfathrebu ar draws meysydd gwasanaeth eraill, gan helpu i atal ymholiadau rhag troi yn gŵynion.

Mae'n bwysig fod achwynwyr yn dilyn y broses gwyno yn llawn cyn cysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), felly mae'r tîm wedi cofnodi'n rhagweithiol nifer uwch o gŵynion cam 2 ar draws y ddwy broses. Mae'r cynnydd bach yn y cwynion a wnaed i OGCC yn adlewyrchu hyn. Mae'n werth nodi hefyd fod nifer o gyflwyniadau gan ddau/dri achwynydd sy'n cael eu cyfrif ar wahân yn ffigurau'r Ombwdsmon. Ni chynhaliwyd unrhyw ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae nifer y cwynion a gafwyd gan OGCC yn dal i fod yn isel iawn o gymharu ag awdurdodau lleol eraill ac mae hyn yn rhoi hyder i ni fod ein prosesau mewnol ni ein hunain yn deg ac yn gadarn.

Ceir rhagor o wybodaeth am berfformiad ein proses gwyno yn ein **Hadroddiad Blynyddol am Gŵynion** diweddaraf.

# 9. Cyflawni ein Cynnydd a'i Fonitro

Ers cyflwyno ein Cynllun Sirol newydd, rydyn ni wedi bod yn y broses o ddatblygu ein hymagwedd at Reoli Perfformiad, Cynllunio Gwasanaethau a Rheoli Risgiau yn sylweddol, gyda'r nod o gefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Sirol newydd y Cyngor.

Mae ein ffordd ddiwygiedig o drafod perfformiad hefyd wedi bod mewn ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021 ac Arweinyddiaeth newydd o fewn y Cyngor, sydd wedi rhoi mwy o amlygrwydd i strwythurau, prosesau a diwylliant y Cyngor o ran perfformiad.

Mae'r Ddeddf yn ystyried hunanasesu effeithiol fel elfen sy'n sylfaenol i alluogi Cynghorau i ddeall sut maen nhw'n perfformio a ble y gallent wneud yn well. Mae ein trefniadau ar gyfer adrodd am berfformiad felly yn hanfodol i ymateb y Cyngor i'r Ddeddf.

Yn unol ag ethos Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021, mae ein Fframwaith Rheoli Perfformiad yn ymwneud cymaint â gweithredu newidiadau i brosesau, ag y mae'n ymwneud â meithrin diwylliant newydd o hunanasesu a gwella'n barhaus yn y Cyngor, trwy roi llawer mwy o amlygrwydd i gynllunio gwasanaethau a phwysigrwydd monitro perfformiad fel mater o drefn.

Mae ein cynlluniau gwasanaethau wedi'u datblygu i sicrhau bod cysylltiad clir rhwng cynlluniau cyfarwyddiaeth, y Cynllun Sirol a strategaethau corfforaethol allweddol. Felly, bydd monitro cynlluniau gwasanaethau fel mater o drefn yn galluogi'r Cyngor i fonitro camau gweithredu allweddol sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Sirol a chynlluniau cyflawni strategol y Cyngor. Mae ein ffordd o weithio felly'n parhau i gael ei feithrin, ei gefnogi a'i herio'n ofalus, wrth iddi ddatblygu, gan sicrhau ein bod yn gweithio yn ôl y disgwyl, ar draws y Cyngor.

Rydyn ni wedi dechrau defnyddio'r data sydd ar gael sydd ar hwb Data Cymru; i feincnodi ein perfformiad ac, yn fwy diweddar, rydyn ni wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau lleol eraill a Data Cymru, er mwyn datblygu'r system hon ymhellach a sicrhau bod gwybodaeth ar gael i gymharu yn ei herbyn. Bydd rhagor o wybodaeth i gymharu ar gael yn y dyfodol, trwy arolwg cyffredin i drigolion a fydd yn cael ei gyflwyno ledled Cymru yn y flwyddyn sydd i ddod.

Bydd ein Timau Gweithredol ac Arweinyddiaeth hefyd yn parhau i ganolbwyntio ar berfformiad, trwy amserlen berfformiad ddeuddeg-wythnos y cytunwyd arni. Mae hyn yn rhoi ffocws penodol ar berfformiad pob cyfarwyddiaeth, mewn perthynas â risgiau, cynnydd yn erbyn amcanion llesiant ein Cynllun Sirol a llawer o ymchwiliadau "manwl" eraill i feysydd perfformiad sy'n destun pryder.

Bydd Fforwm Datblygu Polisi'r Cyngor (Cabinet a Thîm Arweinyddiaeth) hefyd yn parhau i gael diweddariadau chwarterol am gynnydd yn erbyn Cynllun Cyflawni'r Cynllun Sirol. Ategir at y rhain yn awr gyda diweddariad chwarterol am sefyllfa'r Cyngor o ran y gyllideb. Bydd y gwaith ar wella, adrodd a monitro perfformiad yn parhau, a bydd yn cynnig cyfle i gryfhau ac alinio ein cynlluniau a'n prosesau ymhellach, gan fynd ati mewn ffordd fwy integredig i ystyried yr heriau, y dyheadau a'r adnoddau sydd ar gael i'r Cyngor yn y flwyddyn sydd i ddod, ac arwain at gynllunio ein gwasanaethau yn fwy effeithiol.

Mae adroddiadau diweddaru ein Cynllun Cyflawni ar gyfer y Cynllun Sirol yn cael eu derbyn gan y Cyngor llawn bob 6 mis, un hanner-blwyddyn ac un arall ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, gan sicrhau bod y Cyngor mor dryloyw ac atebol â phosibl.

Yn ystod y misoedd nesaf byddwn yn dechrau rhoi ystyriaeth gynnar i'r heriau a'r meysydd y byddwn yn eu blaenoriaethu yn y flwyddyn nesaf, ochr yn ochr â sut y gallwn gryfhau ein proses ar gyfer cynllunio gwasanaethau. Mae hyn yn rhan o'n hymgyrch barhaus i gryfhau'r cysylltiadau ymhellach rhwng ein prosesau cynllunio Corfforaethol, Gwasanaethau ac Ariannol, er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl i drigolion Torfaen.

## Ein Trefniadau Llywodraethu

Mae trefniadau Llywodraethu'r Cyngor yn rhan annatod o allu'r Cyngor i ddarparu ei wasanaethau allweddol wrth ddefnyddio ei adnoddau'n effeithiol ac yn ddarbodus.


Bob blwyddyn, rydyn ni'n cynhyrchu Datganiad Llywodraethu Blynyddol i amlinellu'r prosesau a'r trefniadau llywodraethu sy'n gweithredu o fewn y Cyngor. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei baratoi gan y swyddogion ar draws y Cyngor ac o fewn ei gylch gwaith mae sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni llywodraethu corfforaethol da ac yn ei gynnal.

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio hefyd yn goruchwylio'r broses ar gyfer cynhyrchu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, gan gynnig mecanwaith ar gyfer adolygu cyn i'r Cyngor llawn ei fabwysiadu. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn rhan annatod o broses Hunanasesu'r Cyngor ac mae'n ffynhonnell allweddol o dystiolaeth wrth ystyried y cynnydd a wnaed yn erbyn ein 'Nodweddion sy'n Diffinio Cyngor Rhagorol'.

Mae ein Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi'i ymgorffori'n gadarn yn ein trefniadau llywodraethu. Mae'r pwyllgor yn cynnwys 5 aelod etholedig o'r awdurdod lleol a 3 aelod lleyg - ac mae gan un ohonynt rôl y Cadeirydd. Mae cyfuniad o aelodau awdurdod lleol ac aelodau lleyg yn cryfhau lefel yr her annibynnol o fewn y pwyllgor ymhellach. Yn ogystal â'i rôl yn adolygu ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol, mae gan y pwyllgor rôl allweddol i oruchwylio a rhoi sicrwydd mewn meysydd fel rheoli risgiau busnes (gan gynnwys monitro cofrestrau risgiau cyfarwyddiaethau unigol), rheoli ariannol, Fframwaith Rheoli'r Cyngor a'n proses Gŵynion. Rôl hanfodol arall y pwyllgor yw rhoi sicrwydd bod y Cyngor yn ymateb yn briodol ac yn effeithiol i adroddiadau gan ein rheoleiddwyr allanol.

Mae unrhyw argymhellion gan Archwilio Cymru a'n rheoleiddwyr allanol eraill yn cael eu derbyn gan ein Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'u hychwanegu at "Gynllun Gweithredu'r Cyngor ar gyfer Llywodraethu a Gwelliant". Dyma ddogfen allweddol y Cyngor i ddangos sut y mae cynigion a dderbynnir ar gyfer gwella / argymhellion y cytunwyd arnynt yn cael sylw.

Mae ein Cynllun Gweithredu yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd ac adroddir amdano'n rheolaidd, i roi sicrwydd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae monitro argymhellion sy'n benodol i wasanaethau yn gyfrifoldeb ar bwyllgorau trosolwg a chraffu'r Cyngor, ac mae yna ddiweddariadau cynnydd blynyddol yn cael eu paratoi ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio at ddibenion sicrwydd. Amlygir unrhyw bryderon sy'n ymwneud â chynnydd a nodwyd gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a/neu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mewn adroddiad i'w ystyried gan Gabinet y Cyngor.




Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydyn ni wedi cryfhau arweinyddiaeth wleidyddol yn gyffredinol trwy gyflwyno craffu trawsbleidiol effeithiol a grwpiau ffocws trawsbleidiol. Mae hyn wedi arwain at gynllunio, gweithredu a chyflwyno prosiectau a gwasanaethau sy'n flaenoriaeth ac yn bwysig iawn i'n cymunedau, yn llyfnach. Ar gyfer y gwaith trawsbleidiol mae Aelodau etholedig o gefndiroedd daearyddol a gwleidyddol gwahanol wedi cydweithio i wneud penderfyniadau sydd o fudd i etholwyr a'r sir gyfan. Cydnabyddir y gall fod gan Aelodau ideolegau a blaenoriaethau gwahanol, ond mae'r dull hwn yn dangos gwaith blaengar yn Nhorfaen lle mae buddiannau etholwyr a llesiant y cymunedau lleol yn cael eu blaenoriaethu uwchlaw ystyriaethau pleidiol.

Mae llywodraethu democrataidd cryf yn elfen allweddol i ni fod yn sefydliad a reolir yn dda ac felly mae'n hanfodol i fodloni ein gofynion o ran perfformiad. (Mae trosolwg o'n trefniadau llywodraethu wedi'i nodi, fel isod ac mae rhagor o wybodaeth ar gael yng Nghyfansoddiad ein Cyngor, sef ein fframwaith ffurfiol sy'n

cyflwyno sut y mae'n rhaid i ni fel Cyngor weithredu a gwneud penderfyniadau gydag effeithlonrwydd, tryloywder ac atebolrwydd.

## 10. Y Flwyddyn Nesaf a Thu Hwnt

Mae ein hadroddiad yn tynnu sylw at y datblygiadau allweddol yr ydym yn bwriadu eu cyflawni, ond hefyd yr heriau sylweddol yr ydym yn mynd i'r afael â nhw'n weithgar fel sefydliad.

Wrth wraidd ein dull gweithredu mae nifer fach o egwyddorion craidd sy'n llywio popeth a wnawn - egwyddorion sy'n sylfaenol i sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn gallu ffynnu. Mae'r cysyniadau hyn yn adlewyrchu ein gweledigaeth hirdymor a'n hymrwymiad i gynnydd cynaliadwy, cynhwysol ar draws ein cymunedau.

Mae ein Strategaeth Llesiant Cymunedol yn canolbwyntio ar sicrhau mwy o gydnerthedd ar gyfer ein cymunedau a'n trigolion, gan arwain at lawer mwy o annibyniaeth a llai o siawns y bydd unigolion yn dibynnu ar ymyriadau costus gan y Cyngor yn eu bywydau.

Rydyn ni wedi ymrwymo i'n nod o newid y ffordd yr ydym yn gweithredu'n radical, gan wneud 'cymunedau' a 'llesiant ac atal' yn gonglfeini go iawn yn y ffordd yr ydyn ni'n dylunio ein gwasanaethau er mwyn i ni allu grymuso ein cymunedau i fod yn iachach, wedi'u cysylltu'n well ac yn fwy cyfartal.

Rydyn ni'n cydnabod bod ein llwyddiant yn dibynnu ar newid pŵer ac ymddiried yn ein cymunedau. Trwy rymuso preswylwyr gydag awdurdod ystyrlon i wneud penderfyniadau am sut a ble mae adnoddau'n cael eu dyrannu'n lleol, rydyn ni'n rhoi llais go iawn i bobl wrth lunio'r gwasanaethau sydd bwysicaf iddyn nhw. Mae'r dull hwn yn annog cydweithio rhwng ein trigolion, ein partneriaid a'r Cyngor, gan weithio gyda'i gilydd fel partneriaid cyfartal i ddylunio gwasanaethau, eu darparu a'u gwerthuso. Mae'n gam pwerus tuag at adeiladu cymunedau cryfach, mwy cydnerth a sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn adlewyrchiad go iawn o anghenion a dyheadau'r bobl y maent yn eu gwasanaethu.

Mae ein dull gweithredu wedi'i wreiddio mewn rhoi mwy o reolaeth i gymunedau dros yr adnoddau sy'n siapio'u bywydau. Trwy drosglwyddo rheolaeth dros gyllidebau ac asedau yr oedd y Cyngor yn arfer eu dal, rydyn ni'n galluogi pobl leol i gymryd yr awenau wrth lunio'u dyfodol. Ond rydyn ni'n mynd ymhellach na dim ond caniatáu i gymunedau benderfynu sut mae arian cyhoeddus yn cael ei ddyrannu. Rydyn ni'n eu cynnwys yn uniongyrchol wrth ddylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae hyn yn nodi newid tuag at ddiwylliant o gydweithio rhwng y Cyngor a chymunedau Torfaen, gan ddisodli modelau traddodiadol 'o'r brig i lawr' a chyflwyno partneriaethau ystyrlon yn eu lle. Mae'n golygu datgloi'r cryfderau o fewn ein cymunedau, meithrin ymddiriedaeth, a grymuso gweision cyhoeddus a thrigolion i gydweithio gyda chyd-bwrpas a chyd-barch.

Rydyn ni wedi cymryd camau pwysig yn barod tuag at gyflawni ein nodau. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi ailfodelu gwasanaethau i roi mwy o bwyslais ar ymyrraeth gynnar ac atal. Fodd bynnag, rydyn ni'n cydnabod nad cyfrifoldeb y Cyngor yn unig yw atal. Mae'n gofyn am ymdrech ar y cyd ar draws ein sefydliad a gyda'n partneriaid a'n cymunedau. Dyna pam rydyn ni'n ymgorffori meddylfryd atal-yn-gyntaf yn ein holl wasanaethau a phob agwedd ar ein gwaith, gan gymryd mesurau rhagweithiol i fynd i'r afael â'r achosion wrth wraidd anghydraddoldeb. Mae hyn yn golygu dylunio gwasanaethau sy'n ymyrryd yn gynnar, yn buddsoddi yng nghryfderau'r gymuned, ac yn alinio adnoddau i leihau'r galw yn y dyfodol.

Trwy weithio gyda'n gilydd, gallwn adeiladu dyfodol mwy cydnerth, teg a chynaliadwy i bawb yn Nhorfaen.

Dros y cyfnod nesaf, bydd pob cyfarwyddiaeth a maes gwasanaeth yn nodi cyfleoedd i atal y galw rhag tyfu, hyrwyddo llesiant, a chau bylchau mewn canlyniadau. Byddwn yn mesur llwyddiant yn ôl yr hyn yr ydyn ni'n ei drwsio, ond hefyd yn ôl yr hyn yr ydyn ni'n ei atal, gan sicrhau bod ein gweithredoedd heddiw yn adeiladu cymunedau tecach, iachach a mwy cydnerth ar gyfer yfory.

Cam nesaf ein dull gweithredu yw datblygu perthynas newydd rhwng y Cyngor a'n cymunedau. Byddwn yn cyflwyno ein 'Bargen', sef contract cymdeithasol sydd wedi'i adeiladu ar ymddiriedaeth, rhannu cyfrifoldeb, a gweithredu ar y cyd. Nid prosiect yw ein 'Bargen'. Mudiad ydyw. Meddylfryd. Ymrwymiad i wneud pethau'n wahanol, trwy weithio gyda'n gilydd.

Yn ei hanfod, mae ein Bargen yn golygu rhannu pŵer, trwy gyllidebau datganoledig, gwneud penderfyniadau'n lleol, a chred bod cymunedau'n gwybod orau beth sy'n gweithio iddyn nhw. Mae'n golygu gweithio mewn partneriaeth i leihau anghydraddoldebau iechyd, gwella llesiant, ac adeiladu cymunedau cydnerth, grymus, cryf. Mae'n golygu adeiladu rhywbeth gwell gyda'n gilydd. Caru ein Bwrdeistref, ymfalchïo yn ein cymunedau, a datgloi'r potensial sydd eisoes yn bodoli ym mhob stryd, pob cymdogaeth, a phob unigolyn.

Bydd ein 'Bargen' yn cael ei chyflawni trwy 5 cenhadaeth a rennir:

- **Cenhadaeth Un: Blynyddoedd Cynnar - Adeiladu Dyfodol Disglair**
  **Cefnogi pob plentyn i ffynnu trwy osod sylfeini cadarn ar gyfer dysgu a datblygu gydol oes - gan roi sylw i lesiant gwybyddol, emosiynol, cymdeithasol a chorfforol**

- **Cenhadaeth Dau: Ysbrydoli Dysgu Gydol Oes, Uchelgais a Chydnerthedd**
  **Grymuso pobl o bob oed i fyw bywydau gwybodus, annibynnol ac iach, gan feithrin uchelgais a chydnerthedd gydol oes**

- **Cenhadaeth Tri: Llesiant Trwy Arweinyddiaeth Gymunedol**
  **Partneru gyda chymunedau i ffrwyno cryfderau lleol a gwella llesiant, gan leihau dibyniaeth ar wasanaethau statudol trwy atebion rhagweithiol, a arweinir gan y gymuned**

- **Cenhadaeth Pedwar: Economi Ffyniannus, Lleoedd Bywiog**
  **Gyrru twf economaidd cynaliadwy a chreu cymunedau bywiog sydd wedi'u cysylltu'n dda lle gall pobl a busnesau ffynnu**

- **Cenhadaeth Pump: Cymunedau Grymus, Rhannu Pŵer a Llwyddiant**
  **Gweithio ochr yn ochr â chymunedau i ddal eu hegni a'u huchelgais, cyd-ddylunio gwasanaethau a chreu amodau ar gyfer cydnerthedd, hunan-ddibyniaeth, a rhannu llwyddiant**

Flwyddyn yn ôl, gwnaeth y Cyngor ymrwymiad i ddod yn Gyngor Marmot a thrwy wneud hynny i leihau anghydraddoldeb a diffyg tegwch yn Nhorfaen mewn ffordd gynaliadwy. Mae ein dull gweithredu yn cydnabod nad yw llesiant yn golygu dewisiadau unigol neu fioleg yn unig. Mae'r amodau lle mae pobl yn cael eu geni, yn tyfu, yn byw, yn gweithio ac yn heneiddio yn cael effaith ddofn ar eu llesiant. Felly, mae'n rhaid i ni fynd y tu hwnt i ofal iechyd i wella iechyd wrth ddatblygu dulliau system-gyfan sy'n mynd i'r afael â'r achosion sylfaenol wrth wraidd problemau, gan ddatblygu atebion cynhwysol a hirdymor wedi'u teilwra.

Y Fargen yw ein mecanwaith ar gyfer gwireddu'r dyhead hwn. Rydyn ni wedi ymrwymo i fod yn awdurdod sy'n dysgu, gan weithredu ar sail yr adborth yr ydyn ni’n ei gael, trwy weithio'n agos gyda'r cyhoedd, partneriaid a'n rheoleiddwyr yn ogystal â'n hadolygiad cymheiriaid diweddar ar draws y Cyngor (asesiad perfformiad panel). Felly, mae'n bwysig profi'n barhaus i weld a yw ein gweithredoedd yn cyflawni'r manteision a fwriedir

Ochr yn ochr â'r 'Fargen' newydd, byddwn yn gweithredu fframwaith gwerthuso newydd ar gyfer ein gwaith, gan gryfhau ymhellach ein prosesau hunanasesu ac adolygu parhaus er mwyn cael yr effaith fwyaf wrth wella llesiant ein trigolion.

Ein gweledigaeth yw dyfodol heb anghydraddoldeb, lle mae pawb yn ffynnu mewn cymuned deg, gynhwysol a chydnerth a gyflawnir trwy greu newid parhaol trwy feithrin ymddiriedaeth, meithrin cyfrifoldeb a rennir, a gyrru arloesi trwy gydweithredu cryf rhwng y Cyngor, trigolion a phartneriaid. Mae'r cynlluniau hyn yn uchelgeisiol ac mae ein dull gweithredu ochr yn ochr â'n partneriaid yng Nghyngor Blaenau Gwent yn parhau i'n gosod ar wahân i Gynghorau eraill yng Nghymru

TORFAEN COUNTY BOROUGH

BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

**Paratowyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**

**Hydref 2025**

I gael rhagor o wybodaeth neu i gynnig sylwadau am y ddogfen hon, cysylltwch â'r:

Tîm Gwella Corfforaethol
Y Ganolfan Ddinesig,
Pont-y-pŵl,
Torfaen
NP4 6YB

Ffôn: 01495 766298
E-bost: corporate.plan@torfaen.gov.uk

